LIVERPOOL JOHN MOORES UNIVERSITY

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

Medi
2024

# Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

## Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Caerdydd

Ellie McCoy, Chloe Smith, Rebecca Harrison, Alice Booth-Rosamond, Hannah Timpson a Zara Quigg

Liverpool John Moores University, Tithebarn Building, 79 Tithebarn Street, Liverpool, L2 2ER

Manylion cyswllt: E.J.McCoy@ljmu.ac.uk

# Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

# Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Caerdydd

Ellie McCoy, Chloe Smith, Rebecca Harrison, Alice Booth-Rosamond, Hannah Timpson a Zara Quigg

Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU), Sefydliad Iechyd y Cyhoedd – Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Atal Trais

Medi 2024

ISBN 978-1-83766-528-0

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open[1] government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Yr adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 20 o ardaloedd a gafodd gyllid gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru yn 2019 gyda chymorth ymrwymiadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru. Er mwyn llywio datblygiad parhaus Uned Atal Trais Cymru, comisiynwyd Prifysgol John Moores Lerpwl fel partner gwerthuso. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o ganlyniadau rhaglen waith y gwerthusiad hwn, ac mae'n cyflwyno gwerthusiad o'r dull system gyfan a'r dull astudiaeth achos ar gyfer Caerdydd. Cyflwynir yr adroddiad ochr yn ochr ag adroddiad astudiaethau achos manwl ategol. Mae'r gyfres o adroddiadau gwerthuso ar gael ar wefan yr Uned Atal Trais (https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/) ac mae'n cynnwys:

- Blwyddyn 1 – Datblygu fframwaith gwerthuso ac adroddiad systemau cyfan Uned Atal Trais Cymru
- Blwyddyn 2 – Gwerthuso rhaglenni gwaith dethol
- Blwyddyn 3 – Gwerthuso dull astudiaethau achos systemau cyfan Abertawe
- Blwyddyn 4 – Gwerthuso dull astudiaethau achos systemau cyfan Caerdydd

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru:

- Cyllidwyr y gwerthusiad, Uned Atal Trais Cymru
- Aelodau tîm Uned Atal Trais Cymru, partneriaid ehangach a gweithredwyr y rhaglen a gefnogodd y broses o roi'r gwerthusiad ar waith
- Ceidwaid yr ymchwil a gefnogodd y broses o gasglu data a recriwtio
- Pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth, mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws

- Cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru am gynghori ar y broses o ddatblygu astudiaethau a chydweithwyr o Sefydliad Iechyd y Cyhoedd am gefnogi'r broses o gynnal yr astudiaeth a llunio'r adroddiad, gan gynnwys Ann Marie Farrugia a Dave Seddon

## Terminoleg

**Y defnydd o'r term 'trais difrifol'**

Mae Uned Atal Trais Cymru yn annog partneriaethau i beidio â defnyddio 'difrifol' fel term wrth ddiffinio trais. O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae'n bwysig deall y gall ymyriadau (yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar) atal trais yn yr hirdymor, a gwella deilliannau addysgol, rhagolygon cyflogaeth ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. Mae'r ymyriadau hyn hefyd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ehangach o ran yr economi a'r gymdeithas. Felly, byddwn yn cyfeirio at 'trais' drwy'r adroddiad hwn oni fyddwn yn cyfeirio at ffynhonnell sy'n defnyddio 'trais difrifol' fel term, neu'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

**Y defnydd o'r term 'trais gan bobl ifanc'**

Roedd y plant, y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at Fframwaith Cymru Heb Drais, a gyd-gynhyrchwyd gan Uned Atal Trais Cymru a Peer Action Collective Cymru, yn glir bod y term 'trais gan bobl ifanc' yn derm hen ffasiwn. Roedd ymdeimlad y gall y term gyfrannu at labelu a stereoteipio plant a phobl ifanc fel grŵp. Felly, byddwn yn cyfeirio at 'trais ymhlith plant a phobl ifanc' drwy'r adroddiad hwn oni fyddwn yn cyfeirio at ffynhonnell sy'n defnyddio 'trais gan bobl ifanc' fel term, neu'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Yn 2019, ariannodd y Swyddfa Gartref y broses o sefydlu Unedau Lleihau Trais mewn 18 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynyddu i 20 o heddluoedd yn 2022. Sefydlwyd yr Unedau i ostwng lefelau trais difrifol gan ddefnyddio dull 'iechyd y cyhoedd' o atal trais. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o atal pob math o drais. Mae Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r tîm amlasiantaeth. Mae dull gweithredu pedwar cam yr Uned Atal Trais (Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu) yn sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r system ehangach er mwyn sicrhau gweithgarwch atal trais cynaliadwy sy'n gweithio ymhellach i sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n ymarfer gweithredol i ddylanwadu ar newidiadau cynaliadwy ar lefel system.

Yng Nghaerdydd, ardal lle ceir lefelau uchel o drais yng Nghymru, mae'r Uned Atal Trais a phartneriaid yn cyflwyno amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaeth i leihau ac atal trais, ac i ddefnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o helpu plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais neu'n wynebu risg o ddod yn rhan ohonynt. Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn 'gyfle dysgu digymell'. Mae'r ymyriadau hyn yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais, gan gynnwys:


| Sector | Ymyriad/rhaglen/dull | Natur | Oedran |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) | Dull wedi'i dargedu<br>Ymyrryd yn gynnar | ≥18<br>11-25 oed |
| Cyfiawnder Troseddol | Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu | Ymyriad trydyddol | 10-18 oed |
| Iechyd | Tîm Atal Trais y GIG | Ymyrryd yn gynnar | Pob oedran |
| Cymunedol | Fearless, Crimestoppers | Ymyriad sylfaenol cyffredinol | 11-16 oed, gweithwyr proffesiynol |
| | Braver Choices, Media Academy Cymru | Ymyriad therapiwtig | 10-17 oed |
| | Parallel Lives, Media Academy Cymru | Ymyriad therapiwtig | 8-17, rhieni |
| | Positive Masculinity, Media Academy Cymru | Ymyriad eilaidd wedi'i dargedu | 10-17 oed |

## Dulliau gwerthuso

Comisiynodd Uned Atal Trais Cymru Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull systemau cyfan yr Uned Atal Trais o atal trais, gan ganolbwyntio ar Gaerdydd. Mae'r gwerthusiad yn archwilio sut mae'r ymyriadau a'r dulliau gweithredu ledled Caerdydd yn gweithredu i nodi unigolion sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny, a'r mesurau a roddir ar waith i liniaru risg a'u hatal rhag ymwneud ymhellach ag achosion o drais a throseddu. Ymysg y gweithgareddau gwerthuso roedd:



Adolygiad cyflym o lenyddiaeth i roi cyd-destun i'r ymchwil ac i helpu i ddehongli canfyddiadau ymchwil ac i ddatblygu argymhellion.



Cafodd tystiolaeth allweddol o raglenni, polisïau a dogfennaeth weithredol eu casglu, eu hadolygu a, lle y bo'n bosibl, eu dadansoddi i archwilio datblygiad, gweithrediad, cyflawniad ac effaith ymyriadau'r Uned Atal Trais.



Cafodd cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol (n=18) eu cynnwys yn y broses o roi'r ymyriadau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais ar waith a'u darparu ledled



Cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau (n=6) sy'n ymgysylltu â'r ymyriadau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais ledled Caerdydd i archwilio anghenion unigolion, rhwystrau i gael gafael ar gymorth, profiadau teithiau ac effaith cymorth. Datblygwyd astudiaethau achos (n=7) ar gyfer ymyriadau.

## Canfyddiadau allweddol[1]

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o fynd i'r afael â bregusrwydd ac atal pob math o drais yng Nghymru. Nod yr Uned Atal Trais yw cyflwyno dull systemau cyfan o atal trais drwy ddull pedwar cam: Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu. Roedd y gwerthusiad systemau cyfan yn fodd i archwilio'r gweithgareddau atal trais, sut y cawsant eu rhoi ar waith a'u cynnal, a'r gwahaniaeth y mae'r ymyriadau wedi'u gwneud i'r bobl ifanc y cawsant eu dylunio i'w cefnogi. Mae'r holl ymyriadau yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc drwy eu hatal rhag dod yn rhan o achosion o drais neu leihau'r risg i bobl ifanc sy'n agored i niwed, neu'r rheini sydd eisoes wedi wynebu trais.

### Anghenion y gymuned

Mae nodi a deall penderfynyddion ehangach iechyd a ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar bobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghaerdydd, yn hanfodol. Tynnodd partneriaid sylw at yr anghenion cymhleth ledled Caerdydd a'r grwpiau penodol yr oedd yr ymyriadau yn eu targedu. Gwnaethant ddisgrifio'r ffactorau risg i bobl ifanc, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac iechyd meddwl gwael. Roedd gan gyfrannau uchel a chynyddol o bobl ifanc anghenion ychwanegol hefyd, gan gynnwys anableddau niwroddatblygiadol.

> *"Mae niwroamrywiaeth yn chwarae rhan enfawr wrth gefnogi ymddygiad troseddol, nid dim ond plant a phobl ifanc, ond oedolion hefyd. Mae tua un rhan o dair o oedolion sydd*

[1] Allwedd y dyfyniadau: Rh= Rhanddeiliad, PI= Person Ifanc, Adroddiadau Chwarterol= data ansoddol o adroddiadau monitro chwarterol yr Uned Atal Trais

*yn y carchar yn niwroamrywiol ac mae hanner ohonynt wedi cael anaf trawmatig i'r ymennydd ar ryw adeg" (Rh6)*

Roedd llawer o bobl ifanc wedi ymddieithrio o'r ysgol, gan dynnu sylw at rôl hanfodol addysg wrth greu ffactorau amddiffynnol. Roedd bwlch hefyd o ran gwasanaethau yn ystod y cyfnod pontio pwysig i fyd oedolyn ar gyfer pobl ifanc a allai syrthio rhwng bylchau. Roedd pandemig COVID-19 wedi cynyddu cymhlethdod anghenion, wrth i wasanaethau nodi mwy o heriau i bobl ifanc, gan gynnwys ynysu cymdeithasol, iechyd meddwl gwael, a newidiadau mewn ymddygiad. Roedd hefyd mwy o achosion o drais yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a mwy o ferched y dod yn rhan o achosion o drais yn yr ysgol, ac roedd angen cymorth ar grwpiau oedran iau. Nodwyd rhwystrau i deuluoedd rhag ymgysylltu â gwasanaethau am eu bod wedi colli ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol, wedi cael profiadau negyddol blaenorol, ac yn teimlo wedi'u llethu o ganlyniad i ymwneud â sawl sefydliad. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i wasanaethau gydweithio i ddarparu cymorth hygyrch a chofleidiol ar gyfer y teulu cyfan.

*"Os nad ydyn nhw yn yr ysgol, mae'r tebygolrwydd y byddan nhw'n mynd i ragor o drafferth yn aruthrol" (Rh2)*

*"Rydyn ni'n cael llawer o'r sgyrsiau hynny, pan fyddan nhw'n 18 neu'n 21 oed. Dyw pobl ddim yn rhoi'r gorau iddi yn sydyn. Maen nhw'n dod aton ni'n agored i niwed pan fyddan nhw'n troi'n 18 oed" (Rh15)*

*"Wrth edrych ar yr hyn wnaeth Covid a'r cyfyngiadau symud, yr hyn wnaeth y diffyg rhyngweithio cymdeithasol i bobl" (Rh11).*

### Rhwystrau i gyflwyno'r rhaglen

Mae deall y ffactorau cyd-destunol a all ddylanwadu ar y broses o fabwysiadu'r ymyriad, ei gyrhaeddiad a'r gwaith o'i gynnal yn allweddol i ddeall yr hyn sy'n gweithio mewn amgylchiadau penodol. Ymysg y rhwystrau i gyflawni ar gyfer darparwyr ymyriadau roedd oedi wrth recriwtio a oedd yn effeithio ar y broses o roi ymyriadau ar waith, natur fyrhoedlog cyllid a oedd yn arwain at ansicrwydd swyddi i staff, a gweithio gydag adnoddau a chapasiti cyfyngedig. Credwyd bod effaith y pandemig hefyd wedi cynyddu cymhlethdodau a'r galw am wasanaethau. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd deall lefel y gwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi cymunedau'n effeithiol. Tynnwyd sylw at rwystrau o ran rhannu gwybodaeth, sicrhau bod data'n cael eu casglu yn effeithiol a bod partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn dangos effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau.

*"Mae llawer o bobl ifanc yn agored am y ffaith eu bod wedi cael profiad eithaf trawmatig gyda'r heddlu ac na fydden nhw byth yn ymddiried yn yr heddlu" (Rh5)*

*"O fewn y bartneriaeth, mae pawb yn eithaf da am gydweithio, ond o ran creu sylfaen dystiolaeth, mae partneriaid yn dueddol o fod yn eithaf amharod i rannu" (Rh14)*

*"Pa ddata sy'n debygol o fod ar goll yn y lle cyntaf? Wedyn pa ddata sy'n cael eu casglu, efallai nad yw pwysleisio ansawdd y data hynny yn gymaint o flaenoriaeth ag y dylai fod" (Rh14)*

*"Yn aml, mae gennych chi gant a mil o bethau gwahanol i'w gwneud. Ac rydych am ddweud, wow, oce, mae gen i fusnes i'w redeg o ddydd i ddydd" (Rh17)*

*"Os byddwch chi'n recriwtio 20 o bobl fory, hyd yn oed ar gontract penodol o flwyddyn, bydd yn cymryd tri mis i chi eu hyfforddi i'r lefel sydd ei hangen. Mae hynny'n anodd iawn.*

*Felly rwy'n credu eu bod yn rhedeg ar ôl eu cynffonnau eu hunain i raddau ar y dechrau. (Rh17)*

## Effaith yr Uned Atal Trais

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos i ba raddau y mae gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd, sef lleihau'r risg o ddod yn rhan o achosion o drais a niwed cysylltiedig trais ymhlith plant a phobl ifanc. Drwy'r Uned Atal Trais, bu modd buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu ymyriadau a llwybrau cymorth i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg a'u cyfeirio at gymorth priodol ar draws y system.

Cafodd yr ymyriadau eu dylunio, eu datblygu a'u darparu gan dimau o staff profiadol, a ddefnyddiodd dull sy'n ystyriol o drawma i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd darparu gofod diogel heb farnu yn allweddol i chwalu'r rhwystrau i ymgysylltu â phobl ifanc. Rhoddodd yr holl ddarparwyr ymyriadau enghreifftiau o'r ffordd y cafodd dulliau cyfathrebu, sesiynau ac adnoddau eu haddasu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. Ystyriwyd bod hyblygrwydd a meithrin cydberthnasau cryf yn allweddol i ymgysylltu'n llwyddiannus, a nododd y darparwyr fod niferoedd da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau atal trais. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn cydnabod y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â meithrin cydberthnasau a sicrhau gofal cyson, cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu yn y lle cyntaf, a chynnal yr ymgysylltu hwnnw, sy'n aml yn anodd ei ddogfennu. Ystyriwyd bod cael staff profiadol a medrus yn allweddol i hyn, gan sicrhau eu bod yn gallu edrych y tu hwnt i'r ymddygiad/digwyddiad cychwynnol i ennyn ymddiriedaeth pobl ifanc ac eirioli drostynt.

Mae ymyriadau yn darparu enghreifftiau o sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif drwy achub ar gyfleoedd yn ystod argyfwng, er enghraifft yn ystod ymweliad ag adran damweiniau ac achosion brys neu pan fydd unigolyn yn cael ei arestio gan yr heddlu, i ymyrryd a defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma i edrych y tu hwnt i'r broblem neu ymddygiad cychwynnol i ddeall unrhyw achosion sylfaenol. Mae cysylltu'r ymyriadau statudol hyn â chymorth cymunedol yn cynnig llwybr i nodi anghenion pobl ifanc a'u trosglwyddo wedyn i lwybr addas o ofal tymor hwy. Mae'r gwaith parhaus hwn yn rhoi'r cysondeb sydd ei angen ar bobl ifanc i gynnal cydberthnasau a chanlyniadau tymor hwy.

*“Rydyn ni'n ceisio pwysleisio mai plant ydyn nhw yn gyntaf. Rwy'n credu bod hynny ychydig yn ... gyda rhai aelodau o staff. Mae'n broblem gydag eraill. Ond ddylai e ddim bod." (Rh7)*

*“Mae'n ymwneud â bod yno pan nad oes neb arall” (S9)*

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos y canlyniadau i'r bobl ifanc a fanteisiodd ar yr ymyriadau. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau o ran hyder, hunan-barch, gwydnwch, gorbryder, ac iselder. Drwy gael eu cefnogi i ddatblygu strategaethau ymdopi gwahanol, dywedodd y bobl ifanc eu bod wedi cael tawelwch meddwl ac wedi teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gwrando arnynt drwy gydol yr ymyriadau. Ymysg y canlyniadau eraill a nodwyd roedd gwelliannau o ran tai ar gyfer unigolion hŷn ag anghenion cymhleth a oedd yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn galluogi pobl ifanc mewn sefyllfaoedd tebyg i ddod ynghyd i gael cymorth gan gymheiriaid.

*“Gweithiodd gyda fi pan doedd neb arall yn fodlon gwneud” (PI)*

*“Mae gennym ni rywun rydyn ni'n ymddiried ynddo i siarad ag ef” (PI)*

*“Doedd gen i ddim neb a oedd yn deall beth oedd yn digwydd” (PI)*

*“Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi ac rwy'n fwy hyderus ynof fi fy hun" (PI)*

*“Bydda i'n siarad am fy nheimladau yn fwy” (PI – Adroddiad Chwarterol)*

Roedd cefnogi pobl ifanc i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn un o nodau allweddol yr holl ymyriadau, a chydnabu'r rhanddeiliaid ffactorau amddiffynnol addysg. Ystyriwyd bod eirioli dros bobl ifanc ac addasu rhaglenni i redeg o fewn/ochr yn ochr ag ysgolion yn hanfodol i atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o ysgolion a'r effeithiau negyddol hirdymor sy'n gysylltiedig â hyn. Cafwyd adroddiadau hefyd am ymddygiad gwell mewn ysgolion. Tynnodd y canfyddiadau sylw at bwysigrwydd ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau ystyrlon a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dargyfeirio a modelau rôl cadarnhaol yn y gymuned. Ystyriwyd bod dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn bwysig i alluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau newydd a chydnabod a gwella sgiliau presennol, a chredwyd bod hynny'n bwysig i feithrin eu hyder a'u helpu i ddatblygu eu dyheadau personol eu hunain i'w helpu i symud ymlaen yn eu bywydau.

*"Yr ymdrech fwyaf i geisio annog pobl ifanc i ddychwelyd i addysg" (Rh15)*

Nodwyd gwelliannau o ran gwybodaeth yn ganlyniad sylweddol i bobl ifanc. Dangosodd adborth a ffurflenni gwerthuso a gasglwyd o fewn gwasanaethau gyfrannau uchel o wybodaeth ac agweddau gwell. Drwy ddeall canlyniadau cyfreithiol bod yn rhan o droseddau, risgiau camfanteisio, a'r effeithiau iddyn nhw eu hunain ac eraill, gallai pobl ifanc wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth yn y dyfodol. Ystyriwyd bod cynnwys pobl ifanc yn y broses yn ffordd bwysig o'u helpu i ddeall eu sefyllfa. Credwyd bod ymwybyddiaeth o sut a ble i gael gafael ar gymorth yn amhrisiadwy i bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni wedi'u targedu ac y gallai fod angen cymorth arnynt yn y dyfodol, yn ogystal ag i'r bobl hynny a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai a oedd bellach yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth pe bai ei angen arnynt. Rhoddodd y gweithgareddau hefyd ymwybyddiaeth iddynt o ran sut i roi gwybod am droseddau a'r hyder a'r sicrwydd i wneud hynny yn ddienw neu siarad â gweithwyr proffesiynol. Credwyd bod hyn yn allweddol i leihau'r stigma a symud i ffwrdd oddi wrth ddiwylliant o 'gario straeon'. Roedd y wybodaeth honno'n cynnwys pethau nad oedd y bobl ifanc wedi bod yn ymwybodol ohonynt cyn cymryd rhan yn yr ymyriadau a ddarparwyd ledled Caerdydd.

Mae adborth gan y bobl ifanc yn awgrymu eu bod yn llai tebygol o gario cyllell neu arf am eu bod bellach yn teimlo'n fwy diogel a hyderus. Awgrymwyd hefyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n rhoi gwybod am droseddau. Credai nifer o bartneriaid fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o gyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais ymhlith plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â throseddau cyllyll. Yn y tymor hwy, roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai llai o droseddau difrifol a threisgar, gan gynnwys llai o bobl ifanc yn cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i droseddau cyllyll a thrais, gan arwain at ragolygon gwell mewn bywyd i'r rhai dan sylw.

*"Dywedodd llawer ohonyn nhw [plant/pobl ifanc] eu bod yn meddwl ei bod hi'n iawn iddyn nhw gario cyllell i amddiffyn eu hunain, a'u bod yn mynd i roi'r gorau i wneud hynny" (S5)*

Dangoswyd effeithiau ehangach o ran cydberthnasau gwell rhwng pobl ifanc â'u ffrindiau a'u teulu. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffordd roedd ymyriadau yn cefnogi rhieni, brodyr a chwiorydd, ac aelodau ehangach o'r teulu hefyd. Gallai rhieni geisio cymorth ychwanegol ar gyfer y teulu cyfan drwy'r gwasanaethau roedd pobl ifanc yn eu defnyddio i gael cymorth. Nododd gwasanaethau fwlch mewn darpariaethau i rieni, yn enwedig wrth aros i'r person ifanc gydymffurfio a manteisio ar gymorth. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar rieni ac adnoddau, cyrsiau ac ymgyrchoedd. Casglodd gwasanaethau adborth gan rieni, a oedd yn dangos y budd yr oedd rhieni yn ei gael o'r cyfle i ddod ynghyd gyda rhieni eraill i rannu eu profiadau a chefnogi ei gilydd. Roedd hyn yn helpu i leihau'r stigma a'r cywilydd yr oedd rhai rhieni, gofalwyr, a phobl ifanc yn eu teimlo. Dywedodd rhieni eu bod wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o risgiau camfanteisio, a phrosesau cyfreithiol i helpu i gefnogi eu plant. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r hyder iddynt reoli ymddygiad eu plentyn yn well. Roedd hyn wedi arwain at lai o ofn a phryder, a theimladau cynyddol o ddiogelwch.

Mae creu mannau ac amgylcheddau diogel hefyd wedi arwain at deimladau cynyddol o ddiogelwch yn y gymuned.

*“Diolch am ein helpu i gydnabod y pethau da yn ystod y cyfnod anodd hwn” (Rhiant – Adroddiad Chwarterol)*

*“Byddan nhw [aelodau o'r gymuned] yn gweld mwy o weithgareddau yn y gymuned a llai o droseddu, a fyddan nhw ddim yn ddioddefwyr. Rwy'n gobeithio mai dyna fyddwn ni'n ei weld” (Rh17)*

*“Roedd yn gyfnod llawn straen i fy mam, a siaradodd [gweithiwr achos MAC] â mam hefyd. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd" (PI – Adroddiad Chwarterol)*

Mae'r darparwyr ymyriadau yn monitro lefelau ymgysylltu a chanlyniadau drwy adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais a'r Swyddfa Gartref. Caiff gwaith adrodd ychwanegol ei gwblhau o fewn sefydliadau gan gynnwys gwaith monitro rheolaidd a llunio adroddiadau. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron ar ôl sesiynau a gweithdai, a oedd yn galluogi gwasanaethau i ddefnyddio'r adborth a gasglwyd i wella dulliau cyflwyno a chanlyniadau, a oedd yn helpu teuluoedd i fyfyrio ar gynnydd. Fodd bynnag, nid oedd y rhain bob amser ar gael at ddibenion gwerthuso. Cydnabu'r rhanddeiliaid yr heriau o ran dangos effaith. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth fesur gwaith atal, dangos canlyniadau ar gyfer cynaliadwyedd prosiect, a mesur canlyniadau tymor hwy. Roedd hyn hefyd yn cynnwys heriau dangos dull systemau cyfan drwy gamau gwahanol bywyd, a oedd yn golygu na fyddai llawer o wasanaethau yn gweld canlyniadau o fewn amserlenni prosiectau. Cytunwyd bod angen i ganlyniadau fod yn weladwy ac yn hawdd eu mesur, a bod angen iddynt alluogi canlyniadau mwy meddal a naratif taith, gan gynnwys llais defnyddiwr y gwasanaeth, i gael eu casglu.

*“Maen anodd iawn mesur gwaith atal. A dyna'r broblem os nad ydyn nhw'n mynd ymlaen i droseddu. Sut mae mesur hynny?" (Rh17)*

*“Rwy'n credu bod dysgu yn allweddol, gan mai dyna sut rydych chi'n newid ac yn addasu eich gwasanaethau'n briodol i ddiwallu anghenion unigolion, ac mae angen i ni rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu yn ehangach" (Rh16)*

## Effaith ehangach ar draws y system

Mae'r Uned Atal Trais yn defnyddio dull systemau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd. Mae angen dull systemau cyfan i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig a chydweithredol sy'n sicrhau newid hirdymor. Mae gwerthusiad systemau cyfan yn canolbwyntio ar sut mae ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn rhyngweithio â'i gilydd i gyfrannu at newid systemau.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad o astudiaethau achos yn dangos effaith gweithgareddau atal trais ar y system ehangach Mae'r model comisiynu a chyflawni yn cyfrannu at nodau cyffredinol ehangach lleihau trais ymhlith plant a phobl ifanc ac unrhyw niwed cysylltiedig er mwyn creu cymunedau mwy diogel ledled Caerdydd. Roedd buddsoddiad gan yr Uned Atal Trais wedi ychwanegu gwerth at sefydliadau presennol i wella ymyriadau ac adnoddau presennol a datblygu rhai newydd. Roedd y cyllid hefyd wedi galluogi'r sefydliadau hyn i feithrin gallu ac uwchsgilio eu gweithlu er mwyn cyrraedd mwy o bobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd na fyddent o bosibl wedi cael cymorth fel arall.

Mae'r Uned Atal Trais wedi sefydlu rhwydwaith rhanddeiliaid mawr er mwyn helpu'r Uned i sefydlu a chydlynu gweithgarwch atal trais yn genedlaethol. Dywedwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a meithrin cydberthnasau i weithio mewn partneriaeth. Roedd gweledigaeth glir a rennir ymysg partneriaid ar gyfer defnyddio dulliau iechyd y

cyhoedd cydgysylltiedig o atal trais. Roedd datblygu llwybrau atgyfeirio a meithrin cydberthnasau ffurfiol rhwng gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau statudol a sefydliadau cymunedol, yn hyrwyddo trefniadau cydweithio ac ymwybyddiaeth o wasanaethau. Ystyriwyd bod gwaith partneriaeth ymhlith aelodau'r Uned Atal Trais yn un o'r prif gryfderau yng Nghaerdydd, gan fod ymwybyddiaeth dda o sefydliadau gwahanol a bod partneriaid yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Rhoddwyd enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â rhannu gwersi a ddysgwyd a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

*“Mae'r partneriaid yn dda. Maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n gallu ei gynnig” (Rh17)*

*Mae gan bawb yr un nod, ac mae hynny'n helpu (Rh11)*

*“Mae'r Uned [Uned Atal Trais] yn ein huno ni” (Rh17)*

Roedd gweithio gyda'r Uned Atal Trais yn gyfle i rannu gwybodaeth. Trafododd nifer o randdeiliaid fanteision rhannu data â'r Uned Atal Trais a chael data ganddi, a'r ffordd roedd y data hyn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys Porth Atal Trais Cymru ar gyfer data dienw ar drais yng Nghymru, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty, galwadau am ambiwlans, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad, a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Mae rhannu data â'r Uned Atal Trais yn helpu i feithrin dealltwriaeth realistig o'r sefyllfa ac yn cynnig llif cyfathrebu dwyffordd rhwng nifer o asiantaethau.

*“Mewn rhai meysydd, mae Caerdydd ar flaen y gad [o ran data] gan eu bod wedi'u sefydlu ers cymaint o amser” (Rh18)*

*“Mae'n cadarnhau'r hyn mae partneriaid yn ei weld, neu'r hyn mae'r data yn ei ddangos, sut mae pethau ar lawr gwlad” (S17)*

Nodwyd bod cyfarfod diogelu cyd-destunol amlasiantaeth Partneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) yn llwyfan allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chreu darlun o anghenion lleol i ddatblygu ymateb amlasiantaeth. Roedd hefyd yn galluogi partneriaid i rannu cyngor a chanllawiau, ac yn rhoi cyfrifoldeb a rennir iddynt i gefnogi pobl ifanc yn well. Roedd hyn hefyd yn golygu bod mwy o ddata a gwybodaeth yn cael eu rhannu, a oedd, yn ei dro, yn llywio gweithgarwch yr heddlu, gwaith patrôl a tharfu mewn ardaloedd problemus, ac ymatebion amlasiantaeth wedi'u teilwra yn dilyn digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â thrais.

*“Diben SAFE yw rhannu gwybodaeth iechyd briodol er mwyn creu darlun ehangach o'r person a'i anghenion” (Rh16)*

Drwy gydnabod penderfynyddion cymdeithasol iechyd drwy gamau gwahanol bywyd, mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le yn darparu fframwaith sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau penodol, drwy sicrhau bod sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau ar gyfer y ‘lle cyfan’, nid dim ond ar gyfer nifer o unigolion. Mae hyn yn sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n ymarfer gweithredol a'i ymgorffori ar draws y system ehangach. Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethau gan olygu bod ganddynt gyrhaeddiad ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Roedd effaith ehangach ar draws y system hefyd yn cynnwys gwybodaeth well ymhlith gweithwyr proffesiynol drwy feithrin cydberthnasau newydd, rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu'n agos â'r ymyriadau, a thrwy gael hyfforddiant ac arweiniad gan staff ymyrryd. Mae hyn wedi arwain at waith partneriaeth gwell, rhannu gwybodaeth yn well, mwy o wybodaeth ymhlith y gweithlu ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws y system atal trais, gan chwalu rhwystrau i atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli, er mwyn eu helpu i symud ymlaen yn eu bywydau.

*"Rwy'n credu bod y dysgu yn ymwneud yn fwy â chwilfrydedd, archwilio mwy, bod yn ymwybodol o'r math o anafiadau y byddem yn eu nodi'n gynnar fel y pryder arall" (Rh16)*

*"Mae'n effeithio ar y GIG oherwydd dydyn nhw ddim yn mynd i'r ysbyty. Mae'n effeithio ar y system carchardai oherwydd dydyn nhw ddim i gyd yn mynd i'r carchar. Mae'n effeithio ar wasanaethau plant oherwydd dyw'r pwysau i gyd ddim ar un person" (Rh9)*

### Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Cydnabu'r Uned Atal Trais fod angen dylanwadu ar newid ehangach cynaliadwy drwy ddylanwadu ar asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori dulliau iechyd y cyhoedd yn eu gwaith, gwella ymatebion rhyngasiantaethol ac ymgorffori newid ar lefel system. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos na fyddai'r canlyniadau hyn ar draws y system wedi cael eu cyflawni heb gyllid a chymorth yr Uned Atal Trais i sefydlu a chynnal llwybrau cymorth. Ystyriwyd bod cyllid parhaus a buddsoddiad ychwanegol yn allweddol i alluogi gwasanaethau ac ymyriadau i barhau â'u gwaith ac ehangu, o ran recriwtio ac uwchsgilio timau. Tynnodd partneriaid sylw at y ffaith na fyddai gan ddarparwyr yr un sefydlogrwydd a chyrhaeddiad i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd heb gyllid parhaus a hirdymor. Nodwyd bod hyn yn bryder o ystyried y cymhlethdodau cynyddol a wynebir gan gymunedau a'r gofynion cynyddol ar y system.

Ystyriwyd bod addysg yn allweddol i sicrhau newid hirdymor o ran lleihau troseddau cyllyll a mathau eraill o drais. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen mwy o fuddsoddiad ar gyfer y blynyddoedd cynnar a rhaglenni gwaith eraill gyda phlant a phobl ifanc. Roedd galwadau hefyd am fuddsoddiad mewn gweithgareddau dargyfeirio er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn y gymuned feithrin eu sgiliau a datblygu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn hefyd yn ffordd o gynnig man diogel lle y gallent integreiddio gyda'u cymunedau. Wrth edrych i'r dyfodol, credwyd bod parhau i weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio fframwaith yr Uned Atal Trais yn allweddol i gynnal cydberthnasau a chynnal momentwm ar gyfer dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i gyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

*"Mewn byd delfrydol, hoffwn i weld y llywodraeth yn sylweddoli ac yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud a'r potensial ar gyfer rhagor o wasanaethau a help gyda chyllid." (Rh16)*

*"Beth yw'r prif flaenoriaethau? Beth allai wella pethau? Beth fyddai'n helpu?" (Rh13)*

*"Mae'n anodd iawn dod o hyd i weithgareddau am ddim yno, yn enwedig yn ystod y gwyliau" (Rh2)*

*"Mae gennym ni yr Uned Atal Trais ers 2019. Ac mae wedi'i hymgorffori mewn ymarfer. I ni fel sefydliad, y broblem fydd sut y gallwn ni gynnal y rolau hynny pan ddaw'r cyllid i ben" (Rh16)*

## Argymhellion

- Gellid cryfhau cydberthnasau ag ysgolion ac ennyn mwy o ddiddordeb gan bartneriaid addysg. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan sefydliadau addysg fewnbwn allweddol mewn cyfarfodydd partneriaeth ac yn cynyddu cyfranogiad mewn ysgolion. Gallai'r Uned Atal Trais helpu i wella'r cydberthnasau hyn, ond gallai fod angen cymorth gan y llywodraeth hefyd er mwyn hwyluso cyfranogiad.
- Mae datblygu llwybrau fel y Tîm Atal Trais a Cyfleoedd Dysgu Digymell yn enghreifftiau o ddod â phartneriaid statudol a gwirfoddol ynghyd yn effeithiol i greu cymorth cofleidiol a chwalu rhwystrau i gyfranogi. Dylid dysgu o'r model hwn er mwyn datblygu llwybrau a gwaith partneriaeth ar draws sectorau yn y dyfodol.

- Mae angen buddsoddiad tymor hwy er mwyn creu gwasanaethau sefydlog a gofal cyson. Dylai gwasanaethau atal trais weithio ochr yn ochr â'r Uned Atal Trais i ddatblygu achos busnes a model cynaliadwy y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais.
- Mae angen buddsoddi mewn gweithgareddau dargyfeirio a mannau cymunedol er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn man diogel yn eu cymuned. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn denu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Drwy fuddsoddiad gan yr Uned Atal Trais, bu modd ehangu cyrhaeddiad yn y gymuned. Bu modd hefyd i'r gweithlu uwchsgilio, o ran ymarfer atal trais ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Mae'n bwysig bod unrhyw waith a gyflwynir yn y dyfodol gan yr Uned Atal Trais ac fel rhan o waith arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Trais Difrifol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer meithrin gallu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol.
- Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos cyfoeth o wybodaeth a gesglir drwy'r gweithgareddau atal trais gwahanol a setiau data ehangach ledled Caerdydd. Gellid darparu rhagor o wybodaeth ar y Porth Atal Trais i annog y defnydd o waith mapio tueddiadau yn lleol. Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu'r Porth yn y dyfodol, gan gynnwys ffynonellau data ychwanegol a'r gallu i fapio ardaloedd gwahanol yng Nghaerdydd.
- Mae'r adroddiadau monitro chwarterol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais, diweddariadau am gynnydd a chanlyniadau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, ni chaiff yr adroddiadau eu cwblhau mewn ffordd gyson ar draws y gwasanaethau gwahanol, gan olygu ei bod hi'n anodd mesur effaith ar draws y system. Mae'r ffurflenni wedi'u newid yn ddiweddar i ddarparu fformat mwy safonol a fydd, gobeithio, yn gwella cysondeb data. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gasglu gwybodaeth ansoddol.
- Ystyriwyd bod gwerthuso hirdymor yn allweddol i fesur effeithiau tymor hwy yr Uned Atal Trais. At hynny, mae'n bwysig hefyd fod hyn yn cynnwys canlyniadau mwy meddal, gan gynnwys cynnydd gyfer unigolion ar draws y system. Dylai gwasanaethau barhau i gasglu astudiaethau achos, gan ddefnyddio pecyn cymorth gwerthuso yr Uned Atal Trais hefyd i nodi ffordd gyson o fesur canlyniadau mwy meddal gan ddefnyddio data ansoddol.
- Caiff y rhan fwyaf o'r ymyriadau eu gwerthuso'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i bartneriaid gwerthuso ddod ynghyd i ffurfio grŵp cynghori ar werthuso i rannu canfyddiadau a chysoni dulliau recriwtio er mwyn sicrhau nad ymchwilir yn ormodol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau neu na ofynnir gormod ganddynt.
- Mae adborth gan bobl ifanc yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys llais defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio ymyriadau, eu rhoi ar waith, eu darparu a'u gwerthuso. Dylai darparwyr gwasanaethau a gwerthuswyr barhau i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio a darparu ymyriadau, gan ymgorffori prosesau cyd-gynhyrchu lle y bo'n bosibl. Dylai hyn fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwerthusiadau blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais er mwyn deall gwaddol yr Uned Atal Trais yn well a datblygu cynllun cynaliadwyedd.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
   1.1 Yr Uned Atal Trais ........ 1
   1.2 Rôl gwerthuso ........ 1
   1.3 Dull Astudiaeth Achos Systemau Cyfan Uned Atal Trais: Caerdydd ........ 2
2. Methodoleg gwerthuso ........ 4
   2.1 Nodau gwerthuso systemau cyfan ........ 4
   2.2 Deall proses a gweithrediad ........ 4
   2.3 Ymgysylltu â'r gymuned i ddeall ac archwilio effaith ........ 5
   2.4 Amserlenni ........ 5
3. Canfyddiadau ........ 6
   3.1 Gweledigaeth gyffredinol yr Uned Atal Trais ........ 6
   3.2 Cyrhaeddiad gweithgareddau atal trais ........ 8
      Iechyd meddwl gwael ........ 8
      Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ........ 8
      Ymddieithrio o addysg ........ 9
      Anabledd ac anghenion dysgu ........ 10
      Pontio i fyd oedolyn ........ 11
      Effaith pandemig COVID-19 ........ 11
   3.3 Heriau o ran darparu cymorth ........ 13
      Rhwystrau i fanteisio ar gymorth ........ 13
      Rhoi ymyriadau ar waith ........ 14
      Rhannu data a llywodraethu ........ 15
      Adnoddau a chapasiti ........ 16
   3.4 Effaith ........ 16
      Effaith unigol ........ 16
      Effaith ehangach ........ 20
      Effaith ar lefel system ........ 21
   3.5 Dangos effaith ........ 24
      Cudd-wybodaeth ........ 24
      Mesur canlyniadau ........ 25
   3.6 Cynaliadwyedd a'r camau nesaf ........ 27
4. Deall canlyniadau system atal trais effeithiol yng Nghaerdydd ........ 30
   4.1 Model Rhesymeg Caerdydd ........ 30

4.2 Effeithiolrwydd – I ba raddau y mae'r ymyriad yn arwain at y canlyniadau a fwriadwyd neu y gallai arwain atynt? ..... 35
4.3 Damcaniaeth – Beth sy'n gweithio ym mha amgylchiadau? ..... 36
4.4 System – Sut mae'r system a'r ymyriadau yn addasu i'w gilydd? ..... 37
4.5 Mireinio'r ymyriad – argymhellion ..... 39
5. Cyfeiriadau ..... 41

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Yr Uned Atal Trais

Yn 2019, ariannodd y Swyddfa Gartref y broses o sefydlu Unedau Lleihau Trais mewn 18 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynyddu i 20 yn 2022. Sefydlwyd yr Unedau Lleihau Trais i ostwng lefelau trais difrifol drwy arwain a chydlynu gweithgareddau atal trais mewn modd strategol. Roedd yn ofynnol i'r Unedau ymgorffori dull 'iechyd y cyhoedd' o atal trais, sy'n defnyddio data i ddeall natur ac amlygrwydd trais ac i ddatblygu ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag achosion craidd dioddef a chyflawni trais. Mae pob Uned Lleihau Trais wedi buddsoddi mewn gweithgarwch ymyrryd yn gynnar a gweithgarwch dargyfeirio sydd â'r nod o atal unigolion rhag bod yn rhan o achosion o drais ac ymddygiad troseddol ehangach, a chefnogi'r rhai sy'n rhan o achosion o drais i wneud newidiadau cadarnhaol a lleihau'r risg o niwed pellach. Nod yr ymyriadau hyn yw ceisio mynd i'r afael â ffactorau risg trais ar lefel unigol, rhyngbersonol, cymunedol a/neu gymdeithasol, gan hyrwyddo ffactorau amddiffynnol.

Nod yr Uned Atal Trais yw cyflwyno dull systemau cyfan o atal trais. Mae Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain tîm amlasiantaeth yr Uned. Mae'r Uned Atal Trais wedi sefydlu rhwydwaith rhanddeiliaid mawr er mwyn helpu'r Uned i sefydlu a chydlynu gweithgarwch atal trais yn genedlaethol.

Mae'r Uned Atal Trais yn defnyddio dull systemau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd. Mae angen dull systemau cyfan i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig a chydweithredol sy'n sicrhau newid hirdymor [1, 2]. Ni fydd ymyriadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn unig yn mynd i'r afael ag achosion craidd a phenderfynyddion ehangach trais. Mae nodi a deall penderfynyddion ehangach iechyd sy'n effeithio ar y boblogaeth yn hanfodol [3]. Mae dulliau sy'n seiliedig ar le yn cydnabod na fydd dull cyffredinol o fynd i'r afael â thrais yn llwyddiannus. Drwy gydnabod penderfynyddion cymdeithasol iechyd drwy gamau gwahanol bywyd, mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le yn darparu fframwaith sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau penodol, drwy sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau ar gyfer y 'lle cyfan', nid unigolion yn unig [3, 4].

Cydnabu'r Uned Atal Trais yr angen i ddylanwadu ar newid ehangach, cynaliadwy drwy ddylanwadu ar asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori dulliau iechyd y cyhoedd yn eu gwaith, i wella ymatebion rhyngasiantaethol ac i ymgorffori newid ar lefel system. Mae dull gweithredu pedwar cam i fodel gweithredu'r Uned Atal Trais: Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu [5]. Datblygwyd y model hwn i gwmpasu gweithgarwch yr Uned Atal Trais ar draws pob agwedd ar ddull iechyd y cyhoedd ac i sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei ymgorffori ar draws y system ehangach i alluogi gweithgarwch atal trais cynaliadwy [6, 7, 8].

## 1.2 Rôl gwerthuso

Un o elfennau allweddol dull iechyd y cyhoedd yw sicrhau bod dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio, drwy werthuso gweithgareddau ac ymyriadau, a datblygu tystiolaeth i lywio'r broses ehangach o gyflwyno mentrau effeithiol. Fel rhan o gytundebau'r grant, mae Swyddfa Gartref y DU yn ei gwneud yn ofynnol i bob Uned Lleihau Trais ddangos effaith yr ymyriadau a'r dulliau a gyflawnir, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â ffactorau risg trais a gostwng lefelau trais o ganlyniad i hynny.

Mae'r Uned Atal Trais wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth sefydlu ei bresenoldeb yng Nghymru ac mae'n dylanwadu ar ddulliau atal trais yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Dros y tair blynedd

diwethaf, mae Uned Atal Trais Cymru wedi llunio gwerthusiadau o ymyriadau unigol, ac wedi comisiynu gwerthusiadau annibynnol o ddull atal trais systemau cyfan yr Uned Atal Trais [9,10]. Mae tystiolaeth yn dangos bod newidiadau llwyddiannus i systemau yn mynd y tu hwnt i ymyriadau comisiynu ar lefelau gwahanol o'r system (sylfaenol/eilaidd/trydyddol); ond mae hefyd yn dibynnu ar y partneriaethau sydd dan sylw wrth fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais, ac ymgorffori hyn yn llwyddiannus mewn polisïau ac ymarfer [10].

Er bod gwerthusiadau blaenorol wedi canolbwyntio ar archwilio gweithrediad ac effaith gynnar yr Uned Atal Trais, mae'r gwerthusiad presennol yn defnyddio dull astudiaeth achos systemau cyfan[2] o archwilio sut mae'r Uned yn gweithio i gynnal gweithgareddau atal trais yng Nghaerdydd. Yn benodol, roedd yr Uned Atal Trais am asesu'r broses o gyflwyno'r dulliau hyn sy'n seiliedig ar le yng Nghaerdydd ar y cyd, er mwyn cofnodi sut maent yn gweithredu i nodi unigolion sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny, ac asesu'r mesurau a roddir ar waith i liniaru risg a'u hatal rhag ymwneud ymhellach ag achosion o drais a throseddu.

## 1.3 Dull Astudiaeth Achos Systemau Cyfan Uned Atal Trais: Caerdydd

Caerdydd yw prifddinas a dinas fwyaf Cymru, gyda phoblogaeth o tua 362,300 yn 2021 [11]. Mae Caerdydd yn ganolbwynt llety a gwasgaru cychwynnol i geiswyr lloches, ac felly, Caerdydd sydd ag un o'r poblogaethau mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru [12]. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Caerdydd sydd â'r nifer mwyaf bobl ifanc yn byw mewn amddifadedd incwm o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, gyda 6,000 o blant yn byw yn yr amodau hyn [13]. Mae anghydraddoldebau amlwg a pharhaus yng Nghaerdydd, gyda disgwyliadau oes yn amrywio hyd at 10 mlynedd rhwng ardaloedd [14]. Mae gwahaniaethau mawr o ran lefelau diweithdra, tlodi cartrefi, a chartrefi di-waith yn bodoli hefyd ac yn gyson ag anghydraddoldebau o ran iechyd, troseddu ac addysg ledled y ddinas (wrth i lawer o bobl ifanc beidio â phontio o'r ysgol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) [12]. Yng Nghaerdydd, mae cyfraddau troseddu wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf, er bod llawer o unigolion yn dal i ofni troseddu. Dangosodd asesiad o anghenion poblogaeth Caerdydd fod cymunedau difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau troseddu [12]. Ym mis Medi 2023, Caerdydd oedd y ddinas gyntaf ym Mhrydain i ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF [15].

### Dull gweithredu ac ymyriadau model Caerdydd

Yng Nghaerdydd, mae'r Uned Atal Trais a phartneriaid yn darparu amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaeth i leihau ac atal trais, ac i ddefnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o helpu plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais/sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o achosion o drais. Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn 'gyfle dysgu digymell'. Mae'r ymyriadau hyn yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais, gan gynnwys:

| Enw'r ymyriad | Grŵp oedran targed | Lleoliad | Trosolwg |
|---|---|---|---|

[2] At ddibenion y gwerthusiad hwn, mae'r term 'system' yn cyfeirio at yr amrywiaeth eang o asiantaethau ledled Cymru sy'n cyfrannu at atal trais

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE)<br><br>(Cyngor Caerdydd) | Dd/G | Dd/G | Grŵp amlasiantaeth yw Partneriaeth SAFE sy'n cynnwys partneriaid fel Heddlu De Cymru, Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a sefydliadau yn y trydydd sector. |
| Cyfleoedd Dysgu Digymell (Heddlu De Cymru a Media Academy Cymru (MAC]) | 10-17 | Dalfeydd | Nod Cyfleoedd Dysgu Digymell yw ymyrryd ac atal pobl ifanc rhag ymwneud ymhellach â thrais drwy drin yr adeg y daw person ifanc i'r ddalfa fel 'cyfle dysgu digymell'. Mae'r model yn cyflogi gweithwyr achos o Media Academy Cymru (MAC) i gynnal cyfweliadau cymell, gan gynnwys asesiad o anghenion ac archwiliad o nodau bywyd. |
| Fearless (Crimestoppers) | 11-18 | Unrhyw leoliad lle mae pobl ifanc yn ymgynnull | Mae Fearless yn cynnal gweithdai addysgol i rymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cadarnhaol, hyddysg ynglŷn â rhoi gwybod am droseddau. Prif nod y gwasanaeth yw addysgu pobl ifanc am faterion yn ymwneud â throseddau a all effeithio arnynt a'u hannog i roi gwybod am droseddau y maent wedi'u gweld. |
| Braver Choices (MAC) | 10-25 | Lleoliadau cymunedol | Mae Braver Choices yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus, er enghraifft drwy gario arfau. Mae'n cyflwyno rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud ag arfau, trais a chamfanteisio rhywiol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau hyddysg, datblygu strategaethau ymdopi a deall goblygiadau eu gweithredoedd. |
| Parallel Lives (MAC) | 8-17, rhieni | Lleoliadau cymunedol | Mae Parallel Lives yn defnyddio dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â Thrais a Chamdriniaeth gan Berson Ifanc tuag at Riant (APVA). Mae hyn yn ymwneud ag unigolion yn defnyddio ymddygiadau i reoli, dominyddu neu orfodi eu rhieni, a all effeithio ar gydberthnasau teuluol a chreu amgylchedd gelyniaethus yn y cartref. Drwy'r fenter pedair haen hon, mae Parallel Lives yn darparu cymorth uniongyrchol gan ganolbwyntio ar newid ymddygiad pobl ifanc yn yr hirdymor. |
| Positive Masculinity (MAC) | 10-17 | Lleoliadau cymunedol | Mae Positive Masculinity yn brosiect cymharol newydd a ddatblygwyd mewn ymateb i ddiwylliant a meddylfryd gwrywdod gwenwynig. Mae'r rhaglen yn rhoi arweiniad i ddynion ifanc o ran eu hunaniaeth ac yn eu galluogi i archwilio eu teimladau mewn amgylchedd diogel, gyda'r nod cyffredinol o annog a chefnogi pobl ifanc i fabwysiadu gwerthoedd ac agweddau rhag-gymdeithasol tuag at eraill, ni waeth beth fo'u hunaniaeth rhywedd. |
| Tîm Atal Trais y GIG (y GIG a Gweithredu dros Blant) | Hyd at 25 | Adrannau Achosion Brys a lleoliadau cymunedol | Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio i nodi ac ymateb i gleifion sydd ag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais. Mae'r tîm yn ymgysylltu â'r cleifion hyn pan fyddant yn yr ysbyty ac yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i annog pobl ifanc i beidio â dilyn ffyrdd o fyw llawn trais drwy eu hannog i ymgysylltu â gwasanaethau. |

# 2. Methodoleg gwerthuso

## 2.1 Nodau gwerthuso systemau cyfan

Comisiynodd Uned Atal Trais Cymru Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull systemau cyfan yr Uned Atal Trais o atal trais, gan ganolbwyntio ar Gaerdydd. Nod y gwerthusiad oedd archwilio effaith gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais ar brosesau atal trais ar lefel gymunedol a deall sut mae gwasanaethau, sefydliadau a gweithgareddau yn gweithredu ar y cyd i wella canlyniadau i unigolion a'u cymunedau. At ddibenion yr Uned Atal Trais a'r gwerthusiad hwn, cafodd y 'system' ei diffinio i gynnwys dulliau ehangach asiantaethau allweddol (e.e. yr heddlu a phartneriaethau diogelwch cymunedol).

Gellir diffinio dull systemau cyfan Caerdydd o fynd i'r afael ag achosion o drais a bregusrwydd fel 'ymyriad cymhleth' oherwydd ei elfennau gwahanol, y rhyngweithio rhyngddynt, yr amrywiaeth o arbenigedd a sgiliau sy'n ofynnol i'w cyflwyno, a'r grwpiau a'r lleoliadau a dargedir gan yr ymyriad. O ganlyniad, defnyddiwyd y fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth[3] i lywio'r broses o ddylunio'r gwerthusiad hwn [16]. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar y broses o roi ymyriadau cymhleth ar waith mewn lleoliad go iawn a'u gwerthuso, ac mae'n cydnabod y dylai gwerthusiadau ystyried sut mae ymyriadau'n cyfrannu at newid mewn systemau, yn hytrach na chanolbwyntio ar effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd yn unig. Mae hyn yn gwella'r ddealltwriaeth o'r broses a'r ddealltwriaeth o ganlyniadau unigol ac ar lefel system [16]. Mae'r canllawiau yn argymell y dylai ymchwil ar ymyriadau cymhleth ystyried: 1) Effeithiolrwydd – i ba raddau y mae neu y gallai'r ymyriad sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd, 2) Damcaniaeth – beth sy'n gweithio ym mha amgylchiadau, a 3) System – sut mae'r system a'r ymyriad yn addasu i'w gilydd [16]. Mae'r canllawiau yn argymell y dylid defnyddio dyluniadau ansoddol a dulliau cymysg i werthuso ymyriadau cymhleth. Mae'r fframwaith yn cynnwys chwe elfen graidd (cyd-destun, damcaniaeth rhaglen, ymgysylltiad rhanddeiliaid, nodi ansicrwydd allweddol, mireinio'r ymyriad, ac ystyriaethau economaidd) [16] sydd wedi llywio'r broses o ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad o'r astudiaethau achos.

Mae'r gwerthusiad wedi cael cymeradwyaeth foesegol lawn gan Bwyllgor Moesegau Ymchwil John Moores Lerpwl (cyfeirnod cymeradwyaeth: 21/PHI/023). Roedd hyn yn galw am gynllunio clir ar gyfer diogelu, rhannu data, storio data, rheoli risg a chydsyniad ar sail gwybodaeth. Roedd ceidwaid pyrth yn cefnogi'r broses o gasglu data drwy recriwtio a hwyluso, a mynediad at ffynonellau data perthnasol.

## 2.2 Deall proses a gweithrediad

Mae sefydlu tystiolaeth ynglŷn â sut mae Caerdydd wedi rhoi dull systemau cyfan o atal trais ar waith yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r dull hwn yn ehangach. Cyfweliadau un i un (n=18) â rhanddeiliaid allweddol Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r system gan gynnwys darparwyr ymyriadau/gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol allweddol i ddeall ymgysylltiad â'r system ehangach a phrofiadau ohoni. Drwy'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, bu modd i'r tîm ddeall p'un a arweiniodd dull Caerdydd at newid, a sut a pham y gellid bod wed sicrhau'r newid hwn, ac i ystyried yr hyn a weithiodd yn dda, gan gynnwys llwyddiant canfyddedig a meysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd y dull hwn yn archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid am ansawdd ymyriadau yng Nghaerdydd, o ran yr elfennau unigol a'r effeithiau ar lefel system a'r ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar y broses o roi ymyriadau ar waith, a'u llwyddiant.

[3] Comisiynwyd gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol. Mae canllawiau 2021 yn ddiweddariad ar ganllawiau'r Cyngor Ymchwil Feddygol a gyhoeddwyd yn 2000 ac a ddiweddarwyd yn 2006 a chawsant eu comisiynu ar y cyd gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol.

Hefyd, adolygwyd dogfennaeth y rhaglen i ychwanegu dealltwriaeth a chyd-destun manylach i'r broses werthuso. Defnyddiwyd y cyfweliadau a dogfennaeth y rhaglen i lywio dadansoddiad o'r system a datblygu astudiaethau achos o ymyriadau.

## 2.3 Ymgysylltu â'r gymuned i ddeall ac archwilio effaith

Gweithiodd y tîm ymchwil yn agos gyda'r sefydliadau sy'n darparu ymyriadau er mwyn nodi cyfleoedd i ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, a deall yr effaith ar y bobl y mae eu gweithgarwch yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, a'u profiadau. Cafodd lleisiau chwe pherson ifanc eu cofnodi drwy gyfweliadau a arweiniwyd gan weithwyr ieuenctid. Roedd cynnwys lleisiau pobl ifanc yn rhan allweddol o weithgareddau gwerthuso a rhagwelwyd y byddai'r gwerthusiad yn ymgysylltu â mwy o bobl ifanc na'r hyn a oedd yn bosibl. Er mwyn sicrhau bod yr adborth yn adlewyrchu'r holl ymyriadau, cafodd astudiaethau achos a gasglwyd yn fewnol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a straeon newyddion da eu cynnwys. Ystyriwyd yr ymgysylltiad ansoddol â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau:

- A yw'r ymyriadau yn ymgysylltu â'r cymunedau yng Nghaerdydd, sut a ble
- Sut mae'r ymyriadau yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd ac asiantaethau allanol i hyrwyddo/effeithio ar ddiogelwch cymunedol
- Canfyddiadau o allu'r 'system' i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig i ymateb yn effeithlon ac yn gyflym
- Sut mae'r cyd-destun ehangach, o ran polisi, gofal cymdeithasol a dylanwadau ehangach yn effeithio/dylanwadu ar y materion hyn

Cafodd data eilaidd hefyd eu cynnwys i archwilio'r mesurau llwyddiant a ddiffiniwyd gan yr Uned Atal Trais a phennu effaith. Roedd hyn yn cynnwys data monitro a gasglwyd fel mater o drefn ac a ddarparwyd i'r Uned Atal Trais, a data ychwanegol a gasglwyd o fewn gwasanaethau i ddangos effaith. Mae'r ymgysylltiad â phobl ifanc a'r data ychwanegol ar effaith wedi cyfrannu at yr astudiaethau achos o ymyriadau.

## 2.4 Amserlenni

Cynhaliwyd casglu data rhwng Chwefror 2023 ac Ebrill 2024. Roedd adroddiadau chwarterol yn cynnwys Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2024.

# 3. Canfyddiadau[4]

## 3.1 Gweledigaeth gyffredinol yr Uned Atal Trais

Roedd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn cytuno bod gweledigaeth unedig ar gyfer atal trais a gostwng lefelau trais ledled Caerdydd. Roedd ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r Uned Atal Trais a nodau allweddol yr uned, gan gynnwys dull iechyd y cyhoedd 'atal a diogelu' o atal trais. Roeddent o'r farn bod yr Uned Atal Trais yn canolbwyntio ei hadnoddau ar atal ac ymyrryd yn gynnar drwy gomisiynu cymorth ar gyfer unigolion sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o achosion o drais, gan gynnwys troseddau cyllyll a chamfanteisio troseddol. Nododd nifer o'r rhanddeiliaid fod yr Uned Atal Trais yn cael ei hariannu'n dda, gan olygu bod adnoddau ac ymyriadau ledled Caerdydd yn cael eu hariannu i sefydlu neu wella'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd.

*“Mae'n bartneriaeth rhwng prifysgolion, awdurdodau lleol a'r Swyddfa Gartref, sy'n cael symiau enfawr o ddata, yn dadansoddi'r data hynny, ac yn dechrau dwyn ynghyd llawer o'r cynlluniau a'r prosesau gwahanol a all fod gan awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, yr heddlu neu bartneriaid preifat, ac mewn gwirionedd, mae'n ceisio cael darlun cyffredinol o sut beth yw hynny a sut y gallwn ni fel endid cymdeithasol cyfunol ddelio â hynny. Ac mae'n gweithio" (Rh17)*

Bu modd i'r Uned Atal Trais ddarparu cyllid yn y gymuned drwy fuddsoddi mewn ymyriadau sefydledig a helpu i ddatblygu gweithgareddau newydd. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffordd roedd ymyriadau llwyddiannus a roddwyd ar waith yng Nghaerdydd wedi cael eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill, er enghraifft cafodd ymyriad y Tîm Atal Trais ei dreialu yng Nghaerdydd a'i gyflwyno wedyn yn Abertawe.

*“Maen nhw'n cael cyllid da. Mae'n ymwneud ag edrych ar y broses gyfannol honno yn y gymuned a gwneud yn siŵr bod popeth rydym yn ei wneud yn rhesymegol, a bod yn rhyngwyneb rhwng yr holl asiantaethau hynny a cheisio sicrhau parhad ar draws ffrydiau gwaith gwahanol" (Rh17)*

Teimlai'r rhanddeiliaid fod yr Uned Atal Trais yn ymwneud â chydweithwyr gweithredol a strategol allweddol. Roedd aelodaeth ehangach yr Uned Atal Trais yn sicrhau partneriaeth amlasiantaeth gref. Dywedodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad fod y timau roeddent yn gweithio ynddynt *“yn frwd iawn dros atal trais”.* Teimlai'r rhanddeiliaid fod yr Uned Atal Trais yn cysylltu partneriaid â'i gilydd. Gwnaethant nodi bod partneriaid wedi cydweithio o ddechrau'r Uned Atal Trais i ddatblygu model unigryw a oedd yn cynnwys cyfiawnder troseddol ac iechyd er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu. Teimlai'r rhanddeiliaid fod partneriaethau a sefydlwyd drwy Bartneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE)[5], y Bwrdd Atal Trais, a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn hanfodol i gefnogi nodau cyffredinol yr Uned o ran atal trais. Roedd aelodau allweddol o dîm yr Uned Atal Trais hefyd yn rhan o weithgareddau atal trais ehangach ledled Caerdydd, er enghraifft mae arweinydd yr Uned hefyd yn cyd-gadeirio'r Bwrdd Atal Trais. Roedd y cydweithio agos hwn yn cynnig cyfleoedd cyllido cydweithredol, fel ymyriad y Tîm Atal Trais.

*“Rwy'n credu bod gennym fframwaith da i ddechrau, sy'n help mawr, ac mae pawb yn barod iawn i dderbyn pethau newydd” (Rh11)*

[4] Allwedd y dyfyniadau: Rh= Rhanddeiliad, PI= Person Ifanc, Adroddiadau Chwarterol= data ansoddol o adroddiadau monitro chwarterol yr Uned Atal Trais

[5] Mae model SAFE yn cydnabod y gall plant a phobl ifanc gael eu niweidio gan oedolion a/neu gyfoedion eraill y tu allan i'w rhwydwaith teuluol sy'n eu cam-drin neu'n camfanteisio arnynt, neu y gallant wynebu risg o hynny. Mae Partneriaeth SAFE yn cefnogi dull dinas gyfan drwy gyfarfodydd diogelu amlasiantaeth â phartneriaid allweddol https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s72871/Appendix%204.pdf

*“Mae'n ymwneud â bod yn rhan o bethau o'r cychwyn cyntaf, partneriaeth iechyd a Heddlu De Cymru. Bu modd i ni greu model gwahanol iawn i rannau eraill o'r DU ... roeddem yn arloesol iawn" (Rh16)*

*“Rydym eisoes wedi meithrin ein cydberthnasau. Mae rhai ohonynt wedi deillio o sgyrsiau'r Uned Atal Trais ac rydym wedi creu cysylltiadau ac wedi ymgysylltu" (Rh17)*

Dywedwyd bod cyfathrebu da rhwng yr Uned Atal Trais a phartneriaid. Rhoddodd darparwyr ymyriadau enghreifftiau o allu siarad â'r Uned Atal Trais am gymorth. Nododd llawer fod y cydberthnasau rhwng ymyriadau'r Uned Atal Trais a phartneriaid ehangach mor gryf fel y gallai partneriaid yn aml gysylltu'n uniongyrchol â'i gilydd yn hytrach na dibynnu ar yr Uned Atal Trais i bontio'r cydberthnasau hynny. Dywedodd Media Academy Cymru, sy'n rhan o nifer o'r ymyriadau a ariennir, fod y gydberthynas yn symbiotig, o ran y ffaith eu bod yn elwa ar ei gilydd drwy ddatblygu rhaglenni a'u rhoi ar waith, gan greu canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

*“Rydym yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â phobl yn yr Uned Atal Trais. Os nad ydym yn deall rhywbeth, rydym yn gallu codi'r ffôn" (Rh17)*

*“Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Uned Atal Trais wedi bod yn dda iawn. Mae'n gydberthynas waith gadarnhaol" (Rh11)*

Esboniodd y Tîm Atal Trais hefyd ei fod yn cydweithio â'r Uned Atal Trais i gydlunio ymyriadau diogelu. Esboniodd rhanddeiliad arall fod cymorth gan yr Uned Atal Trais (a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu) yn cynnig darpariaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r heddlu. Nododd un rhanddeiliad fod *"llai o ddeialog yn ôl pob golwg"* yn ddiweddar, gan ddweud y gellid gwella cyfathrebu a hyrwyddo rhan yr Uned Atal Trais yn yr ymyriadau a ariennir yn well.

Yn ychwanegol at y Bwrdd Atal Trais, Partneriaeth SAFE, a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, rhoddwyd enghreifftiau o waith atal trais arall ledled Caerdydd, gan gynnwys:

- Datblygu strategaeth sy'n ymgorffori camfanteisio, sy'n cael ei llywio gan asesiad o anghenion a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a phroffiliau sy'n seiliedig ar wybodaeth/tystiolaeth. Cafodd rhanddeiliaid o bob rhan o Gaerdydd eu cynnwys er mwyn archwilio blaenoriaethau a chyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion y strategaeth.
- Ymarferion gwrando sydd wedi'u cynnal mewn cymunedau, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau prawf, a Cymru Ddiogelach, sy'n ystyried sut mae pobl yn teimlo am eu hardal leol, beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eu barn nhw, beth sy'n cyfrannu at drais ac yn ei achosi yn eu barn nhw, ac effeithiau trais ar unigolion ac o fewn cymunedau. Gofynnir i breswylwyr lleol hefyd pa weithgareddau a allai helpu i leihau achosion o drais, yn eu barn nhw.
- Ymgyrch Paramount i ddarparu cymorth gwell. Datblygwyd yr ymgyrch hon o brosiect Invisible Wales Barnardo's i blant y mae aelod o'i deulu wedi cael ei garcharu.
- Lansio'r Siarter Diogelwch Menywod, sy'n gofyn i gyflogwyr ymrwymo i sicrhau bod cyflogeion benywaidd yn ddiogel wrth deithio i'r gwaith ac oddi yno, ac addo gweithio i greu mannau diogel i ferched, gan gynnwys safleoedd, parciau a mannau gwyrdd.
- Ymgyrch 'Ddim yr Un'.
- ‘Choice of a Lifetime’, drama deithiol i ysgolion a berfformiwyd i 4,000 o blant a gweithwyr proffesiynol o'r heddlu, gwasanaethau tân a gwasanaethau prawf.
- Gwaith rhwng cenedlaethau ledled Caerdydd er mwyn ceisio torri cylch ymddygiad rhwng cenedlaethau a helpu plant a phobl ifanc i sylweddol y gallant gael dyheadau.

- Gwaith atal (cyn troseddu) ac ymyrryd yn gynnar (ar adeg arestio/mechnïaeth) i ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys rhaglen DIVERT a ddarperir gan Media Academy Cymru (MAC) a The Bureau (ar gyfer troseddau mwy difrifol).

## 3.2 Cyrhaeddiad gweithgareddau atal trais

Rhoddodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad enghreifftiau o'r bobl ifanc, yr unigolion a'r perthnasau y maent yn eu cefnogi drwy weithgareddau atal trais. Gwnaethant nodi ei bod yn bwysig bod yr Uned Atal Trais yn defnyddio dull iechyd y cyhoedd o sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi, a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy ddull diogelu, yn hytrach na thrwy ddull sy'n eu troseddoli. Ystyriwyd bod hyn yn un o gryfderau'r Uned Atal Trais. Ymhlith y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau, mae gan gyfran uchel nifer o anghenion, ac mae cyfran uchel yn aros i gael asesiadau ar gyfer anghenion ychwanegol.

*"Maen nhw'n eithaf eang, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn targedu troseddwyr ifanc, dioddefwyr, gan mai dyna lle mae'r gwerth mewn gwirionedd" (Rh17)*

*"Rwy'n falch bod yr Uned wedi cydnabod yr agwedd diogelu honno. Fel arall, gallai ddilyn trywydd sy'n ymwneud yn fwy â throseddoli ac atal nag amddiffyn a diogelu. Felly rwy'n credu bod hynny'n gryfder" (Rh10)*

### Iechyd meddwl gwael

Nododd y rhanddeiliaid fod gan gyfran fawr o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw iechyd meddwl a llesiant gwael, gan gynnwys gorbryder, iselder, diffyg hyder a diffyg hunan-barch. Cafwyd adroddiadau hefyd am bobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig ac wedi'u diflasu. Nodwyd hefyd fod ynysu cymdeithasol yn broblem sylweddol i bobl ifanc, ac ystyriwyd bod hyn yn un o ffactorau risg camfanteisio, ac yn rhwystr iddynt gysylltu â gwasanaethau. Mae data gan Fearless yn dangos bod pobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel yn aml yn cael eu hynysu ac y gall fod ganddynt broblemau iechyd meddwl, sy'n gysylltiedig â risg gynyddol y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt am eu bod yn fwy agored i niwed. Nododd y Tîm Atal Trais hefyd fod angen mawr am dai ar gyfer y bobl ifanc hŷn a'r oedolion sy'n mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Roedd hyn yn cynnwys digartrefedd a risg o ddigartrefedd ac unigolion ag anghenion cymhleth. Nododd y Tîm Atal Trais hefyd yr heriau sy'n gysylltiedig â chefnogi unigolion sy'n mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys yng Nghaerdydd ond sy'n byw mewn ardaloedd y tu allan i Gaerdydd gan olygu nad oes ganddynt yr un mynediad teg i gymorth.

*"Mae rhai o'n hachosion mor gymhleth fel nad yw pobl am gyffwrdd â nhw, a dyna pam maen nhw weithiau mor gymhleth ag y maen nhw, gan fod yr holl wasanaethau wedi bod yn trosglwyddo'r person ifanc hwn o un i'r llall" (Rh9)*

### Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Dywedodd partneriaid hefyd eu bod yn gweithio gyda phobl ifanc â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n byw gyda rhieni sydd ag iechyd meddwl gwael a/neu sy'n defnyddio sylweddau. Nododd darparwyr hefyd fod llawer ohonynt wedi bod yn dyst i gam-drin domestig neu wedi dioddef cam-drin domestig eu hunain. Nododd adroddiadau chwarterol a gaiff eu cwblhau gan y darparwyr ymyriadau ar gyfer yr Uned Atal Trais hefyd nad yw pobl ifanc o bosibl yn cael eu cefnogi gan eu teuluoedd neu y gallant fod wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Dangosodd data gan Braver Choices fod tri o bob pum atgyfeiriad newydd, mewn un chwarter, wedi cael eu tynnu o gartref y teulu neu wedi treulio cyfnod fel plant sy'n derbyn gofal.

*"Mae'n ymwneud â theuluoedd a rhieni yn torri'r cylch trais hwnnw lle mae'r tad yn y carchar, ac yna mae'r plentyn yn diweddu yn y carchar. Y cylch cenedliadol, sy'n rhywbeth*

*rydym yn ei weld yn aml yn ardaloedd difreintiedig Caerdydd. Rydych yn gallu gweld mai'r rheswm pam mae'r plant fel maen nhw yw am nad oes ganddyn nhw fodelau rôl cadarnhaol yn eu bywyd ...mae'n ymwneud â cheisio meddwl am strategaethau i roi modelau rôl cadarnhaol, oedolion dibynadwy, i'r bobl ifanc hyn, er mwyn iddyn nhw weld bod cyfle gwahanol, a bod ganddyn nhw ddewis gwahanol" (Rh13)*

Dywedwyd bod cyfranogiad rhieni yn rhwystr hefyd, o ran rhieni sy'n chwarae rhy amlwg ym mywyd y person ifanc neu'r rheini nad ydynt yn chwarae unrhyw ran o gwbl. Cydnabuwyd y gall fod yn anodd i rai rhieni gefnogi eu plentyn oherwydd eu profiadau blaenorol o ymgysylltu â gwasanaethau, sydd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth cyffredinol mewn gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol. Dadleuodd y rhanddeiliaid fod angen gwneud mwy o waith i atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac i gefnogi pobl ifanc sydd wedi cael profiadau o'r fath er mwyn sicrhau nad ydynt yn teimlo ar eu pen eu hunain a bod ganddynt bobl y gallant droi atynt am gymorth.

*"Mae'n anodd ceisio meithrin cydberthnasau â rhieni gan eu bod mor amddiffynnol weithiau, a hynny mae'n debyg oherwydd yr hyn maen nhw wedi bod drwyddo yn y gorffennol neu'r hyn maen nhw'n mynd drwyddo ar hyn o bryd. Felly mae hynny'n ddealladwy." (Rh2)*

## Ymddieithrio o addysg

Roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd at y darparwyr ymyriadau wedi ymddieithrio o'r ysgol. Roeddent naill ai'n unigolion nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu'n unigolion a oedd yn dilyn amserlen â llai o oriau yn yr ysgol. Roedd llawer ohonynt wedi cael eu gwahardd o'r ysgol dros dro neu'n barhaol, ac roedd rhai wedi cael eu gwahardd fwy nag unwaith Ar adegau, roedd pob un o'r bobl ifanc a oedd yn rhan o raglen Dewisiadau Dewrach yn NEET, yn dilyn amserlenni â llai o oriau, neu wedi cael eu gwahardd mwy nag unwaith yn flaenorol. Cydnabu'r rhanddeiliaid yr effeithiau negyddol ar blant sy'n cael eu gwahardd fwy nag unwaith a'r effeithiau a'r tarfu hirdymor y mae hyn yn ei achosi o ran eu haddysg a'u dyfodol.

*"Rwy'n credu bod llawer o ysgolion yn rhy barod i roi plant/pobl ifanc ar amserlen â llai o oriau gan fod hynny'n golygu nad oes rhaid iddyn nhw ddelio â'r peth, ac rwy'n gwybod ei bod hi'n hawdd iawn i mi farnu a bod ganddyn nhw lwyth achosion mawr, ond ar ddiwedd y dydd, mae'r blynyddoedd hynny'n hollbwysig i'r person ifanc" (Rh2)*

*"Mae nifer dychrynllyd o blant a phobl ifanc yn dilyn amserlenni â llai o oriau, wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol, ac wedi symud ysgol. Mae rhai wedi symud ysgol fwy na phum gwaith. Does dim cymaint o waharddiadau parhaol, ond rydym yn gweld bod gwaharddiad am gyfnod penodol yn cael mwy o effaith yn ôl pob tebyg, oherwydd gallwch gael 3, 4, 5 o waharddiadau cyfnod penodol am 3, 4, 5 diwrnod ar y tro. Yn sydyn, mae'r plentyn hwnnw wedi colli mis o'r ysgol, ac wedi colli'r strwythur. Maen nhw'n cael darpariaeth amgen ar y pwynt hwnnw am nad ydyn nhw wedi cael eu gwahardd yn barhaus" (Rh15)*

Cydnabu partneriaid hefyd y cysylltiad rhwng bod yn NEET a bod yn rhan o droseddau, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymyriadau wedi'u targedu at y system cyfiawnder troseddol, ond hefyd ymyriadau mewn lleoliadau y tu hwnt i fyd addysg er mwyn sicrhau nad yw'r rheini sy'n NEET yn cael eu colli. Rhoddodd Fearless enghreifftiau o ddarparu sesiynau mewn lleoliadau cymunedol ac unedau cyfeirio disgyblion. Nododd y rhanddeiliaid rôl bwysig addysg o ran creu ffactorau amddiffynnol i bobl ifanc. Ystyriwyd bod ysgolion yn bartner pwysig, gan mai swyddogion llesiant ysgolion sydd â'r *'gydberthynas orau'* â'r person ifanc yn aml, ac felly gallant hwyluso cydberthnasau rhwng y person ifanc a'r

gweithiwr ieuenctid yn fwy effeithiol. Roedd cefnogi pobl ifanc i ddychwelyd i'r ysgol hefyd yn rhan allweddol o nifer o'r ymyriadau.

## Anabledd ac anghenion dysgu

Nodwyd bod niwroamrywiaeth yn angen sylweddol a chynyddol. Dywedodd y rhanddeiliaid eu bod yn gweithio gyda mwy o bobl ifanc a oedd wedi cael diagnosis o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu a oedd ar restr aros am ddiagnosis, neu bobl ifanc a oedd ag anghenion iechyd meddwl a dysgu heb eu nodi a oedd yn gysylltiedig â niwroamrywiaeth. Nododd y rhanddeiliaid y cysylltiad rhwng niwroamrywiaeth a rhwystrau i fynychu'r ysgol a chyrhaeddiad, gan awgrymu bod hyn yn cynyddu'r heriau i'r bobl ifanc hynny sydd wedi ymddieithrio o addysg.

Dangosodd data gan Braver Choices fod gan hyd at 80% o bobl ifanc a gefnogwyd anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Er ei fod yn brosiect cymharol newydd, nododd Positive Masculinity hefyd fod dau o bob tri pherson ifanc a atgyfeiriwyd at y prosiect wedi cael diagnosis o ADHD. Esboniodd partneriaid o ymyriad Cyfleoedd Dysgu Digymell yn nalfeydd yr heddlu hefyd fod nodweddion niwroamrywiaeth yn gyffredin ymhlith y bobl ifanc a oedd yn cael eu cyfweld yn nalfeydd yr heddlu a bod pobl ifanc niwroamrywiol wedi'u gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol.

Esboniodd y rhanddeiliaid y rhwystrau ychwanegol y gall y bobl ifanc hyn eu hwynebu. Nododd Cyfleoedd Dysgu Digymell y gall unigolion ag anhwylderau niwroddatblygiadol ei chael hi'n anodd ymdopi mewn cyfweliadau â'r heddlu, er enghraifft gallant ei chael hi'n anodd cyfathrebu a gwneud cyswllt llygad, a all gael ei gamddehongli gan swyddogion yr heddlu. Gall y camddehongliadau hyn olygu na chaiff anghenion unigolion ifanc eu diwallu, a all olygu y bydd eu hymddygiad problemus yn parhau. Tynnodd hyn sylw at bwysigrwydd cael staff cymorth a all ddeall person ifanc ac eirioli drosto yn y sefyllfaoedd hyn.

> *"Mae pobl yn dysgu sut i gelu'r anawsterau maen nhw'n delio â nhw yn dda iawn. Ond pan fyddan nhw'n cael eu cyfweld gan yr heddlu, byddan nhw'n dweud un peth un diwrnod a rhywbeth arall ar ddiwrnod arall. Byddai pobl yn eu cyhuddo o ddweud celwydd ond mewn gwirionedd, dyw'n nhw ddim yn gallu cofio" (Rh15).*

Serch hynny, teimlwyd ei bod yn ymddangos bod mwy o ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth yn ddiweddar. Teimlwyd bod hyn yn galonogol gan y gallai'r ymwybyddiaeth gynyddol hon a'r parodrwydd i wneud addasiadau ar gyfer grwpiau niwramrywiol fod yn gam cadarnhaol tuag at ddull mwy cynhwysol a deallgar o gefnogi unigolion niwramrywiol. Dywedodd y darparwyr eu bod wedi addasu ymyriadau ac adnoddau er mwyn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch, gan gynnwys addasu deunydd cyfathrebu a gwaith papur. Roedd Braver Choices wedi addasu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn, er enghraifft drwy gynnal sesiynau byrrach a defnyddio cymhorthion gweledol. Roedd gweithwyr achos hefyd wedi cynnal ymchwil a hyfforddiant i wella eu gwybodaeth am anghenion ac anableddau penodol, gan gynnwys anhwylder herio gwrthryfelgar, er mwyn teilwra cymorth. Ystyriwyd bod addasu a theilwra sesiynau wedi meithrin cydberthnasau cryfach â phlant a phobl ifanc ac wedi eu helpu i gymryd rhan. Roedd Parallel Lives wedi datblygu adnoddau a deunyddiau ategol i bobl iau a phobl ifanc niwroamrywiol. Roedd staff hefyd wedi uwchsgilio drwy hyfforddiant er mwyn cefnogi teuluoedd â phroblemau iechyd meddwl ac niwroamrywiaeth yn well. Cydnabu Fearless hefyd ei bod yn bwysig bod gweithwyr ieuenctid yn ystyried iaith ac arddull gyflwyno er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn deall y cynnwys ac yn gallu uniaethu ag ef. Dangosodd Cyfleoedd Dysgu Digymell ei becyn cymorth niwroamrywiaeth newydd, sef Ymgyrch Erica. Nod y pecyn cymorth hwn yw dilysu anawsterau pobl ifanc a chynnig cyfle i'w helpu i newid yr ymddygiadau a allai olygu y byddant yn dod rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Gall y newid hwn mewn meddylfryd arwain at nodi anghenion

penodol yn well ac ymyriadau wedi'u teilwra, gan sicrhau canlyniadau gwell i bobl ifanc niwroamrywiol. Rhoddodd eraill enghreifftiau o gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith mewn timau, a rhoi hyfforddiant leferydd ac iaith i staff.

*“Rwy'n credu mai un o'r pethau mwyaf calonogol yw bod camau cynnar yn cael eu cymryd. Ar ryw bwynt, maen nhw eisoes wedi cynnal asesiad mewn perthynas â niwroamrywiaeth, felly mae'n cael ei nodi, ym mhob maes gwahanol. Felly rwy'n credu bod pawb yn ymwybodol ohono" (Rh6)*

## Pontio i fyd oedolyn

Nodwyd bylchau o ran y cymorth a ddarperir i bobl sy'n pontio i fyd oedolyn. Codwyd pryderon ar gyfer pobl ifanc sy'n troi'n 18 oed, a chydnabu'r rhanddeiliaid nad yw llawer o bobl ifanc agored i niwed o reidrwydd yn barod ar gyfer byd oedolyn. Nodwyd bwlch yn y ddarpariaeth i bobl ifanc sydd ar fin pontio i fyd oedolyn, ac esboniodd y rhanddeiliaid fod llawer o'r bobl ifanc hyn yn 'syrthio rhwng y llinellau' pan ddaw cymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn i ben. Teimlwyd bod bwlch rhwng y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc a'r rhai a ddarperir i oedolyn. Esboniodd y rhanddeiliaid fod pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu a'u bod yn ymwneud â gweithwyr proffesiynol sy'n fwy deallgar a pharod i dreulio amser yn meithrin cydberthynasau llawn ymddiriedaeth, o gymharu â phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau oedolion sy'n fwy tebygol o gael eu diffinio'n bobl 'caeëdig' os na fyddant yn manteisio ar gymorth neu os byddant yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny. Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cynnal gweithgareddau dargyfeirio er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a meithrin a gwella sgiliau. Ystyriwyd bod hyn yn llwybr arbennig o bwysig wrth gefnogi pobl ifanc i fanteisio ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a dychwelyd atynt.

*“Mae bwlch, ac rwy'n poeni am bobl ifanc. Yn sydyn, maen nhw'n cael eu hystyried yn bobl sy'n camfanteisio yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Sut mae mynd i'r afael â hynny mewn system nad yw'n ein galluogi i wneud hynny" (Rh15)*

*“Rydym yn gweld mai'r cyfnod rhwng 17 a 18 oed yw un o'r adegau mwyaf anodd i'n pobl ifanc. Dyna pryd mae'r holl sefydliadau'n cilio” (S9)*

Cafodd y Tîm Atal Trais ei gynllunio'n wreiddiol i ganolbwyntio ar bobl ifanc a throseddau cyllyll, ond gwelodd yn gyflym fod grŵp oedran hŷn yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys gydag anafiadau yn gysylltiedig â mathau eraill o drais. Er mwyn cydnabod y bwlch hwn mewn cymorth, penderfynodd yr Uned Atal Trais ehangu cwmpas yr ymyriad.

## Effaith pandemig COVID-19

Disgrifiodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad y dirwedd newidiol a chymhlethdod cynyddol anghenion yn y gymuned. Gwnaethant esbonio bod effaith pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig, a'r argyfwng costau byw dilynol, wedi arwain at fwy o ynysu cymdeithasol ac iechyd meddwl gwael, a oedd wedi effeithio ar ymddygiad pobl ifanc.

Yn ystod y pandemig, addasodd gwasanaethau er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ar-lein. Bu modd i'r Tîm Atal Trais barhau â'n gwaith wyneb yn wyneb gan ein bod wedi ein lleoli yn yr adran damweiniau ac achosion brys. Ystyriwyd bod cael ymarferwyr wedi'u cyflogi gan y GIG yn fantais, gan ei bod yn golygu na chafodd staff eu rhoi ar ffyrlo na'u hailgyfeirio i feysydd eraill. Ystyriwyd hefyd ei bod yn hanfodol gallu darparu cymorth wyneb yn wyneb ar adeg pan oedd angen ailgyfeirio cymaint ar-lein. Wynebodd y Tîm Atal Trais heriau ychwanegol hefyd o ran cael mynediad i'r adran damweiniau ac achosion brys a wardiau eraill gan fod llai o staff wedi manteisio ar yr ymyriad yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, yn dilyn y pandemig, ystyriwyd ei bod yn fuddiol bod

gwasanaethau eraill yn cynnig yr opsiwn o waith ar-lein, gan ei bod yn golygu bod modd addasu sesiynau i'w gwneud yn fwy hygyrch a'u teilwra at anghenion unigol. Nododd Fearless hefyd ei fod bellach yn gallu cynnal sesiynau ar-lein mewn ysgolion lle mae llawer o bobl ifanc yn cario cyllyll. Bu modd i'r Tîm Atal Trais hefyd addasu rhai o'i adnoddau yn ystod y pandemig drwy gynnig addysg i gydweithwyr ar-lein.

Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o bobl ifanc a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn dilyn y pandemig, gyda niferoedd uwch yn cysylltu â'r gwasanaethau bryd o ganlyniad i hunan-niwed neu orddos. Awgrymodd un rhanddeiliad y bu cynnydd mewn bregusrwydd ac achosion o drais a chamfanteisio yng Nghaerdydd yn dilyn y pandemig. Nododd y Tîm Atal Trais ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymosodiadau yn yr ysgol yn dilyn COVID-19, ac esboniodd ei fod yn gweithio'n agos gyda nyrsys ysgolion.

*"Mae mwy o bryderon am gamfanteisio, trais difrifol a bregsurwydd. Sut mae ceisio targedu hynny" (Rh15)*

Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod ysgolion a gwasanaethau wedi gweld newid mewn ymddygiad, wrth i fwy o bobl ifanc yn mynd i drafferth yn yr ysgol. Ystyriwyd bod tlodi yn ffactor risg uchel o ran camfanteisio, ond dangosodd data'r adroddiad chwarterol fod Fearless yn gweld mwy o achosion mewn ysgolion yr ystyriwyd bod ganddynt gyfoeth economaidd uwch yn hanesyddol. Nodwyd hefyd faterion rhywedd-benodol yn dilyn y pandemig, gydag adroddiadau am gynnydd yn nifer y dynion ifanc â phroblemau iechyd meddwl a gwrywdod gwenwynig, a arweiniodd at ddatblygu ymyriad Positive Masculinity. Nododd Fearless hefyd gynnydd mewn achosion o wrywdod gwenwynig, ideolegau a oedd yn dangos casineb at ferched, a diwylliant o ymgadw'n ddi-briod yn anwirfoddol ymhlith pobl ifanc ers y pandemig, wrth i gredoau o'r fath ledu ar y cyfryngau cymdeithasol. Felly, mae wedi datblygu cynnwys penodol gyda Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol i herio a chwalu'r credoau hyn. Dywedodd yr holl ddarparwyr ymyriadau mai dynion ifanc yw'r mwyafrif o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Fodd bynnag, yn dilyn y pandemig, gwelodd gwasanaethau gynnydd mewn achosion o drais yn cynnwys merched. Nododd ymyriad y Tîm Atal Trais hefyd ei fod wedi gweld cynnydd o 25% yn nifer y menywod a merched sy'n mynd i'r adran achosion brys. Roedd mwy o ddigwyddiadau yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol hefyd, gan gynnwys bwlio a bygythiadau ar-lein, a ffilmio digwyddiadau treisgar. Esboniodd y rhanddeiliaid fod cysylltiad mawr rhwng llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel TikTok â'r risg o gamfanteisio a thrais.

*"Rwy'n credu mai'r cyfryngau cymdeithasol sydd ar fai. Mae'r merched yn bygwth ei gilydd ar Snapchat ac yn ffilmio ei gilydd yn ymladd ac ati. Maen nhw'n creu cynnwys drwy ysgogi trais" (Rh13)*

*"Mae plant/pobl ifanc yn clywed ar y cyfryngau cymdeithasol fod pawb yn cario arfau, felly maen nhw'n meddwl ei bod hi'n iawn iddyn nhw wneud hynny, ac mae cerddoriaeth yn cael effaith fawr hefyd" (Rh2)*

Nododd y rhanddeiliaid hefyd gynnydd yn nifer yr achosion yn ystod gwyliau haf yr ysgol, gan nodi bod bwlch o ran gweithgareddau yn y gymuned a gweithgareddau dargyfeirio yn ystod cyfnodau pan oedd yr ysgolion ar gau. Yn ogystal â newid mewn demograffeg rhywedd, nododd rhai o'r gwasanaethau, gan gynnwys Parallel Lives a Braver Choices eu bod wedi gweld mwy o blant a phobl iau yn cysylltu â'r gwasanaeth. Yn fwy diweddar, nododd Braver Choices gynnydd yn nifer y bobl ifanc a oedd yn cario arfau fel ffordd o ddiogelu eu hunain oherwydd dyled yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Codwyd pryderon yn ymwneud â chamfanteisio troseddol a diffyg dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o gyfreithiau yn gysylltiedig â chario arf. Nododd Braver Choices a Fearless hefyd gynnydd yn nifer y bobl ifanc a oedd yn mynd ag arfau i'r ysgol a bygythiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Yn yr un modd,

nododd Fearless hefyd lefelau uchel o bobl ifanc yn defnyddio canabis mewn colegau ac yn fepio mewn ysgolion, mwy o unigrwydd a hunan-niwed yn gysylltiedig â pherthnasau yn chwalu.

## 3.3 Heriau o ran darparu cymorth

### Rhwystrau i fanteisio ar gymorth

Disgrifiodd y rhanddeiliaid yr heriau o ran annog pobl ifanc a'u teuluoedd i fanteisio ar gymorth. Un rhwystr sylweddol oedd diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau proffesiynol oherwydd ofn, profiadau negyddol blaenorol, diffyg diddordeb gan rieni, a stigma canfyddedig ymgysylltu â gwasanaethau penodol.

Trafododd nifer o'r rhanddeiliaid y diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cysylltu gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau cyfiawnder troseddol er mwyn chwalu rhai o'r rhwystrau hynny. Nododd un rhanddeiliad fod hyn yn rhwystr arbennig i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Credwyd bod diffyg dealltwriaeth o rôl gwasanaethau a chanlyniadau cyfreithiol troseddau hefyd yn cyfrannu at y rhwystrau hyn. Esboniodd Fearless hefyd ei fod yn aml yn gorfod ymbellhau oddi wrth yr heddlu er mwyn meithrin cydberthynas â phobl ifanc, eu hannog i gymryd rhan mewn sesiynau, a chynyddu'r siawns y byddant yn rhoi gwybod i wasanaeth Fearless am drosedd. Cydnabu'r rhanddeiliaid mai niferoedd bach oedd yn rhoi gwybod am droseddau, gan nodi bod y niferoedd bach hynny yng Nghaerdydd yn rhoi darlun anghywir o lefelau trais a chamfanteisio. Gwnaethant esbonio bod diwylliant o 'gario straeon', a bod ymadroddion Saesneg fel *'snitches get stitches'* yn codi ofn ar bobl ifanc ac yn eu hatal rhag rhoi gwybod am droseddau. Un o nodau allweddol yr ymyriadau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais oedd chwalu'r rhwystrau hyn a rhoi man diogel i bobl ifanc roi gwybod am droseddau.

*"Does dim hyder gan lawer o gymunedau yng Nghaerdydd yn yr heddlu – fyddan nhw ddim yn cysylltu. Niferoedd bach sy'n rhoi gwybod am droseddau – mae llawer o'r ardaloedd wedi dod yn llai sensitif i bethau a fydden nhw ddim hyd yn oed yn meddwl ei fod yn broblem am eu bod yn ei weld bob dydd. Mae angen rhoi sylw i'r holl bethau systemig hynny" (RhS10)*

Nodwyd heriau o ran ennyn diddordeb pobl ifanc ac anawsterau a all godi os oes gan riant neu ofalwr anghenion gofalu eraill gyda phlentyn ychwanegol, gan ei gwneud hi'n anodd iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau yn bersonol. Nododd y rhanddeiliaid hefyd y gall unigolion ei chael hi'n anodd manteisio ar gymorth yn dibynnu ar ble maent yn byw a beth sydd ar gael iddynt yn lleol. Esboniodd y darparwyr na fydd unigolion yn aml yn dod i sesiynau neu y byddant yn canslo apwyntiadau ar fyr rybudd, ond bod hyn yn digwydd yn llai aml ar ôl iddynt ddechrau ymgysylltu â'r gwasanaeth a meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â gweithwyr ieuenctid. Cydnabuwyd hefyd fod llawer o sefydliadau yn gweithio gyda phobl ifanc ar yr un pryd yn aml, a all lethu a drysu'r bobl ifanc ac effeithio ar lefelau ymgysylltu.

*"Yn aml pan fyddwch chi'n cwrdd â pherson ifanc, bydd cymaint o weithwyr proffesiynol yn ymwneud ag ef, ac mae'n rhaid ceisio taro'r cydbwysedd cywir er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'n cael ei lethu a'i orlwytho" (Rh2)*

*"Mae'r ffaith na alla i ddyblygu'r un cymorth yn fy mhoeni... y broblem yw mai loteri cod post yw hi bob amser" (S8)*

*"Rhwystrau eraill yw nad yw'r bobl ifanc yn ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol am fod cymaint o bobl wedi mynd a dod yn eu bywyd weithiau, dim ond un arall ydych chi" (Rh9)*

Disgrifiodd y darparwyr y gwaith y maent yn ei wneud i feithrin cydberthnasau a chwalu rhwystrau er mwyn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch, a gweithwyr achos sydd wedi addasu er mwyn gwella cyfranogiad drwy gynnal sesiynau mewn ysgolion, cartrefi, mannau cyhoeddus, a lleoliadau cymunedol.

*"Rydym yn dal i weithio gyda'r bobl ifanc hyn, pobl ifanc sy'n amharod iawn i ymgysylltu â gwasanaethau. Mae diffyg ymddiriedaeth go iawn, felly rydym yn gwneud pob math o waith trawma sy'n seiliedig ar gydberthynas gyda nhw, eu hannog i siarad â ni yn y lle cyntaf. Ceisio cael pawb ar yr un dudalen" (Rh15)*

## Rhoi ymyriadau ar waith

Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod y gwaith yn cwmpasu dinas amrywiol ac yn cydnabod y gall fod heriau wrth weithio ar draws olion troed daearyddol gwahanol, sefydliadau o faint gwahanol, a strwythurau gwahanol. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau yn gwasanaethu Cymru gyfan, ac mae rhai eraill yn benodol i Dde Cymru neu Gaerdydd yn unig. Gall hyn greu rhwystrau wrth weithio o fewn strwythurau sefydliadol gwahanol.

Er y cafwyd adborth cadarnhaol am waith partneriaeth, cydnabu'r rhanddeiliaid fod yr holl bartneriaid perthnasol *"o amgylch y bwrdd, ar wahân i addysg".* Cydnabu un rhanddeiliad y gall parodrwydd sefydliadau iechyd i weithio mewn partneriaeth hefyd fod yn fwlch mewn ardaloedd eraill yn hanesyddol, ond nad oedd yn teimlo bod hyn yn wir yng Nghaerdydd. Nododd Fearless, sy'n cynnal sesiynau mewn ysgolion, fod ysgolion yn ymateb yn dda ar y cyfan, ond bod rhai yn amharod i gydnabod troseddau cyllyll er mwyn osgoi cael eu beirniadu gan rieni. Ystyriwyd bod y ffaith nad yw ysgolion yn darparu addysg ar y cyfreithiau sy'n gysylltiedig â chario arf am y rhesymau hyn hefyd yn rhwystr. Nodwyd hefyd fod gwneud y cyswllt cyntaf ag ysgolion yn rhwystr am fod darparwyr gwasanaethau yn aml yn gorfod dod o hyd i bwynt cyswllt ar gyfer yr ysgol, fel gweithiwr ieuenctid neu'r pennaeth llesiant, cyn y bydd yr ysgol yn caniatáu i Fearless neu ddarparwyr eraill ymweld. Nododd Braver Choices hefyd na fydd rhai ysgolion yn caniatáu i blentyn neu berson ifanc ddychwelyd i'r ysgol nes ei fod wedi cwblhau rhaglen Braver Choices. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr o ystyried y cysylltiadau rhwng NEET a'r risg gynyddol o ddod yn rhan o droseddau cyllyll, ac effeithiau negyddol gwahardd pobl ifanc o'r ysgol. Nodwyd bod Braver Choices yn ceisio goresgyn y rhwystr hwn drwy gynnal y sesiynau yn yr ysgol, fel bod yr ysgol yn gallu gweld bod y person ifanc yn cymryd rhan yn y rhaglen heb orfod ei wahardd yn ystod cyfnod y rhaglen.

*"Mae'n ymddangos bod sefydliadau iechyd yn fwy parod i ymgysylltu. Dros y blynyddoedd, mae'r Uned Atal Trais yn sicr wedi darbwyllo sefydliadau iechyd i fod yn fwy agored ac i rannu, p'un a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio ... mae hynny wedi bod yn help mawr" (Rh17)*

*"Mae diffyg cysylltiad yn sicr, ac unwaith eto mae hynny'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth" (Rh15)*

*"Pethau fel annog rhywun o fyd addysg i gymryd rhan, oherwydd dydyn nhw ddim fel pe baen nhw am gymryd rhan, er gwaethaf yr holl dystiolaeth. Rydym wedi ei chael hi'n anodd iawn annog sefydliadau addysg i gymryd rhan, ac mae'n anodd cael data cyson yn ymwneud â gwaharddiadau" (Rh11)*

Nodwyd nifer o rwystrau hefyd o ran rhoi Cyfleoedd Dysgu Digymell ar waith, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth partneriaid o ymyriad Cyfleoedd Dysgu Digymell, neu'r ffaith nad oedd yr ymyriad yn cael ei flaenoriaethu. Nodwyd bod rhwystrau o'r fath wedi golygu nad yw gweithwyr MAC yn cael gwybod am y bobl ifanc sy'n cyrraedd y ddalfa. Roedd darparwyr wedi gwneud gwaith ychwanegol i godi ymwybyddiaeth o'r ymyriad er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn y ddalfa yn manteisio arno.

Nododd y Tîm Atal Trais hefyd ddiffyg cymorth emosiynol sy'n ystyriol o drawma i gleifion, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ei ymyriad o ran addysgu a chefnogi gweithwyr proffesiynol i ddod yn fwy ystyriol o drawma. Fodd bynnag, cydnabu'r Tîm Atal Trais heriau'r ffaith bod angen i hyn ddigwydd mewn amgylchedd adran damweiniau ac achosion brys sy'n newid yn gyflym, lle mae llawer iawn o staff yn cylchdroi.

## Rhannu data a llywodraethu

Trafododd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yng nghyfweliadau'r gwerthusiad heriau rhannu data ar draws sefydliadau partner. Gwnaethant esbonio pwysigrwydd peidio â rhannu data yn ddiangen a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a threfniadau llywodraethu. Ar y cyfan, trafododd y rhanddeiliaid fanteision rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid (fel y nodir yn 3.5), ond gwnaethant hefyd nodi bod ofn yn ymwneud â diogelwch rhannu data.

*“Mae'n bwysig iawn cofio bod cofnodion iechyd pobl yn gyfrinachol, a fydden ni ddim yn rhannu gwybodaeth o'n gwirfodd mewn cyfarfodydd. Mae'r ffordd rydym yn dadansoddi gwybodaeth yn briodol, mae angen i staff fod yn wybodus iawn a gallu gwneud penderfyniadau am y wybodaeth maen nhw'n ei rhannu” (Rh16)*

Teimlai rhai y gall fod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau o reolau'r GDPR a deddfwriaethau tebyg, a all arwain at ymdeimlad cyffredinol o anesmwythyd ac ofn canlyniadau wrth rannu gwybodaeth. Nododd y darparwyr hefyd heriau datblygu cytundebau rhannu data ar draws y bartneriaeth, a rhoddwyd enghreifftiau o gyfyngiadau rhannu data cyfredol rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a'r heddlu. Nododd y rhanddeiliaid hefyd anghysondebau o ran dulliau adrodd y sector addysg drwy byrth diogelu fel MyConcern. Nodwyd hefyd fod *‘diffyg cytundeb gan ysgolion i rannu ffigurau gwaharddiadau’.*

*“Gall pobl fod yn fursennaidd am wybodaeth neu deimlo'n nerfus am ei rhannu, er bod cytundebau ar waith” (Rh9)*

*“Maen nhw'n eistedd ar wybodaeth am nad ydyn nhw'n teimlo y gallan nhw ei rhannu, am nad ydyn nhw am fradychu ymddiriedaeth rhywun. Weithiau maen nhw'n poeni mwy am y GDPR fel rheswm dros beidio â rhannu gwybodaeth bwysig iawn. Rwy'n credu bod y GDPR wedi codi bwganod ar bobl pan gafodd ei gyflwyno, ond mae'n atal gwybodaeth rhag cael ei rhannu ar sail unigol" (Rh17)*

*“Rydych chi'n gwybod bod y cydberthnasau'n gyfeillgar ac yn broffesiynol, ond pan mae'n dod i rannu gwybodaeth, dyw hynny ddim yn digwydd mor hawdd ag yr hoffwn i. Mae'n anodd gwybod ai diffyg dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol yw'r rheswm dros hynny neu a yw pobl yn amharod i rannu" (Rh14)*

Roedd heriau hefyd o ran cael gafael ar ddata yn y fformat cywir ac mewn modd amserol. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol ag ansawdd a chysondeb data. Esboniodd y partneriaid sy'n gweithio gyda data y gall darnau o ddata amrwd fod o ansawdd gwael yn gyffredinol, *“maen nhw'n ansoddol ac yn ddi-drefn”*, ac y bydd partneriaid sy'n gweithio ym maes dadansoddi data yn gweithio gyda chydweithwyr er mwyn helpu i wella ansawdd data. Mae hyn yn cynnwys datblygu adnoddau i safoni'r data a helpu i integreiddio'r data.

*“Sgrialu i gael data cyson” (Rh14)*

Rhoddodd y darparwyr enghreifftiau hefyd, gan gynnwys Cyfleoedd Dysgu Digymell, a nododd rwystrau yn sgil y ffaith nad oedd gan weithwyr ieuenctid MAC fynediad i Niche, sef llwyfan data yr heddlu sy'n storio gwybodaeth am bobl yn y ddalfa yn ddiogel. Gall yr oedi hwn cyn cael gwybodaeth greu nifer o broblemau, gall olygu bod llai o bobl ifanc yn cael ymyriad amserol a bod anghenion

penodol y person ifanc a'r addasiadau sydd eu hangen yn cael eu hanwybyddu. Gall peidio â chael y manylion cefndir hanfodol a chynnal ymweliad cartref yn ddall o ganlyniad i hynny, hefyd beri risg i weithwyr MAC. Nododd Cyfleoedd Dysgu Digymell hefyd yr anghysondebau posibl rhwng data'r heddlu a data MAC yn sgil y diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr ag ymgysylltu â'r ymyriad, gan nodi'r risg y bydd data coll ac na fydd data yn adlewyrchu ymgysylltu llawn â'r gwasanaeth.

### Adnoddau a chapasiti

Roedd adnoddau a chapasiti cyfyngedig yn rhwystr arall a nodwyd gan bartneriaid. Roeddent yn cydnabod bod cyllid yr Uned Atal Trais wedi bod yn allweddol i wella a sefydlu ymyriadau. Fodd bynnag, gwnaethant nodi bod anghenion ychwanegol yn y gymuned a chyllid cyfyngedig yn gyffredinol ar draws y sector yn golygu bod gwasanaethau yn gweithio gyda llai o adnoddau ac yn wynebu mwy o alw. Cydnabuwyd y gall fod yn anodd mynd i lawer o gyfarfodydd a sefydlu partneriaeth oherwydd diffyg capasiti. Nododd y darparwyr fod capasiti yn broblem i'r rheini sy'n gweithio gydag ysgolion, gan nodi heriau gweithio o fewn y calendr ysgol. Roedd adroddiadau hefyd am lwythi achosion cynyddol am fod pob gwasanaeth dan ormod o bwysau.

*"Yn y cyfarfodydd amrywiol, rwy'n credu bod perygl mawr o ddyblygu gwaith, ac rydych chi'n brwydro am yr un pot o arian" (Rh11)*

Ystyriwyd bod natur fyrdymor cyllid hefyd yn rhwystr sylweddol. Trafododd y rhanddeiliaid hyn mewn perthynas â chyllid gan yr Uned Atal Trais, ond hefyd mewn perthynas â ffrydiau cyllido eraill, gan gydnabod bod mwyafrif o wasanaethau, yn enwedig sefydliadau Menter Gymdeithasol Gymunedol Wirfoddol, yn dibynnu ar gontractau cyllid byrdymor. Roedd pob unigolyn a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn cytuno bod hyn yn golygu bod gwasanaethau yn cystadlu â'i gilydd am gyllid, a all greu rhwystrau i weithio mewn partneriaeth ac arwain at weithio mewn seilo. Roeddent hefyd yn cytuno y gall cyllid byrdymor effeithio ar gyflawni, o ran y ffaith bod angen i gontract fod ar waith i recriwtio staff, sy'n cymryd amser, gan olygu y gall prosiectau fod yn nesáu at eu diwedd cyn bod tîm cyfan ar waith. Roedd hyn hefyd yn rhwystr i gynnal gweithlu, ac esboniodd y rhanddeiliaid fod ansicrwydd swyddi yn bryder i staff, a'i fod hefyd yn golygu bod angen iddynt edrych mewn mannau eraill am gyflogaeth am fod contractau ar fin cael eu hadnewyddu.

*"Ond wedyn mae gennych chi bobl yn cael eu secondio am chwe mis neu 12 mis. Dydych chi ddim yn gwybod a fyddwch chi yno ymhen 12 mis. Ydych chi'n colli allan ar bobl? Mae angen sicrwydd swyddi ar bobl; fydd rhai ddim yn gwneud cais am swyddi chwe mis oherwydd allan nhw ddim cymryd y risg" (Rh11)*

## 3.4 Effaith

### Effaith unigol

#### *Darparu dull sy'n ystyriol o drawma a man diogel*

Roedd y partneriaid yn cytuno mai ar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o drais yr oedd gweithgareddau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais yn effeithio arnynt fwyaf. Dangosodd data o'r astudiaethau achos o ymyriadau, a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a phobl ifanc, gyfoeth o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl ifanc a oedd yn ymgysylltu â gwasanaethau ledled Caerdydd. Mae data gan y darparwyr ymyriadau wedi dangos ymgysylltu da â phob un o'r gwasanaethau. Trafododd y rhanddeiliaid hefyd y gwaith a wnaed i chwalu rhwystrau a chefnogi unigolion a'u teuluoedd i fanteisio ar gymorth. Ystyriwyd bod meithrin cydberthnasau, gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, ac addasu deunydd cyfathrebu ac adnoddau, yn allweddol i gynyddu lefelau ymgysylltu. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol i ymgysylltu â phobl ifanc ar y pwynt cyswllt cyntaf ac, ar gyfer rhai ymyriadau, yn ystod argyfwng, er mwyn sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif a'u cyfeirio at gymorth priodol.

Ystyriwyd bod defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma yn hanfodol i ddarparu cymorth effeithiol, yn ogystal â chwalu rhwystrau er mwyn rhoi'r hyder a'r diogelwch i bobl ifanc roi gwybod am drosedd. Teimlwyd bod teilwra ymyriadau a defnyddio dull hyblyg yn allweddol i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. Cafwyd enghreifftiau gan bob un o'r darparwyr ymyriadau. Nododd un rhanddeiliad fod ymgysylltu a chydberthnasau yn gweithio'n well na'r hyn a welwyd mewn unrhyw wasanaeth blaenorol.

*"Rydyn ni'n poeni, a dyna sy'n gwneud y gwahaniaeth. Rydyn ni wir yn poeni amdanyn nhw oherwydd dyma'r genhedlaeth sy'n mynd i fod yn gofalu amdanon ni. Mae pawb yn cwyno am ein pobl ifanc, ond mewn gwirionedd, mae llawer o dda ynddyn nhw" (Rh9)*

Trafododd y darparwyr ymyriadau y defnydd o ddull sy'n ystyriol o drawma i ddatblygu a meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc, gan esbonio bod angen amser, ymdrech, hyblygrwydd ac amynedd i ennyn ymddiriedaeth. Rhoddodd Braver Choices enghreifftiau o'r gwaith cynnar a'r systemau mynediad a gynhaliwyd er mwyn annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y rhaglen. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i leddfu teimladau o ddiffyg ymddiriedaeth ac ofn siarad â gweithwyr proffesiynol, ac i sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn ystod sesiynau. Roedd enghreifftiau eraill gan MAC yn cynnwys cysylltu â gweithwyr sefydledig y mae'r bobl ifanc yn eu hadnabod er mwyn sicrhau cysondeb ac ymddiriedaeth.

*"Cyrraedd a gwneud yr hyn rydych chi'n dweud y byddwch chi'n ei wneud, ac os na allwch chi ei wneud, bod yn onest am hynny. Bod yn agored iawn gyda'r bobl ifanc" (Rh9)*

Nod Cyfleoedd Dysgu Digymell oedd rhoi mwy o lais i'r person ifanc a lleihau stigma bod yn nalfa'r heddlu. Esboniodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwerthusiad eu bod wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'u gweithiwr ieuenctid. Esboniodd un person ifanc *"gweithiodd gyda fi pan doedd neb arall yn fodlon gwneud" (PI)*, a dywedodd un arall ei fod yn teimlo bod *"rhywun yn gwrando" (PI)*. Rhoddodd y Tîm Atal Trais hefyd enghreifftiau o feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â rhieni, yn enwedig y rheini yr oedd rhywun wedi camfanteisio arnynt neu a oedd wedi cael profiad gwael wrth ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol yn y gorffennol, er mwyn helpu i dorri'r cylch trais cenedliadol.

*"Mae pob un ohonom yn gweld y cylch trais hwnnw, ac os gallem fod wedi atal y rhiant rhag dod yn ddioddefwr cyn iddo ddod yn rhiant, yna pam lai?" (Rh8)*

Ystyriwyd bod darparu man diogel yn allweddol. Cydnabu Positive Masculinity fod meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth mewn man diogel yn bwysig i lwyddiant y rhaglen oherwydd pan fydd y cydberthnasau hyn yn cael eu meithrin yn ystod sesiynau, bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, yn unigol ac fel rhan o grŵp. Oherwydd yr amgylchedd cyfforddus anffurfiol a grëir yn ystod gweithdai, mae gweithwyr achos Fearless yn ennyn hyder y bobl ifanc ac yn meithrin cydberthynas â nhw, sy'n galluogi'r bobl ifanc i siarad yn agored â nhw. Esboniodd Cyfleoedd Dysgu Digymell hefyd fod cynnal cyfweliadau cymell yn y celloedd yn cynnig amgylchedd llai bygythiol nag ystafell gyfweld yr heddlu, a bod hynny'n annog sgyrsiau agored a gonest sy'n lleddfu pryderon y gall pobl ifanc fod yn eu teimlo; *"mae'n braf sgwrsio yn y celloedd" (PI).* Defnyddir y cyfweliad hefyd fel ffordd o alluogi'r gweithiwr achos a'r person ifanc i fynd at wraidd ei weithredoedd a'i annog i beidio ag ymddwyn mewn ffordd broblemus yn y dyfodol. Teimlai'r bobl ifanc ei bod yn bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth yn y ddalfa er mwyn sicrhau *"bod gennym rywun rydym yn ymddiried ynddo i siarad ag ef" (PI).* Roedd pwysigrwydd y rhyngweithio hwn yn arwain at waith yn y gymuned gyda MAC yn golygu bod modd cynnal cydberthnasau, a darparu cymorth parhaus.

## *Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth well*

Nodwyd bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth well ymhlith pobl ifanc yn un o ganlyniadau pwysig cymryd rhan mewn gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais. Nodwyd hefyd wybodaeth a dealltwriaeth gynyddol a ble a sut i gael gafael ar gymorth. Cafwyd enghreifftiau gan Fearless, Braver Choices, Parallel Lives, Positive Masculinity, y Tîm Atal Trais, a Cyfleoedd Dysgu Digymell o ymwybyddiaeth gynyddol mewn perthynas â thrais ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys cario arf, canlyniadau cyfreithiol, a'r effaith arnyn nhw ac eraill. Nododd Braver Choices a Fearless fod pobl ifanc yn fwy ymwybodol o gyfreithiau a rheoliadau, na fyddent wedi dod i wybod amdanynt fel arall (gartref ac yn yr ysgol). Ystyriwyd bod hyn yn galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

*“Rwy'n gweld bod cymaint ohonyn nhw mor fregus, does arnyn nhw ddim ofn y system cyfiawnder o gwbl. Felly gan eu bod yn meddwl na all dim eu trechu, maen nhw'n meddwl eu bod yn ddigon clyfar i beidio â chael eu dal (Rh5)*

Cydnabuwyd nad oes ar lawer o'r bobl ifanc ofn y system cyfiawnder ac nad ydynt bob amser yn deall y ffyrdd y mae pobl yn dod yn rhan o droseddau, ac felly, bod y gweithdai a'r sesiynau yn rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o gamfanteisio a'r ffyrdd y gallant ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Dangosodd adborth ar y sesiynau a gynhaliwyd gan Braver Choices a Fearless newidiadau yn y ddealltwriaeth o ganlyniadau bod yn rhan o droseddau, gyda mwy na 90% yn nodi dealltwriaeth well yn dilyn y gweithdai. Mae Cyfleoedd Dysgu Digymell hefyd yn ffordd o gynnwys y person ifanc yn llawn yn y broses o gael ei arestio ac yn ffordd o roi gwybod iddo am y gweithdrefnau a'r rheolau, a'i helpu i brosesu ei brofiad yn well. Esboniodd un person ifanc fod hyn yn bwysig gan nad oedd ganddo *"neb a oedd gwybod beth oedd yn digwydd" (PI)* cyn ymgysylltu â'i weithiwr ieuenctid.

Nodwyd bod gwybodaeth well am sut a ble i roi gwybod am drosedd, a mwy o hyder i roi gwybod am droseddu, yn ganlyniadau allweddol. Nododd Fearless newid mewn agweddau, gyda 66% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am droseddau drwy ffurflen ddiogel ar-lein, gyda'r gweddill yn dewis 'efallai'. At hynny, dywedodd 100% o'r bobl ifanc y byddent yn defnyddio fearless.org i roi gwybod am drosedd yn ddienw. Nododd y darparwyr gynnydd yn nifer y troseddau a ddatgelwyd, gan gynnwys cam-drin domestig a throseddau treisgar. Hefyd, ychwanegodd y darparwyr fod pobl ifanc yn teimlo'n hyderus nid yn unig i roi gwybod am droseddau yn ddienw ond hefyd i siarad â gweithwyr proffesiynol. Felly, ystyriwyd bod chwalu'r stigma sy'n gysylltiedig â'r diwylliant 'cario straeon' yn hanfodol i leihau'r rhwystrau i roi gwybod am droseddau.

*“Rwy'n credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr, fyddai plant ddim wedi mynd at yr heddlu i gyhuddo rhywun o rywbeth neu fydden nhw ddim wedi rhoi gwybod am bethau. Ac maen nhw wedi mynd i'r llys am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Fydden nhw ddim wedi gwneud hynny o'r blaen” (Rh11)*

## *Llesiant gwell*

Trafododd y rhanddeiliaid y canlyniadau i'r bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymyriadau a'r rhaglenni. Gwnaethant ddweud bod pobl ifanc wedi magu hyder a hunan-barch, a gwydnwch. Roedd hyn wedi arwain at welliant cyffredinol mewn llesiant, gan gynnwys llai o bryder ac iselder. Dywedodd y bobl ifanc eu hunain eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod rhywun 'ar eu hochr'. Roedd y cydberthnasau llawn ymddiriedaeth a ddatblygwyd â staff hefyd wedi rhoi man diogel iddynt siarad yn agored am eu teimladau.

*“Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi ac rwy'n fwy hyderus ynof fi fy hun" (PI)*

*“Bydda i'n siarad am fy nheimladau yn fwy” (PI – Adroddiad Chwarterol)*

*“Cael yr hyder i fod yn nhw eu hunain, a bod yn ddigon hyderus i ddweud yr hyn maen nhw am ei ddweud, yn lle cytuno â phopeth sy'n ddisgwyliedig ohonyn nhw” (Rh9)*

Nododd y Tîm Atal Trais hefyd anghenion cynyddol pobl ifanc a oedd yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys â materion tai, gan nodi canlyniadau ar eu cyfer, gan gynnwys cael tai priodol a chynnal tenantiaethau. At hynny, gwnaethant esbonio fod ymyriad y Tîm Atal Trais wedi achub bywydau'r rheini â bywydau cymhleth. Nododd y rhanddeiliaid fod y sesiynau grŵp wedi bod yn gyfle i'r bobl ifanc a gymerodd ran ynddynt gwrdd â phobl ifanc eraill mewn sefyllfaoedd tebyg. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig i'w helpu i wneud ffrindiau a datblygu grwpiau cymorth, ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

*“Mae'n fuddiol iawn gan fod y bobl ifanc yn gallu cwrdd â phobl eraill yn yr un sefyllfa â nhw” (Rh2)*

*“Mae gennym un person ifanc sydd newydd fynd i'r carchar, ac rwyf wedi bod yn ei gefnogi'n achlysurol ers tair blynedd, ond mewn gwirionedd ... mae wedi llwyddo i oroesi mynd i'r carchar, ac mae'n ffynnu yn y carchar. Roeddem yn poeni am ei fywyd, a gwnaethom uwchgyfeirio'r mater.  Felly, canlyniad i ni yw ei fod nawr yn 18 oed, mewn man diogel, wedi magu pwysau, yn bwyta ac yn lân. Ond ddylai ddim fod yn rhaid iddo fynd i'r carchar er mwyn i hynny ddigwydd" (Rh8)*

Un o ganlyniadau allweddol yr ymyriad yw cefnogi pobl ifanc i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Bu modd i Braver Choices weithio gydag ysgolion i gynnal sesiynau ar y safle mewn ysgolion er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu gwahardd tra eu bod yn cwblhau'r cwrs. Gwnaethant nodi bod pobl ifanc yn fwy hyderus yn yr ysgol. Nododd Parallel Lives hefyd effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad pobl ifanc gartref ac yn yr ysgol, gyda'r nod o hyrwyddo amgylchedd dysgu mwy cadarnhaol ar gyfer yr athro a'r myfyrwyr eraill. Nododd Cyfleoedd Dysgu Digymell hefyd fod cymorth a mwy o hyder wedi galluogi person ifanc yr oedd yn gweithio gydag ef i ddychwelyd i addysg. Dangosodd canfyddiadau cynnar Positive Masculinity hefyd waith gydag ysgolion i gynnal sesiynau penodol gyda grŵp o bobl ifanc yn yr ysgol.

*“Rydym wedi gweld llai o ddigwyddiadau ymddygiadol yn yr ysgol yn gyffredinol, ac mae'r bechgyn fel pe baent yn mwynhau'r sesiynau yn fawr ” (Adroddiad Chwarterol)*

Credai'r rhanddeiliaid fod cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau ystyrlon sydd nid yn unig yn rhoi cymorth ac addysg iddynt, ond hefyd strwythur, trefn a gweithgareddau llawn hwyl, yn rhoi ymdeimlad gwell o hunaniaeth iddynt. Rhoddodd Braver Choices enghreifftiau o gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn clybiau y tu allan i'r ysgol, fel Camu i Chwaraeon, a oedd yn cynnig gweithgareddau fel crefft ymladd cymysg a bocsio. Roedd hyn yn eu galluogi i adnabod sgiliau a chryfderau nad oeddent yn ymwybodol ohonynt, gan gydnabod bod llawer o bobl ifanc yn hunanfeirniadol. Roedd hefyd yn rhoi cyfleoedd newydd iddynt ddysgu mwy amdanynt eu hunain, yr hyn y maent yn hoffi eu gwneud, a'r sgiliau yr hoffent eu dysgu. Roedd hyn yn creu cyfleoedd i bobl ifanc osod nodau ar gyfer y dyfodol a symud i ffwrdd oddi wrth ddigwyddiadau yn yr ysgol a/neu ddigwyddiadau yn ymwneud â'r heddlu, o blaid cynllunio ar gyfer dyfodol gwell. Teimlwyd hefyd fod cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn galluogi pobl ifanc i adfer rhywfaint o'u plentyndod drwy eu galluogi i gael hwyl. Ystyriwyd bod darparu modelau rôl i bobl ifanc yn y gymuned, a chyfleoedd i ddod yn fodelau rôl, yn ffordd o'u cefnogi i symud ymlaen, helpu eraill i ddysgu a bod yn rhan o'u cymunedau.

*“Maen nhw'n adfer rhywfaint o'u plentyndod. Fyddwch chi byth yn adfer eich plentyndod yn llwyr, ond maen nhw'n cael blas ar sut beth yw bod yn blentyn, cael hwyl, chwerthin" (Rh9)*

## *Llai o risg o drais*

Esboniodd y rhanddeiliaid fod y gweithgareddau atal trais wedi helpu pobl ifanc i deimlo'n fwy diogel. Roedd hynny, ochr yn ochr â mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth, wedi arwain at bobl ifanc yn dweud eu bod yn llai tebygol o gario cyllell. Dangosodd adborth gan Fearless a Braver Choices fod pobl ifanc wedi dweud nad oeddent yn cario arfau mwyach. Nododd rhanddeiliaid ehangach hefyd gynnydd yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt, arestiadau a gwaith tarfu. Credai nifer o bartneriaid fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o gyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais ymhlith plant a phobl ifanc lle y defnyddiwyd arf. Fodd bynnag, gwnaethant gydnabod y cynnydd mewn achosion o drais yn dilyn y pandemig, ond beth bynnag, credai rhai fod mwy o bobl yn cario arfau.

*"Rydym wedi gweld llai o droseddau cyllyll yng Nghaerdydd a mwy o bobl yn cario arfau. Ond rydym wedi gweld llai o achosion lle mae plant yn ymosod ar ei gilydd â chyllyll" (Rh13)*

*"Mae ein cyfradd troseddau cyllyll yn is nag erioed. Mae ein cyfraddau llofruddiaeth, marwolaethau neu anafiadau difrifol yn is nag erioed, ond rydym yn gweld mwy o droseddau cyllyll, sy'n gysylltiedig â llinellau cyffuriau" (Rh17)*

*"Rydym wedi bod yn eithaf ymatebol lle roedd angen i ni fod. Dydyn ni ddim wedi gweld cynnydd mawr mewn troseddau. Ryw dair neu bedair blynedd yn ôl mae'n debyg, roedd llawer iawn o droseddau cyllyll ... ond rwy'n credu bod COVID-19 wedi ystumio'r data yn ofnadwy. Rwy'n credu bod pobl wedi newid y ffordd maen nhw'n ymddwyn. Felly a yw'r data yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd neu a yw'r ffactorau drysu yn rhoi darlun gwahanol " (Rh11)*

Yn y tymor hwy, roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai'r ymyriadau ledled Caerdydd yn cyfrannu at leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i ymosodiadau ag arf, troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, lladdiadau annomestig, yn enwedig ymhlith dioddefwyr dan 25 oed, a phob math o drais ymhlith plant a phobl ifanc, gan y byddai hyn yn arwain at gyfleoedd gwell mewn bywyd i'r rhai dan sylw.

*"Mae'n effeithio ar y GIG oherwydd dydyn nhw ddim yn mynd i'r ysbyty. Mae'n effeithio ar y system carchardai oherwydd dydyn nhw ddim i gyd yn mynd i'r carchar. Mae'n effeithio ar wasanaethau plant oherwydd dyw'r pwysau i gyd ddim ar un person" (Rh9)*

## *Effaith ehangach*

Nodwyd cymorth i rieni fel bwlch, a chyflwynodd nifer o'r ymyriadau gymorth pellach i rieni a theuluoedd er mwyn mynd i'r afael â hyn. Cydnabuwyd ei bod yn bwysig ymgysylltu â rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gwaith y mae gwasanaethau yn ei wneud gyda'u plentyn. Mae staff yn Braver Choices yn gweithio gydag aelodau teulu i'w cynghori a'u haddysgu ar sut i reoli sefyllfa lle maent yn credu bod rhywun yn camfanteisio ar eu plentyn.

Cydnabu Parallel Lives fwlch yn y farchnad ar gyfer rhieni neu ofalwyr a oedd am gael help neu yr oedd angen help arnynt, i gefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau a chaniatáu i'w teuluoedd ymgysylltu a chael sesiynau ar anghenion rhieni a gwarcheidwaid. Ystyriwyd bod Parallel Lives yn effeithiol o ran creu amgylchedd diogel i'r rhieni neu'r gofalwyr a'r bobl ifanc yr oedd Trais a Chamdriniaeth gan Berson Ifanc tuag at Riant (APVA) wedi effeithio arnynt ac o ran helpu i leihau'r stigma a'r cywilydd y gallai'r rhieni, y gofalwyr a'r bobl ifanc fod yn eu teimlo. Mae hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr i rieni a phlant rannu profiadau a chefnogi ei gilydd.

At hynny, mae ymyriad Parallel Lives yn helpu i roi digon o hyder i rieni reoli ymddygiad eu plentyn. Mae hefyd yn helpu i leihau'r ofn a'r pryder y gallai'r rhieni a'r gofalwyr fod wedi eu teimlo yn eu cartref eu hunain o ganlyniad i gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. At hynny, ystyriwyd bod gan rieni a gofalwyr ddealltwriaeth well o brosesau'r heddlu mewn perthynas ag amodau mechnïaeth rhyddhau dan ymchwiliad pellach, y cydnabuwyd eu bod yn brosesau cymhleth a rhagweithiol. Ystyriwyd bod gan rieni a gofalwyr hefyd ddealltwriaeth well o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt gan eu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Teimlwyd hefyd fod Cyfleoedd Dysgu Digymell yn lleddfu pryderon rhieni a gofalwyr. Cydnabu un person fod y sefyllfa wedi achosi cryn straen i'w fam ond bod ei weithiwr ieuenctid MAC wedi gallu rhoi cymorth i'w fam i esbonio'r sefyllfa a lleddfu unrhyw bryderon. Nododd SAFE hefyd fod angen rhoi cymorth i rieni a chodi ymwybyddiaeth o gamfanteisio ymhlith rhieni. Felly, mae wedi gallu datblygu cynllun ymgysylltu â rhieni i oresgyn hyn ac wedi sefydlu modelau grwpiau cymorth cymheiriaid a chaffis i rieni, wedi cynllunio ymgyrchoedd wedi'u targedu at rieni, ac wedi cyflwyno cyrsiau i rieni.

*“Roedd yn gyfnod llawn straen i fy mam, a siaradodd [gweithiwr achos MAC] â Mam hefyd. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd" (Adroddiad Chwarterol – PI)*

*“Mae angen i chi geisio sefydlu cydberthynas gref â'r rheini a'r gwarcheidwaid hefyd. Mae angen iddyn nhw wybod beth sy'n digwydd" (Rh2)*

Cafwyd hefyd adroddiadau am yr effaith ehangach ar deuluoedd y bobl ifanc a gefnogwyd gan yr ymyriadau. O fewn y teulu, gwelwyd bod cydberthnasau cryfach wedi'u datblygu. Gwelwyd bod pwysau wedi codi oddi ar ysgwyddau teuluoedd ar ôl i'r person ifanc gymryd rhan yn rhaglen Braver Choices. At hynny, gwelwyd bod pobl ifanc yn dod yn fodel rôl ar gyfer eu brodyr a'u chwiorydd, a allai atal yr aelodau hyn o'r teulu rhag cario arf.

*“Rydym yn cefnogi mam yn dda. Felly nid dim ond gyda'r cleifion rydym yn gweithio, rydym yn gweithio gyda'u teuluoedd” (Rh8)*

Nododd y rhanddeiliaid hefyd ganlyniadau ehangach creu mannau ac amgylcheddau cyhoeddus ar draws cymunedau, a oedd wedi arwain at deimladau cynyddol o ddiogelwch yn y gymuned.

*“Roedd yn ymwneud â cheisio deall rhai o'r bobl ifanc hyn yn y cymunedau lleol a dechrau siarad â nhw" (Rh15)*

*“Lledaenu'r neges yn y cymunedau. Rwy'n credu mai dyna fydd y fantais i gymunedau” (Rh16)*

## Effaith ar lefel system

Disgrifiodd y rhanddeiliaid ganlyniadau ar draws y system atal trais ehangach yng Nghaerdydd. Roedd buddsoddiad gan yr Uned Atal Trais wedi ychwanegu gwerth at sefydliadau presennol i wella ymyriadau ac adnoddau presennol a datblygu rhai newydd. Roedd cydberthnasau rhwng yr Uned Atal Trais a phartneriaid eraill ledled De Cymru hefyd wedi golygu bod modd cyd-gomisiynu gwasanaethau. Roedd hyn wedi golygu bod modd ehangu ac uwchsgilio'r gweithlu a sicrhau mwy o gyrhaeddiad ledled y ddinas i bobl ifanc a theuluoedd na fyddent o bosibl wedi cael cymorth fel arall. Rhoddwyd enghreifftiau o gydleoli a datblygu llwybrau atgyfeirio a oedd wedi hyrwyddo prosesau gweithio ar y cyd, ymwybyddiaeth o wasanaethau ac ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc ac unigolion ag anghenion cymhleth. Roedd cyllid yr Uned Atal Trais wedi helpu i ddatblygu cydberthnasau ffurfiol rhwng gwasanaethau statudol a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys Cyfleoedd Dysgu Digymell (MAC a Heddlu De Cymru) a'r Tîm Atal Trais (y GIG a Gweithredu dros Blant). Roedd hefyd wedi galluogi gweddill yr ymyriadau a ariannwyd i ddod ynghyd.

*“Gwnaethom addasu a chysoni ein hunain â'r dull iechyd y cyhoedd, ac mae'n rhan annatod o'r hyn rydym yn ei ddarparu” (Rh16)*

*“Rwy'n credu bod gwaith partneriaeth da yn digwydd yr Uned Atal Trais.  Mae pawb yn estyn allan at ei gilydd” (Rh16)*

Dywedwyd bod gwaith partneriaeth da ar draws gweithgareddau atal trais yng Nghaerdydd. Nododd rhanddeiliaid hefyd fod pawb yn cydweithio'n dda â'i gilydd o fewn partneriaeth yr Uned Atal Trais, a chredwyd bod hyn yn un o brif gryfderau'r bartneriaeth. Yn gyffredinol, dywedodd y partneriaid fod ganddynt ymwybyddiaeth dda o sefydliadau gwahanol ledled Cymru ac, yn benodol, gweithgareddau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais. Fel y nodwyd, ystyriwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â phartneriaid ynghyd, a chredai'r rhanddeiliaid y byddai'r cydberthnasau yn cael eu cynnal.

*“XX yw ein prif gyswllt yn yr Uned Atal Trais. Mae'n rhan o SAFE ac mae'n rhoi cyngor ac arweiniad, ac yn siarad am arferion gorau mewn mannau eraill. Felly mae'n gyswllt yn hynny o beth” (Rh15)*

*"Mae'n codi ymwybyddiaeth o'r ffaith ei bod yn fwy na mater i wasanaethau plant. Mae'n fwy na mater diogelwch cymunedol, mae gennym bobl yno o faes trwyddedu, o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, o Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Mae'n dangos bod cyfrifoldeb arnoch chi hefyd i gydweithio i fynd i'r afael ag ef" (Rh10)*

Nodwyd bod cyfarfod diogelu cyd-destunol amlasiantaeth Partneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) yn amhrisiadwy o ran hyrwyddo partneriaeth amlasiantaeth. Nododd y rhanddeiliaid fod SAFE wedi ehangu o chwe phartner cychwynnol i 40 o bartneriaid allweddol o bob cwr o Gaerdydd. Roedd hyn yn cynnwys ysgolion, iechyd, yr awdurdod lleol, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, partneriaid yn y sector Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Caiff yr Uned Atal Trais hefyd ei chynrychioli o fewn SAFE, gan gynnig llwyfan i roi adborth i'r Uned Atal Trais a chael adborth ganddi. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod SAFE yn galluogi partneriaid i nodi anghenion, rhannu gwybodaeth, a chael y cyfle i ddatblygu ymateb amlasiantaeth a diwallu anghenion lleol. Mae'r cyfarfodydd yn ffordd ragweithiol o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill, a all rannu cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o symud ymlaen gyda'r person ifanc. Roedd hyn yn golygu bod yr ymateb yn cael ei gydgysylltu â chyfrifoldeb a rennir, ond hefyd ei deilwra at anghenion, ac ystyriwyd bod hynny'n allweddol ar gyfer diogelu cyd-destunol.

*“Mae'n dda iawn ar gyfer cydlyniant cymdeithasol ond beth maen nhw'n mynd i wneud ynglŷn â hynny?  Dyna'r peth pwysig. Oherwydd yn aml mae ein hymateb unigol yn gyfyngedig iawn, mae popeth yn cyd-blethu" (Rh17)*

*“Deall a nodi anghenion ledled Caerdydd a gweithio gyda phobl ifanc, cymunedau, ysgolion lleol, gweithwyr proffesiynol i nodi'r pryderon diogelu cyd-destunol mewn perthynas â'n pobl ifanc, beth sy'n digwydd, ond hefyd beth sy'n gweithio'n dda iawn mewn ardaloedd? Beth sydd angen ei wneud i wella'r canlyniadau" (Rh15)*

Nododd gweithwyr achos o'r darparwyr ymyriadau fod mynd i gyfarfodydd amlasiantaeth yn fuddiol i ganfod beth mae sefydliadau a gwasanaethau eraill yn ei wneud yn dda a meithrin cysylltiadau. Er enghraifft, roedd Fearless wedi bod yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag ysgol benodol ond yn dilyn un o'r cyfarfodydd, bu modd iddo feithrin cysylltiad â phartner a wnaeth ei helpu i gysylltu â'r ysgol i gynnal ei sesiynau. Dangosodd adborth allanol gan ddarparwyr ehangach hefyd fod SAFE yn eu galluogi i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi'r bobl ifanc roeddent yn gweithio gyda nhw yn well.

*“Rydym yn dysgu am wasanaethau gwahanol, a ble y gallwn gyfrannu. Os byddwn yn gweld cynnydd yn rhywbeth. Os bydd hyfforddiant ar y gweill. Mae fel rhwydwaith enfawr o wybodaeth a gallwn gysylltu â nhw hefyd os bydd angen unrhyw beth arnom” (Rh8)*

Roedd dod â phartneriaid ynghyd yn fodd i rannu mwy o ddata a gwybodaeth, a oedd hefyd yn llywio gweithgarwch ymgyrchoedd, gan gynnwys mwy o weithgarwch gan yr heddlu, patrolau a gweithgareddau tarfu mewn ardaloedd problemus, ac ymatebion amlasiantaeth wedi'u teilwra yn dilyn digwyddiadau yn gysylltiedig â thrais. Roedd nodau tymor hwy yr Uned Atal Trais a'r dull iechyd y cyhoedd o leihau trais drwy gamau gwahanol bywyd yn fuddiol i sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio'n weithredol ar ymateb brys ac nad ydynt o bosibl yn gweld y darlun ehangach.

*“Mae'n ymwneud â'r dulliau casglu data gwell rydym wedi llwyddo i'w rhoi ar waith, oherwydd mae gennym ddata ffeithiol wrth weithio ar lawr gwlad" (Rh16)*

Rhoddwyd enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws sefydliadau, awdurdodau lleol ac ardaloedd daearyddol. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod cydleoli partneriaid â'r Hyb Diogelu a MASH yn cynnig cyfleoedd i gydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd, a oedd yn arwain at ddull gweithredu mwy cyson. Rhoddwyd enghraifft arall o ddefnyddio gwersi a ddysgwyd yng Nghaerdydd fel sbardun i feithrin cydberthnasau ag ardaloedd eraill ledled Cymru, ac ystyriwyd bod gallu meithrin y fath gydberthnasau a gwneud hynny o dan ambarél yr Uned Atal Trais yn stamp ansawdd i sicrhau cyfranogiad eraill.

*“Cyfrwng defnyddiol i geisio dod â'r rheini ynghyd. Rydym yn gallu rhannu'r hyn rydym wedi ei wneud yng Nghaerdydd. Mae'n debyg bod problemau sy'n effeithio ar y Barri yn effeithio ar Gaerdydd, ac i'r gwrthwyneb. Dylai fod manteision. Os yw'n croesi ffiniau, yna rydym yn gallu cydweithio mewn ffordd adeiladol yn hytrach na chystadlu â'n gilydd" (Rh11)*

Roedd y gwaith partneriaeth hefyd yn atgyfnerthu cydberthnasau rhwng partneriaid eraill, ac ystyriwyd bod hyn yn fuddiol i wasanaethau eraill hefyd. Roedd Braver Choices wedi meithrin cydberthnasau ag ysgolion a oedd wedi helpu staff i ddarparu'r sesiynau un i un ac wedi rhoi adnoddau i athrawon greu ac addasu cynllun gweithredu er mwyn cadw'r person ifanc yn ddiogel. Nododd hefyd fod cydberthnasau cadarnhaol wedi'u meithrin â Heddlu De Cymru.

Yn ogystal â gwybodaeth ac ymwybyddiaeth well ymhlith pobl ifanc a theuluoedd, cafwyd adroddiadau hefyd am wybodaeth well ymhlith gweithwyr proffesiynol. Roedd nifer o'r darparwyr hefyd yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff. Ochr yn ochr â chynnal gweithdai, teimlai Fearless ei bod yn bwysig uwchsgilio gweithwyr proffesiynol. Bydd gweithwyr achos yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc (fel athrawon, gweithwyr ieuenctid, timau gwasanaethau plant, rhieni maeth, a gwirfoddolwyr ieuenctid yr heddlu) i'w hyfforddi ar droseddau ieuenctid, y ffactorau risg cysylltiedig, a'r arwyddion i gadw llygad amdanynt. Roedd y Tîm Atal Trais yn cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol drwy hyfforddiant ac addysg er mwyn iddynt allu adnabod anafiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o drais, deall eu cyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth ag asiantaethau priodol, a sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol yn cael eu dilyn.

*“Ymwybyddiaeth gymdeithasol well, cysylltiadau llawer gwell rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol, gwasanaethau dargyfeirio, y trydydd sector fel Cymru Ddiogelach, Gweithredu dros Blant ...yr holl gydberthnasau hyn nad oeddent yn bodoli o'r blaen” (Rh17)*

*“Maen nhw'n dod i siarad â'n staff hefyd, yn cynnal sesiynau addysgu, yn codi ymwybyddiaeth o'u gwaith a sut mae'n cysylltu â phethau eraill yn ogystal â thrais, trais*

*domestig neu ymosodiad rhywiol, rhai o'r pethau lle mae rhywfaint o orgyffwrdd, ac mae ganddynt fwy o amser i gynnig y rhyngweithio dynol hwnnw rydym weithiau'n rhy brysur i'w gynnig" (Rh11)*

## 3.5 Dangos effaith

### Cudd-wybodaeth

Roedd gweithio gyda'r Uned Atal Trais yn gyfle i rannu gwybodaeth. Trafododd nifer o randdeiliaid fanteision rhannu data â'r Uned Atal Trais a chael data ganddi, a'r ffordd roedd y data hyn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau. Gwnaethant gyfeirio at Borth Atal Trais Cymru[6], sef llwyfan digidol sy'n storio data dienw ar drais yng Nghymru, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty, galwadau am ambiwlans, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad, a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Credai'r rhanddeiliaid fod data ar drais wedi'u sefydlu'n dda yng Nghaerdydd o ganlyniad i Fodel Caerdydd ar gyfer Atal Trais[7], sy'n archwilio derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â thrais ac yn darparu fframwaith ar gyfer casglu a rhannu data, ac yn rhoi adborth i'r Grŵp Cudd-wybodaeth Trawma ac Anafiadau[8] (TIIG), sef system monitro anafiadau. Nododd y rhanddeiliaid fod Porth Atal Trais Cymru yn ddefnyddiol i reolwyr prosiectau lywio gwaith cynllunio ymyriadau a strategaeth. Dywedodd un rhanddeiliaid y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r porth yn cynnig ffordd o ganolbwyntio ar ardaloedd penodol o Gaerdydd, ac roedd un arall yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cael gafael ar setiau data amrwd. Yn yr un modd, teimlai trydydd rhanddeiliad y byddai'n ddefnyddiol pe bai'n cynnwys data addysg.

*"Mae Porth yr Uned Atal Trais yn ffynhonnell ddata wych ar gyfer nifer o bethau. O ran edrych ar Gaerdydd, mae'n lle da i weithio" (Rh14)*

Mae hyn wedi galluogi partneriaid ledled Caerdydd i feithrin dealltwriaeth well o ymosodiadau a'r bylchau o ran adrodd, er enghraifft unigolion sy'n dod drwy uned trawma mawr yr ysbyty sy'n cael eu categoreiddio'n gleifion 'trawma' yn hytrach na chleifion 'ymosodiad'. Gall yr Uned Atal Trais, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu De Cymru a chydweithwyr ledled De Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau. Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhannu data â'r Uned Atal Trais yn helpu i feithrin dealltwriaeth realistig o'r sefyllfa ac yn cynnig llif cyfathrebu dwyffordd rhwng nifer o asiantaethau. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig o ran y Ddyletswydd Trais Difrifol. Ystyriwyd bod data o'r ymyriadau, yn enwedig ymyriad y Tîm Atal Trais, yn allweddol i sicrhau nad oedd unrhyw fylchau yn y wybodaeth hon. Gallai'r Tîm Atal Trais ddarparu gwybodaeth i'r Uned Atal Trais am gynnydd yn nifer yr achosion o Drais a Chamdriniaeth gan Blentyn neu Berson Ifanc tuag at Riant (CAPVA), a oedd yn bwydo i mewn i raglen Parallel Lives.

*"Mae data'r Tîm Atal Trais yn ategu'r wybodaeth honno oherwydd efallai fod tua 50, 60% o'r cleifion mae'n eu gweld nad ydynt ar set ddata ymosodiadau'r Bwrdd Iechyd" (Rh18)*

*"Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn oherwydd mae wedi ein helpu i ddeall nad oedd rhai o'r ymosodiadau mwyaf difrifol yn cael eu cynnwys yn y set ddata honno. Rwy'n credu ein bod wedi mynd at wraidd hynny, a'i fod yn deillio o'r ffaith eu bod yn cael eu categoreiddio'n gleifion trawma yn hytrach na chleifion ymosodiad pan fyddant yn cyrraedd yr uned trawma mawr" (Rh18)*

[6] https://cymunedaumwydiogel.cymru/porth-atal-trais-cymru/
[7] https://www.cardiff.ac.uk/cy/documents/2665796-the-cardiff-model-for-violence-prevention
[8] https://tiig.ljmu.ac.uk/

*"Ceisio defnyddio llawer o'r data a ddarparwyd, gwybodaeth am addysg ac iechyd, i gyflwyno mesurau a fydd yn atal ac yn lleihau trais ac, felly, yn lleihau effaith trais, fel arfer ar gyfer grwpiau oedran ac ardaloedd daearyddol penodol" (Rh14)*

Yng Nghaerdydd, caiff data eu casglu o fewn yr awdurdod lleol o bob rhan o'r bartneriaeth ehangach, gan gynnwys cyrff llywodraeth leol a sefydliadau yn y trydydd sector, er mwyn creu darlun sy'n llywio ymyriadau a strategaethau ar gyfer y dyfodol. Caiff adroddiadau eu llunio ar sail hyn a gaiff eu rhannu â sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y gymuned, yn hytrach na'r Uned Atal Trais. Mae'r rôl hon yn unigryw i Gyngor Dinas Caerdydd ac mae'n archwilio amrywiaeth o ddata gan bartneriaid a data a gasglwyd o fewn yr awdurdod lleol, gan gynnwys data ar leihau niwed, digartrefedd, defnyddio sylweddau gan gynnwys cyfnewid nodwyddau, a gwybodaeth gan barciau a mannau cyhoeddus gan gynnwys sbwriel cyffuriau, gweithgarwch cyffuriau, gweithgarwch rhywiol cyhoeddus a storio arfau mewn mannau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys gwaith helaeth i feithrin cysylltiadau â phartneriaid datblygu cytundebau rhannu data, a sicrhau ansawdd y data.

*"Gellir ceisio cysylltu'r data â nifer o setiau data gwahanol, ond mae'n dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei nodi neu'r hyn sy'n ymddangos yn berthnasol fesul achos" (Rh14)*

Ystyriwyd bod y data a gasglwyd fel rhan o Bartneriaeth SAFE yn bwysig iawn, o ran adroddiadau unigol ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau neu bryderon diogelu gan brosiect tai ysgol benodol, neu sefydliad awdurdod lleol. Ystyriwyd bod hyn yn allweddol i lywio camau gweithredu gan bartneriaid eraill, er enghraifft data ar ardaloedd problemus ar gyfer yr heddlu. Roedd data yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd, aildroseddu, data dalfeydd yr heddlu, llinellau cyffuriau a chamfanteisio, a ddadansoddwyd gan Heddlu De Cymru a'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, yn cael eu bwydo i'r bwrdd troseddau cyfundrefnol, y bwrdd atal trais, y bwrdd troseddau cyllyll a SAFE. Ystyriwyd bod yr Uned Atal Trais wedi'i phlethu drwy'r gwaith hwn, a'i bod yn gallu archwilio bylchau mewn gwybodaeth. Roedd setiau data a ddarparwyd gan yr Uned Atal Trais yn cael eu defnyddio i ddatblygu briffiau ymateb a oedd yn llywio ymatebion gweithredol. Roedd yr Uned Atal Trais hefyd yn defnyddio data a gasglwyd gan yr heddlu i ddatblygu adnoddau data busnes sy'n cysylltu troseddau cyllyll a mathau eraill o drais. Teimlwyd y gellid manteisio ymhellach ar y data hyn.

*"Mae'n ffordd o wirio'r holl wybodaeth hon. Yna, bydd yr Uned Atal Trais yn dweud bod cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu broblemau penodol ... ac yn aml bydd cysylltiad rhyngddynt, ac mae'n broses ddwyffordd o sicrhau data cytbwys" (Rh17)*

*"Yng Nghaerdydd yn arbennig, mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth da iawn bob amser wedi bod ar waith gyda'r heddlu a sefydliadau iechyd o ran rhannu data dienw fel bod modd olrhain y cyflwyniadau a'r rhyngweithio.*
*Dyna fu craidd Model Caerdydd am 25 mlynedd" (Rh11)*

*"Os oes ganddynt ôl-troed troseddol, rydym yn gallu mynd ati i greu darlun o'r unigolion hynny, ac yna ble nad yw wedi gweithio" (Rh17)*

Ymhlith y ffynonellau data eraill a nodwyd gan y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad roedd arolwg o'r boblogaeth a oedd yn gofyn i breswylwyr pa mor ddiogel y maent yn teimlo yn y ddinas, ac arolwg gwrando gweithredol Heddlu De Cymru, a oedd yn gofyn i bobl am eu barn am blismona yn yr ardal a diogelwch cyffredinol (yn gysylltiedig ag ap StreetSafe Heddlu De Cymru, sy'n casglu safbwyntiau'r cyhoedd).

## Mesur canlyniadau

Mae'r darparwyr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn cwblhau adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais a'r Swyddfa Gartref. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi'r wybodaeth

ddiweddariadau am gynnydd a manylion am waith ymgysylltu â phobl ifanc, lliniaru risg, canlyniadau, ac astudiaethau achos. Mae'r adroddiadau chwarterol ar gael i'r Uned Atal Trais, sy'n rhannu'r wybodaeth hon â'r Swyddfa Gartref fel rhan o'r adroddiad cenedlaethol ar Unedau Lleihau Trais. Cawsant hefyd eu darparu i'r tîm ymchwil at ddibenion y gwerthusiad hwn. Er nad ydynt ar gael i eraill, argymhellwyd y gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i dîm Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff gwaith adrodd ychwanegol ei gwblhau o fewn sefydliadau gan gynnwys gwaith monitro rheolaidd a llunio adroddiadau.

Cydnabu'r rhanddeiliaid yr heriau o ran dangos effaith. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth fesur gwaith atal. Gwnaethant hefyd drafod heriau dull systemau cyfan drwy gamau gwahanol bywyd, a oedd yn golygu na fyddai llawer yn gweld yr effaith (gan gynnwys newidiadau rhwng cenedlaethol) o fewn amserlenni eu prosiectau, neu yn ystod eu hoes. Nododd un rhanddeiliad y gall hyn fod yn rhwystr i'r rheini sydd am weld newid ar unwaith a chanlyniadau mesuradwy pendant. Disgrifiodd un darparwr ymyriadau hefyd yr heriau o ran yr angen iddo gasglu data i gefnogi cynaliadwyedd ei wasanaeth. Nododd y darparwr y gall fod yn anodd 'profi' canlyniadau ac na chaiff canlyniadau tymor hwy eu casglu, gan ei bod yn aml yn amhriodol ceisio cysylltu â pherson ifanc yn y dyfodol.

*“Mae meddwl am ddangosyddion neu ddangosyddion perfformiad allweddol priodol lle rydym yn gwybod ble rydym yn sefyll o ran y lefelau hyn o droseddau yn eithaf anodd” (Rh14)*

*“Rydych yn siarad am wneud rhywbeth dros blentyn na fyddwch yn gweld unrhyw fudd amdano. Rwy'n credu bod gorchymyn gwleidyddol weithiau i gyflwyno rhaglenni a newidiadau polisi. Oherwydd gall edrych fel eich bod yn gwario arian ac yn cyflawni dim. Weithiau gall fod yn eithaf anodd dangos bod y person hwn, ymhen 20 mlynedd, mewn gwaith ac nad yw wedi cyflawni trosedd” (Rh11)*

*“Mae'n anodd profi bod y rhaglen yn llwyddiannus weithiau, er ein bod yn gwybod bod hynny'n wir.  Mae'n rhaid i ni brofi hynny" (Rh2).*

Cydnabu'r partneriaid na roddir gwybod i'r heddlu am bob trosedd. Roedd y rhanddeiliaid hefyd o'r farn y gallai ffigurau gynyddu yn y byrdymor ac na ddylid ystyried hyn yn beth negyddol. Er enghraifft, pe bai gan bobl ifanc ymwybyddiaeth well o ran sut i gael gafael ar gymorth a phe baent yn teimlo'n fwy diogel i roi gwybod am drosedd neu fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys, byddai hyn yn ganlyniad cadarnhaol ar gyfer y gweithgareddau atal trais. Fodd bynnag, byddai hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt a derbyniadau i'r ysbyty. Nodwyd anawsterau hefyd o ran methu â chymharu Caerdydd ag ardaloedd eraill yng Nghymru oherwydd y proffiliau daearyddol a demograffeg gwahanol.

*“Rwy'n dychmygu y gallai rhai o'r canlyniadau ar gyfer gweddill Cymru fod ychydig yn wahanol i'r rhai yng Nghaerdydd. Mae'n dirwedd wahanol iawn yn hynny o beth, ond rwy'n credu bod canlyniadau diriaethol wrth edrych ar ostwng lefelau troseddu, ond wedyn y mathau hynny o ganlyniadau mwy meddal yn ymwneud â phobl ifanc a chymunedau yn teimlo'n fwy diogel” (Rh15)*

Teimlai un rhanddeiliad fod bylchau o ran dysgu o'r gwaith sy'n cael ei wneud i alluogi'r Uned Atal Trais i nodi bylchau yn y system. Nodwyd bod y gwerthusiad yn allweddol i sicrhau bod sylfaen dystiolaeth annibynnol a chadarn yn cael ei datblygu.

*“Mae'n hanfodol gallu gwerthuso a dadansoddi'r holl waith sy'n cael ei wneud, er mwyn nodi arferion da, arferion gorau a gwersi i'w dysgu. Mae hynny'n hanfodol mewn gwirionedd, ac mae angen iddo barhau" (Rh16)*

*"O ran y system gyfan honno, sut mae popeth yn cysylltu â'i gilydd. Sut mae'r holl elfennau yn cysylltu â'i gilydd er mwyn rhoi'r dull cyfan hwnnw i ni a ble mae'r bylchau o fewn hynny? Felly mae'n fath o broses gylchol lle rydym yn dysgu o hynny, ond wn i ddim a ydym yn gwneud hynny'n dda iawn ar hyn o bryd. Y math hwnnw o ddull cylchol a ble mae'r bwlch o fewn y cylch hwnnw y gallai pethau fod yn syrthio drwyddo" (Rh18)*

Teimlai'r rhanddeiliaid fod angen i ganlyniadau fod yn ddiriaethol ac yn hawdd eu mesur, ond gwnaethant hefyd nodi pwysigrwydd casglu canlyniadau mwy meddal a naratif teithiau. Nododd nifer o'r darparwyr, er ei bod yn bwysig casglu data meintiol, y data ansoddol sy'n rhoi darlun gwirioneddol o'r gwahaniaeth y mae ymyriadau wedi'i wneud i fywydau defnyddwyr gwasanaethau. Roeddent yn cytuno y dylai gwasanaethau fod yn cyfleu llais y defnyddwyr.

*"Rwy'n credu mai'r data ansoddol sy'n gwneud y gwahaniaeth mewn gwirionedd. Oherwydd mae'n rhoi ystyr i'r holl ddata gan eich bod yn gallu rhannu taith wirioneddol y person" (Rh16)*

*"Rydym yn defnyddio llawer o ddata ansoddol., ac rwy'n credu y dylai fod yn ansoddol" (S5)*

Nododd Fearless ei fod yn casglu arolygon ar ddiwedd pob gweithdy er mwyn dangos newidiadau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd bwysig o gasglu adborth uniongyrchol gan bobl ifanc a'r hyn roedd cymryd rhan yn y gweithdy yn ei olygu iddynt. Roedd Braver Choices hefyd wedi defnyddio gwaith mapio bywyd ac wedi cynnal sesiwn yn canolbwyntio ar werthuso. Ystyriwyd bod sesiynau ac adnoddau yn ffordd dda o ddeall y materion a wynebir gan bobl ifanc, a oedd yn galluogi'r darparwyr ymyriadau i addasu a llywio eu cynnwys a'u hadnoddau cyflwyno. Rhoddodd Positive Masculinity enghreifftiau o'r ffordd roedd hefyd wedi addasu'r rhaglen yn seiliedig ar adborth.

*"Gallai'r hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaethau yn ein barn ni a'r hyn sydd ei angen arnyn nhw yn eu barn nhw fod yn hollol wahanol. Mae llais yr unigolyn yn hanfodol oherwydd dylem fod yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw mewn gwirionedd, nid y rhai sydd eu hangen arnyn nhw yn ein barn ni" (Rh16)*

Mae Parallel Lives yn gweithio gyda theuluoedd i greu Olwyn Bywyd, sef adnodd hunanasesu sy'n rhoi darlun gweledol o'r agweddau amrywiol ar fywyd person, fel yr "hunan", y "teulu", "iechyd", a phriodoleddau eraill. Ystyriwyd bod cwblhau adnoddau canlyniadau gyda phobl ifanc a theuluoedd yn eu helpu i fyfyrio a gweld yr hyn y maent wedi ei gyflawni, a oedd yn bwysig er mwyn helpu unigolion i deimlo'n gadarnhaol am gynnal newidiadau y tu hwnt i'r rhaglen.

*"Rwy'n credu mai dyna'r brif fantais, gweld cynnydd y person ifanc a'r newid ynddo ar ôl ychydig wythnosau" (Rh3)*

## 3.6 Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Ystyriwyd bod cyllid parhaus a buddsoddiad ychwanegol yn allweddol i alluogi gwasanaethau ac ymyriadau i barhau ac ehangu, ac roedd hyn yn cynnwys meithrin gallu o ran recriwtio ac uwchsgilio timau. Er bod y rhanddeiliaid wedi trafod rhwystrau cyllid byrdymor, gwnaethant gydnabod bod buddsoddiad gan yr Uned Atal Trais wedi rhoi sefydlogrwydd i wasanaethau, a dadleuodd y rhanddeiliaid fod angen ffrydiau cyllido tymor hwy a mwy sefydlog yn y dyfodol.

*"Mae angen i ni fuddsoddi arian mewn rhaglenni i dorri'r cylch hwnnw neu gael cymhellion i annog rhieni i gymryd rhan yn y rhaglenni lle rydym yn eu haddysgu nad trais yw'r ateb" (Rh13)*

*“Alla i ddatblygu partneriaeth ar gyfer rhywbeth y flwyddyn nesaf am fod gen i lawer o syniadau rwyf am eu rhoi ar waith. Ond pan fydd yr ansicrwydd hwnnw, yn amlwg gall fod yn fwy anodd weithiau" (Rh5)*

*“Fy mhrif bryder yw cynaliadwyedd ... os nas oes unrhyw gyllid arall i'w gynnal ... bydd yn cymryd llawer iawn o waith caled i wneud yn siŵr bod yr holl asiantaethau yn gallu parhau i gynnal y gwasanaeth maen nhw wedi'u rhoi ar waith. Byddai'n beth ofnadwy pe bai'r holl ddata, yr holl ymchwil sydd wedi'i gwneud yn y maes hwn, yn cael eu colli ... a byddai'n cael effaith fawr" (Rh16)*

Roeddent yn ffafrio cyfnod cyllido o dair blynedd er mwyn galluogi gwasanaethau i dyfu, recriwtio'n effeithiol a chynnal staff, ac er mwyn rhoi amser i ddangos canlyniadau.  Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn teimlo bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb gofal, a gwnaethant gydnabod effeithiau andwyol meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth i gefnogi rhywun i ymgysylltu â gwasanaethau, dim ond i'r gwasanaethau hynny gael eu tynnu'n ôl.

*“Mae'n ymwneud â'r rhwystredigaeth sy'n gysylltiedig ag anghysondeb ac ansicrwydd cyllid. Dibynadwyedd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu rhoi rhywbeth ar waith a fydd yno ymhen 12 mis ac ymrwymo iddo. Nid dim ond y staff, ond cleifion, y dioddefwyr, y troseddwyr. Rydych chi'n ceisio dweud wrth rywun a fydd yn eich cefnogi, ond yr wythnos nesaf, dyw e ddim yno. Mae'n anodd sicrhau credadwyedd pan fyddwch chi'n gwneud hynny" (Rh11)*

*“Oherwydd cyllid, mae cysondeb staff bob amser yn mynd i fod yn broblem, gan fod pobl bob amser yn chwilio am swydd arall gan eu bod o bosibl ar gontract blwyddyn, a dydyn nhw ddim yn gwybod a fydd cyllid ar gael" (Rh8)*

*“Weithiau mae pobl yn meddwl ei bod hi'n well iddyn nhw adael er mwyn dod o hyd i rywbeth mwy sicr. Ond pan fyddwch chi wedi meithrin cymaint o gydberthynas gyda'r bobl ifanc, mae hynny'n effeithio arnyn nhw" (Rh5)*

Er y nodwyd bod gwaith partneriaeth ac ymwybyddiaeth o weithgareddau atal trais yn dda, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y byddai'r Uned Atal Trais yn elwa ar hyrwyddo'r gwaith y mae'n ei wneud a'r ymyriadau y mae'n eu hariannu ymhellach. Gwnaethant awgrymu y dylai cydweithwyr o'r Uned Atal Trais fynychu cyfarfodydd timau prosiectau. Roedd cynlluniau hefyd i ddatblygu digwyddiadau Cymunedau Ymarfer drwy Bartneriaeth SAFE ymhellach, a nodwyd bod hyn yn ffordd bwysig o hyrwyddo ymarfer myfyriol.

*Mwy o waith hyrwyddo a mwy o ddeialog a sgwrs am hyn, sy'n rhywbeth y gall pob un ohonom ei gynnig" (Rh15)*

Ystyriwyd bod addysg yn allweddol i sicrhau newid hirdymor o ran lleihau troseddau cyllyll a mathau eraill o drais. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen mwy o fuddsoddiad ar gyfer y blynyddoedd cynnar a rhaglenni gwaith eraill gyda phlant a phobl ifanc. Roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio gweld mwy o ymgysylltu a rhannu gwybodaeth â sefydliadau addysg. Roeddent yn cydnabod bod angen cydweithio cryfach rhwng ymyriadau ac ysgolion. Nododd Parallel Lives, drwy feithrin dull rhagweithiol o nodi materion posibl yn yr ysgol a mynd i'r afael â nhw cyn iddynt droi'n heriau yn y cartref, a chreu rhwydwaith mwy creadigol sy'n cynnwys ysgolion, y gallai'r ymyriad helpu'r teuluoedd i ymdrin â materion a'u datrys yn fwy effeithiol.

Nododd y darparwyr ymyriadau nifer o argymhellion rhaglen-benodol hefyd, gan gynnwys meithrin gallu ar y cyd â gwasanaethau, targedu sesiynau Fearless at grwpiau llai, a datblygu gwaith partneriaeth SAFE gyda sefydliadau sy'n cynrychioli llais grwpiau lleiafrifol. Ystyriwyd lleoli staff y Tîm

Atal Trais mewn lleoliadau gofal iechyd a lleoliadau ehangach hefyd, gan nodi y gellid mabwysiadu gwersi a ddysgwyd yn Abertawe. Nododd y Tîm Atal Trais bwysigrwydd cyflwyno'r ymyriad ym mhob ysbyty lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod cymorth teg ar gael rhwng ardaloedd a bod modd trosglwyddo cleifion yn briodol wrth eu dychwelyd i'w hardal eu hunain o adran damweiniau ac achosion brys Caerdydd.

Awgrymwyd hefyd fod angen mwy o gyfleoedd allgyrsiol yn y gymuned er mwyn lleihau diflastod ac, felly, leihau trais. Galwyd am fwy o fuddsoddiad mewn gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys lleoliad lle y gall plant a phobl ifanc fynd i chwarae gemau.

*“Dydyn ni ddim am droseddoli pobl os nad oes rhaid i ni wneud hynny. Dyna'r peth pwysicaf. Rydyn ni'n gwybod os byddwn ni'n dechrau troseddoli pobl ifanc 13, 14, 15 oed, yna byddan nhw'n droseddwyr am oes. Mae angen ceisio gwneud yn siŵr bod y dacteg ddargyfeirio honno ar waith, fel ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i bawb beidio â dilyn y ffordd ailadroddus honno o fyw" (Rh17)*

*"Weithiau rwy'n credu bod angen targedu'r plant hynny sy'n dod yn rhan o hynny yn hytrach na'r flwyddyn gyfan" (Rh5)*

Cydnabu'r rhanddeiliaid effaith yr Uned Atal Trais a'r gwaith cydweithredol ar draws gweithgareddau atal trais yng Nghaerdydd. Gwnaethant drafod pwysigrwydd cynnal momentwm yn y dyfodol, er mwyn sicrhau na chaiff y gwaith ei golli. Roedd gan y rhanddeiliaid bryderon am gynaliadwyedd pan ddaw cyllid yr Uned Atal Trais ddod i ben, ac roeddent yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith y mae'r Uned wedi ei chael ac, o bosibl yn cynnig rhagor o gyllid i wasanaethau. Roeddent yn cydnabod uchelgais ar gyfer y dyfodol drwy gynllun datblygu lleol, 'Fframwaith Cymru heb Drais', a chyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Cydnabu'r rhanddeiliaid y dylai strategaeth fod yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a bod gwaith yr Uned Atal Trais a'i hetifeddiaeth yn rhan bwysig o hyn.

*“Rydym wedi gweld lleihad yn nifer y troseddau treisgar ers y llynedd, sydd wedi bod yn wych, ond mae'n ymwneud â chynnal y lleihad hwnnw" (Rh15)*

*“Rwyf am i'r strategaeth hon fod yn rhywbeth sy'n cael ei roi ar waith, sy'n gweithio'n dda, sy'n sicrhau effaith, sy'n gwneud gwahaniaeth, ac sy'n eich galluogi i fesur y canlyniad. Felly ymhen dwy flynedd, gallwn weld, o ganlyniad i'r strategaeth hon, bod hyn wedi lleihau ... mae hyn wedi gwella ... a bod pobl, yn y pen draw, yn teimlo'n fwy diogel yng Nghaerdydd" (Rh13)*

# 4. Deall canlyniadau system atal trais effeithiol yng Nghaerdydd

Er mwyn deall rôl y system atal trais ymhellach yng Nghaerdydd, defnyddiwyd canfyddiadau'r gwerthusiad i ddatblygu model rhesymeg. Mae datblygu damcaniaeth rhaglen yn allweddol i werthuso ymyriadau cymhleth [16] ac mae'r model rhesymeg hwn yn rhoi dealltwriaeth o ran sut a pham rydym yn disgwyl i weithgareddau atal trais Uned Atal Trais Caerdydd arwain at y canlyniadau byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun ehangach lle y caiff yr ymyriadau eu defnyddio, y dulliau newid, a galluogi ffactorau allanol.

## 4.1 Model Rhesymeg Caerdydd

| **Rhanddeiliaid allweddol** | **Rhaglenni Allweddol/ Dulliau a Gweithgareddau** | **Allbynnau** | **Canlyniadau** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Byrdymor** | **Tymor canolig** | **Hirdymor** |
| Cymunedau (e.e. pobl ifanc, teuluoedd, y cyhoedd, goroeswyr trais)<br><br>Yr Heddlu<br><br>Partneriaid academaidd<br><br>Byrddau Iechyd<br><br>Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | **SAFE** – Mae Partneriaeth SAFE yn cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno dull dinas gyfan o ymdrin â diogelu cyd-destunol, sy'n cynnwys dulliau diogelu i ymateb i risgiau unigol a chyfarfodydd diogelu amlasiantaeth â phartneriaid allweddol. Mae'n ymgysylltu â sefydliadau partner a gwasanaethau a gomisiynwyd ac yn eu cefnogi, er mwyn sicrhau bod prosesau clir ar waith i bobl ifanc gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, a datblygu dulliau i fonitro a gwerthuso effaith y cymorth a ddarparwyd<br><br>**Cyfiawnder Troseddol, Ymyriad Cyfleoedd Dysgu** | *Astudiaethau achos/astudiaethau lleol o effaith – wedi'u casglu gan raglenni/dulliau*<br><br>*Ffurflenni data chwarterol i'r Uned Lleihau Trais sy'n edrych ar weithgarwch prosiectau, canlyniadau, risgiau a gwersi a ddysgwyd.* Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>– Nifer yr atgyfeiriadau (gan gynnwys atgyfeiriadau a dderbyniwyd ac addas)<br><br>– Atgyfeiriadau a wnaed<br><br>– Y prif fath o anghenion cymorth arbenigol sydd gan yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect/ymgysylltu â'r | **UNIGOL/CYMUNEDOL**<br><br>Teimlo'n fwy diogel<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth (drwy addysg) o risgiau cyflawni trais a'r canlyniadau<br><br>Newid cadarnhaol yn ffordd o feddwl ac agweddau plant a phobl ifanc (drwy wybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol)<br><br>Pobl yn teimlo wedi'u grymuso'n fwy i atal trais drwy raglenni cymunedol | **UNIGOL/CYMUNEDOL**<br><br>Cymunedau'n teimlo'n fwy diogel<br><br>Mwy o gyfleoedd ar gyfer ymyriadau cynnar i'r rheini sy'n wynebu risg o drais<br><br>Cydberthnasau teuluol a rhyngbersonol gwell<br><br>Iechyd meddwl a llesiant gwell<br><br>Mwy o hyder i roi gwybod am drais<br><br>Defnyddio llai o gyffuriau/llai o ddibyniaeth ar gyffuriau<br><br>Llai o ymweliadau â'r adran damweiniau ac achosion brys | **UNIGOL/CYMUNEDOL**<br><br>Adsefydlu llwyddiannus<br><br>Llai o gylchoedd trais cenedliadol<br><br>Llai o aildroseddu<br><br>Llai o anafiadau yn gysylltiedig â thrais<br><br>Canlyniadau cyfiawnder troseddol gwell<br><br>Canlyniadau iechyd gwell sy'n gysylltiedig â |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Crimestoppers<br><br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Y Cyfryngau<br><br>Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Y Swyddfa Gartref<br><br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Y sector Mentrau | **Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu** – Darperir y gwasanaeth hwn yn nalfeydd yr heddlu lle mae gweithwyr achos MAC yn cynnal Cyfweliadau Cymell i asesu anghenion pobl ifanc ac archwilio unrhyw nodau ac uchelgeisiau a all fod ganddynt. Mae cymorth parhaus yn cynnig cyfleoedd, gweithgareddau rhag-gymdeithasol, a chyngor ar faterion amrywiol fel gyrfaoedd a thai<br><br>**Fearless, Crimestoppers** – Prif nod y rhaglen yw addysgu pobl ifanc am faterion troseddu a all effeithio arnynt a'u hannog i roi gwybod am droseddau y maent wedi'u gweld. Mae gweithwyr achos Fearless yn cynnal gweithdai sy'n seiliedig ar waith grŵp i bobl ifanc mewn lleoliadau addysg/cymunedol, sy'n defnyddio dull i fyny'r gadwyn o ymdrin â throseddu, gan drafod pynciau fel camfanteisio, troseddau casineb, troseddau cyllyll a llinellau | gwasanaeth a sut y caiff hyn ei fesur, gan gynnwys<br>– Demograffeg defnyddwyr gwasanaethau – oedran, ethnigrwydd<br>– Achosion wedi'u hagor a'u cau ar ddiwedd pob chwarter<br>– Astudiaethau achos<br>– Crynodeb o'r gweithgareddau a gynhaliwyd bob chwarter<br>– Crynodeb o unrhyw adborth ar y model cyflawni cyfredol a newidiadau allweddol a wnaed i'r model gwasanaeth<br>– Canlyniadau ac effeithiau'r gwasanaeth (defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill)<br>– Risgiau/materion a nodwyd<br>– Nifer yr unigolion a gefnogwyd sy'n 24 oed ac iau ac yn 25 oed a throsodd<br><br>– Crynodeb o ddysgu allweddol yn ystod y chwarter<br><br>– Blaengynllunio a chynaliadwyedd | Mwy o gymorth i oroeswyr troseddau<br><br>Cydberthnasau gwell â chyfoedion<br><br>Magu hyder mewn gweithwyr proffesiynol a meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw<br><br>Caiff plant a phobl ifanc eu grymuso i wneud penderfyniadau hyddysg ac i deimlo'n gadarnhaol am y dyfodol<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o ran sut i nodi'r rheini sy'n wynebu risg neu a all fod yn wynebu risg (e.e. ymwybyddiaeth gynyddol o gamfanteisio)<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o ran sut i gefnogi'r unigolion hyn mewn ffordd ddiogel<br><br>Mwy o ymdeimlad o gymuned<br><br>Llesiant gwell | Tystion yn cael eu grymuso i ymyrryd yn ddiogel<br><br>Deilliannau addysgol gwell (cyrhaeddiad, presenoldeb)<br><br>Plant a phobl ifanc yn deall ac yn gwybod ble i gael help os byddant yn rhan o weithgarwch troseddol a thrais<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o fewn cymunedau o ran ble i gael help/cymorth a sut i ddiogelu pobl ifanc<br><br>Nodi mwy o blant a phobl ifanc agored i niwed yn gynnar fel bod modd iddynt gael cymorth i'w hatal rhag dod yn rhan o drais neu droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau<br><br>Mwy o gyfleoedd i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | phenderfynyddion ehangach<br><br>Llai o stigma i deuluoedd y mae rhywun sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol wedi effeithio arnynt<br><br>Llai o blant a phobl ifanc yn cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithasol, Ffydd, Cymunedol a Gwirfoddol<br><br>Awdurdodau Lleol, gan gynnwys CMET, Diogelu Cyd-destunol, Addysg a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol | cyffuriau ac addysgu pobl ifanc amdanynt<br><br>**Braver Choices, MAC –** Rhaglen troseddau cyllyll gymunedol 12 wythnos wedi'i thargedu at unrhyw blant neu bobl ifanc yng Nghaerdydd sy'n cario arfau neu'n wynebu risg o hynny, gan gynnig llwybr carlam i gymorth ac ymyriad pwrpasol sy'n seiliedig ar gryfderau. Nod y rhaglen yw lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn cario arfau, canfod y rheswm sylfaenol pam y maent o bosibl yn cario arfau, eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, datblygu strategaethau ymdopi, a deall canlyniadau eu gweithredoedd.<br><br>**Parallel Lives, MAC** – Mae Parallel Lives yn darparu cymorth uniongyrchol yn ymwneud â Thrais a Chamdriniaeth gan Berson Ifanc tuag at Riant (APVA), gan ganolbwyntio ar newid ymddygiad pobl ifanc yn yr hirdymor. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael ag agweddau amrywiol ar APVA, gan gynnwys camdriniaeth | | Mwy o adroddiadau am droseddau treisgar (e.e., troseddau cyllyll, trais domestig)<br><br>Plant a phobl ifanc yn fwy gweladwy<br><br>Mwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi'u nodi ymhlith plant a phobl ifanc | | |
| | | | **EHANGACH/SYSTEM**<br><br>Mwy o waith cydweithredol ar draws sefydliadau partner<br><br>Sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn meddu ar fwy o wybodaeth leol ac yn deall anghenion eu cymunedau yn well<br><br>Dealltwriaeth well o'r gwasanaethau a ddarperir ar draws sefydliadau<br><br>Mwy o gysondeb o ran dulliau cyfathrebu ar draws sefydliadau<br><br>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o ddulliau sy'n ystyriol o drawma o atal trais<br><br>Dealltwriaeth well o'r data | **EHANGACH/SYSTEM**<br><br>Gallu gwell i adnabod rhwydweithiau troseddol yn effeithiol<br><br>Mwy o gyfleoedd i bartneriaid gydweithio wrth ymateb i drais a chefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt<br><br>Mwy o allu i ymateb i achosion sylfaenol trais yn hytrach na'r ymddygiad/trosedd<br><br>Dealltwriaeth well o lefelau pob math o drais, gan gynnwys 'niwed cudd', gan arwain at ostwng y lefelau hynny | **EHANGACH/SYSTEM**<br><br>Llai o alw am blismona am fod llai o achosion o drais<br><br>Gostyngiad yng nghost ariannol trais ar draws gwasanaethau<br><br>Gostyngiad mewn lefelau pob math o drais<br><br>Llai o anghydraddoldebau iechyd<br><br>Cynnydd mewn cynhyrchiant economaidd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gorfforol, geiriol, emosiynol ac ariannol. Mae sesiynau'r rhaglen yn ymdrin â thechnegau cyfathrebu, llythrennedd emosiynol, rhianta cadarnhaol, gweithrediad gwybyddol, gwrando gweithredol, ac ysgrifennu creadigol<br><br>**NHS Violence Prevention Team (VPT)** – Mae'r Tîm Atal Trais wedi'i leoli yn adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, gan godi ymwybyddiaeth o gyffredinrwydd trais sy'n gysylltiedig â chyllyll a chyffuriau. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddarparu sesiynau addysg a hyfforddiant yn uniongyrchol i staff yr adran damweiniau ac achosion brys (gan gynnwys aelodau eraill o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol), creu llwybr atgyfeirio a darparu presenoldeb gweladwy yn yr adran er mwyn helpu gydag unrhyw ymholiadau<br><br>**Positive Masculinity, MAC** – Rhoddwyd Menter Positive Masculinity ar waith er mwyn ehangu a chodi | | Mwy o allu dadansoddol o fewn sefydliadau<br><br>Gallu gwell i ddarparu cymorth atal ac ymyrryd yn gynnar yn ogystal ag ymatebion adweithiol i sefyllfaoedd sy'n codi mewn cymunedau lleol<br><br>Llai o bobl yn cario cyllyll<br><br>Mwy o brosesau diogelu<br><br>Mwy o ymgysylltu â'r bobl fwyaf bregus mewn cymunedau | Llai o fregusrwydd sy'n cynyddu'r risg o ddod yn rhan o drais<br><br>Mynediad gwell at gymorth ar gyfer grwpiau bregus sy'n wynebu risg<br><br>Llai o droseddwyr am y tro cyntaf yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol<br><br>Mwy o hyder i ymateb i drais a throseddau cyllyll mewn ysgolion (ysgolion)<br><br>Llai o niwed | Caiff y gwasanaethau a ddarperir eu llywio gan lais defnyddwyr gwasanaethau (plant a phobl ifanc) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymwybyddiaeth o faterion casineb at fenywod a'r 'manosffer' ac mae'n seiliedig ar ddiogelu cyd-destunol. Mae'r rhaglen yn rhoi arweiniad i ddynion ifanc o ran eu hunaniaeth ac yn eu galluogi i archwilio eu teimladau mewn amgylchedd diogel, gyda'r nod cyffredinol o annog a chefnogi pobl ifanc i fabwysiadu gwerthoedd ac agweddau rhag-gymdeithasol tuag at bobl, ni waeth beth fo'u rhywedd. | | | | |

## 4.2 Effeithiolrwydd – I ba raddau y mae'r ymyriad yn arwain at y canlyniadau a fwriadwyd neu y gallai arwain atynt?

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o atal pob math o drais yng Nghymru. Nod yr Uned Atal Trais yw cyflwyno dull systemau cyfan o atal trais drwy ddull pedwar cam: Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu. Roedd y gwerthusiad systemau cyfan yn fodd i archwilio'r gweithgareddau atal trais, sut y cawsant eu rhoi ar waith a'u cynnal, a'r gwahaniaeth y mae'r ymyriadau wedi'u gwneud i'r bobl ifanc y cawsant eu dylunio i'w cefnogi. Mae'r holl ymyriadau yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc drwy eu hatal rhag dod yn rhan o achosion o drais, neu leihau'r risg i bobl ifanc sy'n agored i niwed neu'r rheini sydd eisoes wedi wynebu trais a/neu drais ymhlith plant a phobl ifanc.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos i ba raddau y mae gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd, sef lleihau'r risg o ddod yn rhan o achosion o drais a niwed cysylltiedig trais ymhlith plant a phobl ifanc. Drwy'r Uned Atal Trais, bu modd buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu ymyriadau a llwybrau cymorth i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg a'u cyfeirio at gymorth priodol ar draws y system.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos y canlyniadau i'r bobl ifanc a fanteisiodd ar yr ymyriadau. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau o ran hyder, hunan-barch, gwydnwch, gorbryder, ac iselder. Cawsant eu cefnogi i ddatblygu strategaethau ymdopi gwahanol. Dywedodd y bobl ifanc eu bod wedi cael tawelwch meddwl ac wedi teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gwrando arnynt wrth gymryd rhan yn yr ymyriadau. Ymysg y canlyniadau eraill a nodwyd roedd gwelliannau o ran tai ar gyfer unigolion hŷn ag anghenion cymhleth a oedd yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn galluogi pobl ifanc mewn sefyllfaoedd tebyg i ddod ynghyd i gael cymorth gan gymheiriaid. Roedd cefnogi pobl ifanc i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn un o nodau allweddol yr holl ymyriadau, a chydnabu'r rhanddeiliaid ffactorau amddiffynnol addysg. Ystyriwyd bod eirioli dros bobl ifanc ac addasu rhaglenni i redeg o fewn/ochr yn ochr ag ysgolion yn hanfodol i atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o ysgolion a'r effeithiau negyddol hirdymor sy'n gysylltiedig â hyn. Cafwyd adroddiadau hefyd am ymddygiad gwell mewn ysgolion. Tynnodd y canfyddiadau sylw at bwysigrwydd ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau ystyrlon a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dargyfeirio a modelau rôl cadarnhaol yn y gymuned. Ystyriwyd bod dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn bwysig i alluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau newydd a chydnabod a gwella unrhyw sgiliau presennol, a chredwyd bod hynny'n bwysig i feithrin eu hyder a'u helpu i ddatblygu dyheadau i symud ymlaen yn eu bywydau.

Nodwyd gwelliannau o ran gwybodaeth yn ganlyniad sylweddol i bobl ifanc. Dangosodd adborth a ffurflenni gwerthuso a gasglwyd o fewn gwasanaethau gyfrannau uchel o wybodaeth ac agweddau gwell. Drwy ddeall canlyniadau cyfreithiol bod yn rhan o droseddau, risgiau camfanteisio, a'r effeithiau iddyn nhw eu hunain ac eraill, gallai pobl ifanc wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth yn y dyfodol. Ystyriwyd bod cynnwys pobl ifanc yn y broses yn ffordd bwysig o'u helpu i ddeall eu sefyllfa. Credwyd bod ymwybyddiaeth o sut a ble i gael gafael ar gymorth yn amhrisiadwy i bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni wedi'u targedu ac y gallai fod angen cymorth arnynt yn y dyfodol, ac i'r bobl hynny a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai ac a oedd bellach yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth pe bai ei angen arnynt. Rhoddodd y gweithgareddau hefyd ymwybyddiaeth iddynt o ran sut i roi gwybod am droseddau a'r hyder a'r sicrwydd angenrheidiol i wneud hynny yn ddienw neu siarad â gweithwyr proffesiynol. Credwyd bod hyn yn allweddol i leihau'r stigma a symud i ffwrdd oddi wrth ddiwylliant o 'gario straeon'. Yn bwysicach, nodwyd nad oedd pobl yn ymwybodol o'r wybodaeth hon cyn i'r ymyriadau hyn gael ei darparu ledled Caerdydd.

Mae adborth gan y bobl ifanc yn awgrymu eu bod yn llai tebygol o gario cyllell neu arf am eu bod bellach yn teimlo'n fwy diogel a hyderus. Awgrymwyd hefyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n rhoi gwybod am droseddau. Credai nifer o bartneriaid fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o gyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais ymhlith plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â throseddau cyllyll. Yn y tymor hwy, roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai llai o droseddau treisgar, gan gynnwys llai o bobl ifanc yn cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i droseddau cyllyll a thrais, gan arwain at ragolygon gwell mewn bywyd i'r rhai dan sylw.

Dangoswyd effeithiau ehangach o ran cydberthnasau gwell rhwng pobl ifanc â'u ffrindiau a'u teulu. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffordd roedd ymyriadau yn cefnogi rhieni, brodyr a chwiorydd, ac aelodau ehangach o'r teulu hefyd. Drwy fanteisio ar gymorth drwy wasanaethau ar gyfer y plant, roedd rhieni yn cael cyfleoedd i gael cymorth ychwanegol ar gyfer y teulu cyfan. Nododd gwasanaethau fwlch mewn darpariaethau i rieni, yn enwedig wrth aros i'r person ifanc gydymffurfio a manteisio ar gymorth. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar rieni ac adnoddau, cyrsiau ac ymgyrchoedd. Casglodd gwasanaethau adborth gan rieni, a oedd yn dangos y budd yr oedd rhieni yn ei gael o'r cyfle i ddod ynghyd gyda rhieni eraill i rannu eu profiadau a chefnogi ei gilydd. Roedd hyn yn helpu i leihau'r stigma a'r cywilydd yr oedd rhai rhieni, gofalwyr, a phobl ifanc yn eu teimlo. Dywedodd rhieni eu bod wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o risgiau camfanteisio, a phrosesau cyfreithiol i helpu i gefnogi eu plant, a oedd, yn ei dro, wedi rhoi'r hyder iddynt reoli ymddygiad eu plentyn yn well. Roedd hyn wedi arwain at lai o ofn a phryder, a theimladau cynyddol o ddiogelwch. Mae creu mannau ac amgylcheddau diogel hefyd wedi arwain at deimladau cynyddol o ddiogelwch yn y gymuned.

Mae'r darparwyr ymyriadau yn monitro lefelau ymgysylltu a chanlyniadau drwy adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais a'r Swyddfa Gartref. Caiff gwaith adrodd ychwanegol ei gwblhau o fewn sefydliadau gan gynnwys gwaith monitro rheolaidd a llunio adroddiadau. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron ar ôl sesiynau a gweithdai, a oedd yn galluogi gwasanaethau i ddefnyddio adborth i wella dulliau cyflwyno a chanlyniadau, a oedd yn helpu teuluoedd i fyfyrio ar gynnydd. Fodd bynnag, nid oedd yr holiaduron hyn bob amser ar gael at ddibenion gwerthuso. Cydnabu'r rhanddeiliaid yr heriau o ran dangos effaith. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth fesur gwaith atal, dangos canlyniadau at ddibenion cynaliadwyedd prosiect, a mesur canlyniadau tymor hwy. Roedd hyn hefyd yn cynnwys heriau dull systemau cyfan drwy gamau gwahanol bywyd, a oedd yn golygu na fyddai llawer yn gweld canlyniadau o fewn amserlenni eu prosiectau. Cytunwyd bod angen i ganlyniadau fod yn weladwy ac yn hawdd eu mesur, ac y dylent ganolbwyntio ar gasglu canlyniadau mwy meddal a naratif taith, gan gynnwys llais defnyddiwr y gwasanaeth.

## 4.3 Damcaniaeth – Beth sy'n gweithio ym mha amgylchiadau?

Mae nodi a deall penderfynyddion ehangach iechyd a ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar bobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghaerdydd, yn hanfodol. Tynnodd partneriaid sylw at yr anghenion cymhleth ledled Caerdydd a'r grwpiau penodol yr oedd yr ymyriadau yn eu targedu. Gwnaethant ddisgrifio'r ffactorau risg i bobl ifanc, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, niwroamrywiaeth, ac iechyd meddwl gwael.

Roedd gan gyfrannau uchel a chynyddol o bobl ifanc anghenion ychwanegol hefyd, gan gynnwys cymorth ar gyfer niwroamrywiaeth. Roedd llawer o bobl ifanc wedi ymddieithrio o'r ysgol, gan dynnu sylw at rôl hanfodol addysg wrth greu ffactorau amddiffynnol. Roedd bwlch hefyd o ran gwasanaethau yn ystod y cyfnod pontio pwysig i fyd oedolyn ar gyfer pobl ifanc a allai syrthio rhwng bylchau. Roedd pandemig COVID-19 wedi cynyddu cymhlethdod anghenion, wrth i wasanaethau nodi mwy o heriau i bobl ifanc, gan gynnwys ynysu cymdeithasol, iechyd meddwl a llesiant gwael, a newidiadau mewn ymddygiad. Roedd hefyd mwy o achosion o drais yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a mwy o

ferched y dod yn rhan o achosion o drais yn yr ysgol, ac roedd angen cymorth ar grwpiau oedran iau. Nodwyd rhwystrau i deuluoedd rhag ymgysylltu â gwasanaethau am eu bod wedi colli ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol, wedi cael profiadau negyddol blaenorol, ac yn teimlo wedi'u llethu o ganlyniad i ymwneud â sawl sefydliad. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i wasanaethau gydweithio i ddarparu cymorth hygyrch a chofleidiol ar gyfer y teulu cyfan.

Mae deall y ffactorau cyd-destunol a all ddylanwadu ar y broses o fabwysiadu'r ymyriad, ei gyrhaeddiad a'r gwaith o'i gynnal yn allweddol i ddeall yr hyn sy'n gweithio mewn amgylchiadau penodol. Ymysg y rhwystrau i gyflawni ar gyfer darparwyr ymyriadau roedd oedi wrth recriwtio a oedd yn effeithio ar y broses o roi ymyriadau ar waith, natur fyrhoedlog cyllid a oedd yn arwain at ansicrwydd swyddi i staff, a gweithio gydag adnoddau a chapasiti cyfyngedig. Credwyd bod effaith y pandemig wedi cynyddu cymhlethdodau a'r galw am wasanaethau. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd deall lefel y gwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi cymunedau'n effeithiol. Tynnwyd sylw at rwystrau o ran rhannu gwybodaeth, sicrhau bod data'n cael eu casglu yn effeithiol a bod partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn dangos effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau.

Cafodd yr ymyriadau eu dylunio, eu datblygu a'u darparu gan dimau o staff profiadol, a ddefnyddiodd ddull sy'n ystyriol o drawma i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd darparu gofod diogel heb farnu yn allweddol i chwalu'r rhwystrau ac ymgysylltu â phobl ifanc. Rhoddodd yr holl ddarparwyr ymyriadau enghreifftiau o'r ffordd y cafodd dulliau cyfathrebu, sesiynau ac adnoddau eu haddasu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. Ystyriwyd bod hyblygrwydd a meithrin cydberthnasau cryf yn allweddol i ymgysylltu'n llwyddiannus, a nododd darparwyr fod niferoedd da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau atal trais. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn cydnabod y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â meithrin cydberthnasau a sicrhau gofal cyson er mwyn cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu yn y lle cyntaf, a'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnal yr ymgysylltu hwnnw, a all fod yn anodd ei ddogfennu yn aml. Ystyriwyd bod cael staff profiadol a medrus yn allweddol i gynnal ymgysylltu, am fod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i edrych y tu hwnt i'r ymddygiad/digwyddiad cychwynnol, ennyn ymddiriedaeth pobl ifanc ac eirioli drostynt.

Mae ymyriadau yn darparu enghreifftiau o sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif drwy achub ar gyfleoedd yn ystod argyfwng, er enghraifft yn ystod ymweliad ag adran damweiniau ac achosion brys neu pan fydd unigolyn yn cael ei arestio gan yr heddlu, i ymyrryd a defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma i edrych y tu hwnt i'r broblem neu ymddygiad cychwynnol i ddeall unrhyw achosion sylfaenol. Mae cysylltu'r ymyriadau statudol hyn â chymorth cymunedol yn cynnig llwybr lle y caiff anghenion person ifanc eu nodi'n gyflym, ac y caiff y person ifanc wedyn ei drosglwyddo i lwybr addas o ofal tymor hwy. Mae'r gwaith parhaus hwn yn rhoi cysondeb i bobl ifanc gynnal cydberthnasau, ymgysylltu, a chynnal canlyniadau yn y tymor hwy.

## 4.4 System – Sut mae'r system a'r ymyriadau yn addasu i'w gilydd?

Mae'r Uned Atal Trais yn defnyddio dull systemau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd. Mae angen dull systemau cyfan i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig a chydweithredol sy'n sicrhau newid hirdymor. Mae gwerthusiad systemau cyfan yn canolbwyntio ar sut mae ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn rhyngweithio â'i gilydd i gyfrannu at newid systemau.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad o astudiaethau achos yn dangos effaith gweithgareddau atal trais ar y system ehangach Mae'r model comisiynu a chyflawni yn cyfrannu at nodau cyffredinol ehangach lleihau trais ymhlith plant a phobl ifanc yn ogystal ag unrhyw niwed cysylltiedig er mwyn creu cymunedau mwy diogel ledled Caerdydd. Roedd buddsoddiad gan yr Uned Atal Trais wedi ychwanegu

gwerth at sefydliadau presennol i wella ymyriadau ac adnoddau presennol a datblygu rhai newydd. Roedd y buddsoddiad hefyd wedi eu galluogi i feithrin gallu ac uwchsgilio eu gweithlu er mwyn cyrraedd mwy o bobl ifanc a theuluoedd ledled Caerdydd na fyddent o bosibl wedi cael cymorth fel arall.

Mae'r Uned Atal Trais wedi sefydlu rhwydwaith rhanddeiliaid mawr er mwyn helpu'r Uned i sefydlu a chydlynu gweithgarwch atal trais yn genedlaethol. Dywedwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a meithrin cydberthnasau i weithio mewn partneriaeth. Roedd gweledigaeth glir a rennir ymysg partneriaid ar gyfer defnyddio dull iechyd y cyhoedd cydgysylltiedig o atal trais. Roedd datblygu llwybrau atgyfeirio a meithrin cydberthnasau ffurfiol rhwng gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau statudol a sefydliadau cymunedol, yn hyrwyddo trefniadau cydweithio ac ymwybyddiaeth o wasanaethau. Ystyriwyd bod gwaith partneriaeth ar draws aelodau'r Uned Atal Trais yn un o'r prif gryfderau yng Nghaerdydd, gan fod ymwybyddiaeth dda o sefydliadau a phartneriaid gwahanol, a oedd, yn ei dro, yn eu galluogi i gydweithio â'i gilydd yn fwy effeithiol. Rhoddwyd enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â rhannu gwersi a ddysgwyd a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Roedd gweithio gyda'r Uned Atal Trais yn gyfle i rannu gwybodaeth. Trafododd nifer o randdeiliaid fanteision rhannu data â'r Uned Atal Trais a chael data ganddi, a'r ffordd roedd y data hyn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys Porth Atal Trais Cymru ar gyfer data dienw ar drais yng Nghymru, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty, galwadau am ambiwlans, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad, a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Mae rhannu data â'r Uned Atal Trais yn helpu i feithrin dealltwriaeth realistig o'r sefyllfa ac yn cynnig llif cyfathrebu dwyffordd rhwng nifer o asiantaethau.

Nodwyd bod cyfarfod diogelu cyd-destunol amlasiantaeth Partneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) yn llwyfan allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth, gan greu darlun o anghenion lleol i ddatblygu ymateb amlasiantaeth. Roedd hefyd yn galluogi partneriaid i rannu cyngor a chanllawiau, ac yn rhoi cyfrifoldeb a rennir iddynt i gefnogi pobl ifanc yn well. Roedd hyn yn golygu bod mwy o ddata a gwybodaeth yn cael eu rhannu, a oedd yn llywio gweithgarwch yr heddlu, gwaith patrôl a tharfu mewn ardaloedd problemus, ac ymatebion amlasiantaeth wedi'u teilwra yn dilyn digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â thrais.

Drwy gydnabod penderfynyddion cymdeithasol iechyd drwy gamau gwahanol bywyd, mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le yn darparu fframwaith sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau penodol, drwy sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau ar gyfer y 'lle cyfan', nid unigolion yn unig. Mae hyn yn sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n ymarfer gweithredol a'i ymgorffori ar draws y system ehangach. Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethau gan olygu bod ganddynt gyrhaeddiad ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Roedd effaith ehangach ar draws y system hefyd yn cynnwys gwybodaeth well ymhlith gweithwyr proffesiynol drwy feithrin cydberthnasau newydd, rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu'n agos â'r ymyriadau, a thrwy gael hyfforddiant ac arweiniad gan staff ymyrryd. Mae hyn wedi arwain at waith partneriaeth gwell, rhannu gwybodaeth yn well, mwy o wybodaeth ymhlith y gweithlu ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws y system atal trais, ac ystyriwyd bod hyn oll yn chwalu rhwystrau i atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli, er mwyn eu helpu i symud ymlaen yn eu bywydau.

Cydnabu'r Uned Atal Trais yr angen i ddylanwadu ar newid ehangach, cynaliadwy drwy ddylanwadu ar asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori dulliau iechyd y cyhoedd yn eu gwaith, i wella ymatebion rhyngasiantaethol ac i ymgorffori newid ar lefel system. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos na fyddai'r canlyniadau hyn ar draws y system wedi cael eu cyflawni heb gyllid a chymorth

yr Uned Atal Trais i sefydlu a chynnal llwybrau cymorth. Ystyriwyd bod cyllid parhaus a buddsoddiad ychwanegol yn allweddol i alluogi gwasanaethau ac ymyriadau i barhau ac ehangu, ac roedd hyn yn cynnwys meithrin gallu o ran recriwtio staff yn y dyfodol ac uwchsgilio timau presennol. Tynnodd partneriaid sylw at y ffaith na fyddai gan ddarparwyr yr un sefydlogrwydd a chyrhaeddiad i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd heb gyllid parhaus a hirdymor. Nodwyd bod hyn yn bryder o ystyried y cymhlethdodau cynyddol a wynebir gan gymunedau a'r gofynion cynyddol ar y system.

Ystyriwyd bod addysg yn allweddol i sicrhau newid hirdymor o ran lleihau troseddau cyllyll a mathau eraill o drais. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen mwy o fuddsoddiad ar gyfer y blynyddoedd cynnar a rhaglenni gwaith eraill gyda phlant a phobl ifanc. Roedd galwadau hefyd am fuddsoddiad mewn gweithgareddau dargyfeirio er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn y gymuned feithrin sgiliau a datblygu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn hefyd yn cynnig man diogel lle y gallent integreiddio gyda'u cymunedau. Wrth edrych i'r dyfodol, credwyd bod parhau i weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio fframwaith yr Uned Atal Trais yn allweddol i gynnal cydberthnasau a chynnal momentwm ar gyfer dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i gyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

## 4.5 Mireinio'r ymyriad – argymhellion

- Gellid cryfhau cydberthnasau ag ysgolion ac ennyn mwy o ddiddordeb gan bartneriaid addysg. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan sefydliadau addysg fewnbwn allweddol mewn cyfarfodydd partneriaeth ac yn cynyddu cyfranogiad mewn ysgolion. Gallai'r Uned Atal Trais helpu i wella'r cydberthnasau hyn, ond gallai fod angen cymorth gan y llywodraeth i hwyluso cyfranogiad.
- Mae datblygu llwybrau fel y Tîm Atal Trais a Cyfleoedd Dysgu Digymell yn enghreifftiau o ddod â phartneriaid statudol a gwirfoddol ynghyd yn effeithiol i greu cymorth cofleidiol a chwalu rhwystrau i gyfranogi. Dylid dysgu o'r model hwn er mwyn datblygu llwybrau a gwaith partneriaeth ar draws sectorau yn y dyfodol.
- Mae angen buddsoddiad tymor hwy er mwyn creu gwasanaethau sefydlog a gofal cyson. Dylai gwasanaethau atal trais weithio ochr yn ochr â'r Uned Atal Trais i ddatblygu achos busnes a model cynaliadwy y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais.
- Mae angen buddsoddi mewn gweithgareddau dargyfeirio a mannau cymunedol er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn man diogel yn eu cymuned. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn denu pobl ifanc sy'n NEET.
- Drwy fuddsoddiad gan yr Uned Atal Trais, bu modd ehangu cyrhaeddiad yn y gymuned. Bu modd hefyd i'r gweithlu uwchsgilio, o ran ymarfer atal trais ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Mae'n bwysig bod unrhyw waith a gyflwynir yn y dyfodol gan yr Uned Atal Trais ac fel rhan o waith arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Trais Difrifol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer meithrin gallu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol.
- Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos cyfoeth o wybodaeth a gesglir drwy'r gweithgareddau atal trais gwahanol a setiau data ehangach ledled Caerdydd. Gellid darparu rhagor o wybodaeth ar y Porth Atal Trais i annog y defnydd o waith mapio tueddiadau yn lleol. Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu'r Porth yn y dyfodol, gan gynnwys cael ffynonellau data ychwanegol a'r gallu i fapio ardaloedd gwahanol yng Nghaerdydd.
- Mae'r adroddiadau monitro chwarterol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais, diweddariadau am gynnydd a chanlyniadau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, ni chaiff yr adroddiadau eu cwblhau mewn ffordd gyson ar draws y gwasanaethau gwahanol, gan olygu ei bod hi'n anodd mesur effaith ar draws y system. Mae'r ffurflenni wedi'u newid yn ddiweddar i ddarparu fformat mwy safonol a fydd,

gobeithio, yn gwella cysondeb data. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gasglu gwybodaeth ansoddol.

- Ystyriwyd bod gwerthuso hirdymor yn allweddol i fesur effeithiau tymor hwy yr Uned Atal Trais. Felly, mae'n bwysig bod canlyniadau mwy meddal, gan gynnwys cynnydd gyfer unigolion ac ar draws y system, hefyd yn cael eu monitro. Dylai gwasanaethau barhau i gasglu astudiaethau achos, gan ddefnyddio pecyn cymorth gwerthuso yr Uned Atal Trais hefyd i nodi ffordd gyson o fesur canlyniadau mwy meddal gan ddefnyddio data ansoddol.
- Caiff y rhan fwyaf o'r ymyriadau eu gwerthuso'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i bartneriaid gwerthuso ddod ynghyd i ffurfio grŵp cynghori ar werthuso i rannu canfyddiadau a chysoni dulliau recriwtio er mwyn sicrhau nad ymchwilir yn ormodol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau ac na ofynnir gormod ganddynt.
- Mae adborth gan bobl ifanc yn dangos pwysigrwydd cynnwys llais defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio ymyriadau, eu rhoi ar waith, eu darparu a'u gwerthuso. Dylai darparwyr gwasanaethau a gwerthuswyr barhau i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio a darparu ymyriadau, gan ymgorffori prosesau cyd-gynhyrchu lle y bo'n bosibl. Dylai hyn fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwerthusiadau blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais er mwyn deall gwaddol yr Uned Atal Trais yn well a datblygu cynllun cynaliadwyedd.

# 5. Cyfeiriadau


(1) Uned Atal Trais Cymru (2021). Model Gweithredu Uned Atal Trais Cymru (Adroddiad Blynyddol Uned Atal Trais Cymru 2020/21). Ar gael yn: https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2021/09/Uned-Atal-Trais-Cymru-Adroddiad-Blynyddol-2020-21.pdf

(2) Uned Atal Trais Cymru (2020). Strategaeth ATAL i atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc yn Ne Cymru 2020-2023 Ar gael yn: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Uned_Atal_Trais_Atal_Strategaeth_2020-2023.pdf

(3) Uned Atal Trais Cymru (2020). Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc yn Ne Cymru. Asesiad o Anghenion Strategol. Ar gael yn: https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/Trais-Difrifol-ymhlith-Pobl-Ifanc-yn-Ne-Cymru_Asesiad-o-Anghenion-Strategol_Adroddiad-ar-y-prif-bwyntiau.pdf

(4) Maxwell, N. a Corliss, C. (2020). Arfer da o ran atal trais ymhlith pobl ifanc: Adolygiad mapio a sganio'r gorwel. Ar gael yn: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Arfer-da-o-ran-atal-trais-ymhlith-pobl-ifanc-Adolygiad-mapio-a-sganior-gorwel.pdf

(5) NICE (2010). Identifying the key elements and interactions of a whole system approach to obesity prevention. Golygwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Llundain; Peninsula Technology Assessment Group. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ph42/evidence/review-1-identifying-the-key-elements-and-interactions-of-a-whole-system-approach-to-obesity-prevention-69056029

(6) Bagnall et al., (2019). Whole systems-approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review. BMC Public Health. Ar gael yn: https://bmcpublichealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12889-018-6274-z

(7) PHE (2019). A Whole-System Multi-Agency Approach to Serious Violence Prevention. A Resource for Local System Leaders in England. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/862794/multi-agency_approach_to_serious_violence_prevention.pdf

(8) Y Swyddfa Gartref (2018). Serious Violence Strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/serious-violence-strategy

(9) Timpson et al., (2020). Evaluation of the Violence Prevention Unit. Year 1 Findings (2019/20). Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Evaluation-of-the-Wales-Violence-Prevention-Unit-Year-1-Full-Report.pdf

(10) Timpson et al., (2021). Uned Atal Trais Cymru: Adroddiad Gwerthuso Systemau Cyfan (2020/21). Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Uned-Atal-Trais-Cymru-Adroddiad-Gwerthuso-Systemau-Cyfan-2020-21.pdf

(11) SYG. (2023). *How life has changed in Cardiff: Census 2021.* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000015/ [Cyrchwyd 27 Mawrth 2024].

(12) Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. (2017). Caerdydd a Bro Morgannwg: Asesiad o anghenion y boblogaeth ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig Caerdydd a Bro Morgannwg. Ar gael yn: https://cavrpb.org/app/uploads/2022/10/Final-Cardiff-and-Vale-PNA-March-2017.pdf. [Cyrchwyd 27 Mawrth 2024].

(13) Llywodraeth Cymru. (2021). Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: dadansoddiad amddifadedd sy'n ymwneud â phlant ifanc. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-dadansoddiad-amddifadedd-syn-ymwneud-phlant-ifanc-html [Cyrchwyd 27 Mawrth 2024].

(14) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (dim dyddiad). Cynllun iechyd y cyhoedd lleol Caerdydd a'r Fro 2019-2022. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: https://cavuhb.nhs.wales/files/public-health/key-publications/ph-plan-19-22-190927-1-final1-pdf/#:~:text=Health%20inequalities,-There%20is%20considerable&text=Life%20expectancy%20is%20around%20ten,Cardiff%2C%20and%20in%20Central%20Vale. [Cyrchwyd 27 Mawrth 2024]

(15) Llywodraeth Caerdydd. (dim dyddiad). Adroddiad Perfformiad Canol Blwyddyn 2023/24. Llywodraeth Caerdydd. Ar gael yn: https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s74832/Asesiad%20Perfformiad%20Attodiad%20A.pdf?LLL=1. (Cyrchwyd 27 Mawrth 2023).

(16) Skivington et al., (2021). A new framework for developing and evaluating complex interventions: update of Medical Research Council guidance. *BMJ* 2021; 374:n2061. Ar gael yn: https://www.bmj.com/content/374/bmj.n2061

Uned Atal Trais Cymru, Siambrau'r Farchnad, 2-5 Heol
Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk | 02920 338450

Uned **Atal** Trais
Violence **Prevention** Unit

PHI Public Health Institute
LIVERPOOL JOHN MOORES UNIVERSITY

LIVERPOOL JOHN MOORES UNIVERSITY